GWIRIONEDD:

Y

GREFYDD CRIST NOGOL.

O Waith

HUGO GROTIUS.

A Gyfjeithwyd Gan *Edward Samuel* Perſon *Bettws Gwerfil Goch.*

Hoſea 14. 9.

Pwy ſydd ddoeth, ac Efe a ddeall hyn, a deallgar ac Efe ai gwybydd? Canys union yw ffyrdd yr Arglwydd, ar rhai cyfiawn a rodiant ynddynt: Ond y Troſeddwyr a dramgwyddant ynddynt.

Dihar. 8. 33.

Wrandewch Addyſc, a byddwch Ddoethion, nac Ymwrthodwch a hi.

Argraphwyd yn y *Mwythig* Gan *John Rhydderch* yn y Flwyddyn, 1716.

At y Darllennydd.

PWY bynnag a fwrio Olwg ar hyn o Lyfran mor bwyllog ac mor yſtyriol ag y gwedda ir defnydd rhagorol y cyfanſoddwyd Ef o honaw, nid rhaid byth ddywedyd iddo ſuddioled a godidoeced ydyw; gan ei fod yn cadarnhau Sylfaen a gwreiddyn y Grefydd Griſt'nogol, yn goleufyn-egi Sicerwydd ei holl Brif bynciau ardderchoccaf, gyda phurdeb a Gwirionedd ei Hyſgrythyrau; ac yn dadcan ei Godidowgrwydd rhagor pob Crediniaethau eraill cyn llwybreiddied a chyn llithricced mor ddibetrus ac mor gadarn-ddihaf arch, nad all neb ai darllenno ai hyſtyrio ac ai deallo, amgen na gweled a chydnabod pa achoſion anfeidrol ſydd iddynt i ymlynu yn ddiyſcog yn eu Proffeſs, i ymdreeh *Ymmblaid y Ffydd a roddwyd unwaith ir Sainct.* ac i dreſnu eu Buchedd au Hymarweddiad yn gyfattebol; gan ſod iddynt y fath hyſpyſrwydd diammeu am Wirionedd eu crediniaeth, ar fath ddilys eglurdeb am Wobr Gogoneddus a thaledigaeth.

Eglur ddadcan y Gwirioneddau dwys-fawr hyn yw Sylwedd a pherwyl y Traethawd di-gymmar ſydd gereich bron; ar cwbl yndo ſydd gwedi ei oſod allan cyn gywreinied a chyn gyflawned ac

etto cyn fyrred, twy gyfryw ddyfndwr Dyſceidiaeth, af fath ddoeth ymreſymmiad didwyll anorfod, nas gwn i erioed ddarllain na chlywed fôn am un oi faint yn eilfydd iddo. Ond beth a dâl fy marn i am bath wrth Dyſtiolaeth cynnifer o Brif Dyſcedigion pob Gwlâd *YnGhrêd*, gydnabyddant am Awdur y Llyfr yma, Ei fod yn ei anſer yn un o *Oleuadau*, diſcleiriaf holl *Europa*. am bob math ar Ddoethineb a Dyſceidiaeth, fel y mae hefyd amryw Lyfrau Eraill oi Waith Ef, a hwn yn anad un yn hollawl-fynegi.

Mor ddefnyddiol hefyd ac angenrheidiol y barnwyd *Hwn*, ai fod mewn brî a chymmeriaeth gydâ phob Gwŷr o Ddyſc yn y *Llading-jaith* y Cyfanſoddwyd Ef ynddi, ac wedi ei gyfieithu ir rhan fwyaf or Jeithoedd Sathredig yn y Parth yma or Byd (ſef Jeithoedd y *Saeſon*, y *Ffrancod*, yr *Ellmyn*, yr *Italiaid*, ac Eraill, a rhai hefyd o Jeithoedd *Aſia*) er mwyn jawn Sylfaenu 'r Bobl Gyffredin ymmhob Gwlad, *YnGwirionedd* a ſiccrwydd y *Grefydd Griſt'nogol*. Ac dyma 'r Achos a barodd ir Awdur ei 'ſgrifennu ar y cyntaf yn Jaith ei Wlâd ei hun, ar Draethod Cynghanedd er llês y *Cyffredin*, *yn enwedig y Morwyr*, er mwyn eu ſefydlu yn y Ffydd au harfogi yn erbyn Gau-Grediniaethau, *Cenhedloedd* ac *Juddewon* a *Mahumediaid*, fel y mae 'n mynegu 'n helaeth yn y Rhagymadrodd.

Gan ei fod wrth hynny gwedi ei gyfanſoddi ar y cyntaf, er cyfarwyddid a Gwybodaeth ir Gwerin cyſtal ac ir Dyſcedig, ai gyfieithu mewn amryw Dafodau o herwydd yr un perwyl rwy 'n gobeithio na wêl neb fai am ryfygu o honof ei droi hefyd yn Gymraeg er mwyn ein Cydwladwŷr ninnau. Mae cyn rheitied i ni ag i Bobl

Eraill fedru *rhoddi Rheſwm am y gobaith ſydd ynom*; Mae *Efrau* yſowaeth gwedi eu hau yn ein plith ni cyn dewed ac mewn mannau eraill; ac nid wy'n deall nad oes gan bob math o Drigolion *Cymru* gyſtal Athrylith a Synhwyr Naturiol i wrando a dirnad Rheſwm, i wybod rhagoriaeth rhwng da a drwg, rhwng Cam ac Union, ac rhwng Gwir ac Anwir, ag ſydd gan Eraill o'u Cŷd-râdd yn y Gwledydd o'u hamgylch. Gobeithio ynteu y gall y rhai'n dderbyn cymmaint lleſhâd ac adeiladaeth wrth ddarllain y Llyfr yma yn Gymraeg ac y gafodd eu cyffelyb yn holl ardaloedd *Crêd* wrth ei ddarllen yn Jeithoedd y Broŷdd hynny.

Ac nid ydyw 'r cyfryw orchwyl yſgatfydd mor afreidiol yn ein Gwlad ni ag y gall Bagad feddwl ei fod. I Dduw y bo 'r diolch mae Goleuni yr Efangyl yr awrhon yn llewyrchu cyn ddiſcleiried *YnGhymru* ag mewn odid o wlad arall, mae mwy o Lyfrau Duwiol, deſnyddiol yn Argraphedig, ac amlach, ac ond antur well Pregethwyr yr awrhon yn ein plith nag a fu mewn un Oes er ys mwy na Mil o Flynyddoedd, ac etto ni a welwn fod Anghrefydd ac Anuwioldeb, Anghydfod ac Anghariad, Gau-grediniaeth a Gwahanedigaethau, Drwg-Foeſau ac Arferion llygredig yn rhŷ gynnefin a chyffredinol yn y Frô yma cyſtal ag mewn mannau eraill. Ac yn ddiamheu Un Achos mawr or Afreolaeth yma, yw eiſieu bod pobl yn gydnabyddus a Sylfaen eu Crediniaeth ſef Prif-achoſion ſydd iddynt i *Gredu*, ac *Ufuddhau*, a pha well gwaſanaeth a ddichon undyn wneuthur iw Wlad na dangos i bawb megys o flaen eu Llygaid, *Nad peth ofer yw Crefydd*, eithr mae gwir diragrith, di-ddadl ydyw, a gwneuthur iddynt ddeall a chydnabod nad oes le iddynt:

ſod yn *Anghriſt'nogol* oni byddant yn *Anrheſymmol* i efyd?

Hyn yw amcan a bwriad y Llyfr ſydd yn canlyn, nid eglurhau a dadcan holl Brif-Athrawiaethau a Lyfeuſwyddau Chriſtianogaeth, eithr cadarnhau Sylfaen Gwirioneddd y rhain oll. at Ffydd a ſerydler ar y cyfryw Seiliau diyſcog a ſydd diſigl a diymmod *megys y Ty a ſylfaenwyd ar y Graig*, ac ni eddy *ei gwyrdroi ai chylch-arwain gan bob awel o wag ddyſceidiaeth*; eithr a ſaif yn ddi-betrus yn erbyn pob rhuthrau a phrofedigaethau; yn erbyn Efrddiau a gorthrymderau or naill du, ac yn erbyn hoccedion twyllodrus, a Gau-gredimaethau cyfrwys-ddrwg or tu arall.

Darllain ditheu ei, F' anwyl Gydwladwr, yn fynych ac yn fyfyriol, ac os byddi gwell erddo, diolch i *Ddaw* yn gyntaf, ac yn neſaf ir Gwyrda haelionus ſydd au henwau yma 'n argraphedig; eſc uſoda feiau 'r Cyfeithydd ar Argraphyddion, ac yn dy weddiau Cofia am dy

Wlanaethwr

E. S.

AT YR

ANRHYDEDDUS ar PARCHEDIG

JOHN WYNNE

o Felai Eſq;

ID yw yn anhyspys ichwi, bendeſig Urddaſawl! Nac i neb arall dyſcedig, am Hugo Grotius, *er maint ei fri ar gymmeriaeth oblegyd ei ſynhwyr ai ddyſceidiaeth, ddarfod iddo ſyrthio i flinder a chaethiwed yn ei wlad ei hun, ac ymdeithio o honaw, o fann-hwygilydd nes cael or diwedd ei dderbyn yn graeſawus gan Bennadur dyſcedig a* Meceænas *Dyſcedigion eraill ſef* Hieronymus Bignonius *Dadleuwr y Brenhin ym mhrif-frawdle* Paris. *Nid anhebyg i helbul yr awdur a ddigwyddodd iw Lyfr yma: Gwedi treiddio o honaw trwy holl ardaloedd* Europa *a hagad o Froydd* Aſia, *a dyſcu llawer ou bieithoedd, a chael ei groeſawu'n barchedig o herwydd ei wybodaeth ai Ddoethineb, f'a ddaeth iw dynged yn ddiweddaf oll anturio ir Oror fynyddig yma. Ac, er daed ei Ddyſc a doethed ei reſymmau; etto o ran fod ei wiſc yn ſittrachog ai Gymraeg yn gandryll, bydd tebyg a darraw wrth groeſaw ceraidd oddieithr i ryw Wrda rhywiogla'n doſturio wrtho, ai achleſu'n ymgeleddgar ac wrth ei eſampl ei hun ai wneuthur yn gymmeradwy gan eraill. Ac nid oes achos ddyſgwyl hyn ond lle bo Gwr o ddyſc a wypo ei deilyng-*

dod ai Godidowgrwydd, a Gwr o haelioni a thrugaredd iw gymmorth yn gatedig -lan, a Gwr hefyd o Fawr-fryd Bonheddigaidd a fo ganddo wir gariad iw wlad, ac na bo anfodloni hepcor ir gwaelaf oi Gyd-Ddeiliaid yr eglurdeb ar ficcrwydd ſydd yma iw cael, am ſylfaen a gwreiddyn Gwirionedd y Grefydd Griſtnogol. I ba fan ynteu yr ymgyrch yr Adyn digydnabyddiaeth yma am gyfryw nodded ac amddeffynfa ond i Eluſengar Noddfa'r Dieithriaid, ſef ir Fynachlog *Letteugar Haelionus lle mae'r cynneddfau rhagorol hyn yn trigfannu'n gartrefol? Lle mae Gwybodaeth eglur heb ei chaddugo â Mwrllwch Pabyddiaeth, lle mae Duwioldeb heb Goel-Grefydd, Cariad heb rodres, a Gweithredoedd da heb ymddiried wrth eu haeddedigaeth; ar air, lle mae mwy o Ddyſc a Dawn ymmhen ei Pherchennog preſennol nag a fu, ond antur, mewn Deugain o'i hen* Abbadeu. *Lle nid oes na gwyro at* Rufain *or naill du nac at* Geneva *or tu arall, eithr ymlynu'n ddiyſcog yn ffydd* Eglwys Loegr *ac yn yr Athrawiaeth ddilwgr a gadarnheir ac a ficcrheir yn y llyfr yma. I chwi ynteu yr ufudd-anrhegaf hyn o Gyſteithiad anghelfydd; gan oſtyngedig ddiolch ichwi ac ir holl wyrda Parchedig ſydd yn fy haelionus-gynnorthwyo iw oſod allan yn argraphedig. A chan ddifrifol weddio ar ir Arglwydd eieb cadw mown hir Jechyd a hoedl yn barch ac yn harddwch i Gymru, ac yn wir aelod Union-gred o* Eglwys Loegr, *ac (i ddywedyd y cwbl ar air) a wnel i chwi ach heppil ar eich ol ragori, od oes le, ar Rinwedd a Godidowgrwydd eich Hynafiaid ardderchog. Hyn yw ac a fydd taer-ddeiſyfiad diragrith.*

Sr.

Bettws Gwerfil Goch Hydref 25, 1715.

Eich goſtyngedicca ach Ufuddaf Waſanaethwr.

EDWARD SAMUEL.

Benefactors and Encouragers and other Subſcribers for the Publication hereof.

A

The Right Reverend JOHN *Lord* Biſhop of *St.* ASAPH.

B

Mr. Arthur Badam Rector of *Nannerch.*
Mr. John Bray Vicar of *Llanſilin.*
James Brynkir of *Brynkir Eſq.*
The Right Hon. RICHARD *Lord* Viſcount BULKELEY.

C

Vincent Corbett of *Ynys y Maengwyn Eſq.*
Sr. Robert Salesbury Cotton of *Llywenny Kt.*
Mr. George Coytmor of *Conway.*

D

Mr. Edward Davies Vicar of *Whitford.*
Mr. RICHARD DAUIES Vicar of *Rhiwabon*
Mr. Robert Davies of *Plas y Ward.*

E

Mr. George Edwards Rector of *Llanarmon Dyffryn Ceiriog.*
Mr. Richard Edwards Vicar of *Lanfair Dyffryn Clwyd.*
Mr. Thomas Edwards Vicar of *St. Aſaph.*
Mr. Thomas Ellis of *Llanſannan Cler.*
The Right Reverend WILLIAM *Lord* Bp. of ELY.
Dr. EVAN EVANS Rector of *Philadelphia.*
Mr. Griffith Evans Vicar of *Demerchion.*
Mr. James Evans of *Llanvordo.*

John

JOHN EVANS of *Kyffdy Eſq.* High Sheriff of *Merionethſhire.*

Mr. SAMUEL EVANS of *Bala.*

Mr. KENRICK EYTON. Vicar of *Corwen.*

F

Mr. Evan Ffoulks Rector of *Trefriw.*

Mr. Hugh Ffoulkes Vicar of *Llandrillo,*

Mr. Humphrey Ffoulkes Rector of *Marchwiail,*

Robert Ffoulkes of *Gwerneigron Eſq.*

Dr. ROBERT FFOULKES Rect of *Llanbedr*

Mr. Thomas Ffoulkes of *Ty Gwyn yn Llangwm.*

G

Mr. Alexander Gerrard of St. *Aſaph.*

Edward Griffith of *Plâs Newydd Eſq.*

John Griffith of *Llanddyfnan Eſq.*

H

Mr. Hugh Hughes *Proctor* of St. *Aſaph.*

Hugh Hughes of *Gwerclys Eſq.*

Mr. John Hughes of *Bottegir.*

Mr. EDWARD HUMPHREYS Rector of *Llanyckil.*

Mr. Einion Humphreys Rector of *Llanenddwyn*

Mr. THOMAS HUMPHREYS Rector of *Llanvechein.*

Mr. WILLIAM HUMPHREYS of *Maerdy.*

J

Mr. Edward Jones of *Cwm-pen-anner.*

Mr. Evan Jones Rector of *Newborough.*

Mr. GRIFFITH JONES Rector of *Bodfary.*

Mr, Hugh Jones of *Bottegir* deceaſ'd.

Mr. HUGH JONES of *Ddôl.*

Mr. JOHN JONES Fellow of *Jeſus Coll. Oxon.*

Mr. John Jones of *Glan y Gors.*

Mr. JOHN JONES of *Llechwedd Llyfn.*

Mr, MAURICE JONES Rector of *Caer y Druidion.*

Mr.

Mr Rice Jones of *Ruthin.*
Mr. Robert Jones of *Llan Elidan Cler.*
Mr. William Jones Rector of *Llangywer.*

K

Thomas Kyffin of *Maynan Esq.*

L

Mr. Lewis Lewis Rector of *Llangynhafal.*
Mr. Thomas Lewis of St, *Asaph.*

Ll

David Lloyd of *Llwydiarth Esq.*
HEDD LLOYD. of *Havod Unnos Esq.*
Howel Lloyd of Wickwar *Esq.*
Mr. JOHN LLOYD Rector of *Llanbedrock,*
Mr. John Lloyd of *Pont-Ruffydd.*
John Lloyd of *Rhagett Esq.*
JOHN LLOYD of *Rhiwaedog Esq.*
Mr, JOHN LLOYD Warden of *Ruthin.*
John Lloyd of *Wickwar Esq.* deceas'd.
Mr. Robert Lloyd of *Dil y Glesyn.*
Mr. William Lloyd of *Cef'n Cler.*

M

Mr. Andrew Maurice Vicar of St. *Asaph.*
Mr. Peter Maurice of *Glynn Ceiriog.*
Mr. PETER MAURICE of *Havod y Maidd.* Fellow of *Jesus College Oxon.*
OWEN MEIRYCK of *Bodorgan Esq.*
Thomas Meiryck of *Tan-y-Bwlch Esq.*
Mr. Henry Mostyn of *Clegyr.*
John Mostyn of *Isegrwyd Esq.*
The Hon. RICHARD MOSTYN of *Penbedw Esq.*
William Mostyn of *Eryngwynn Esq.*
Mr. JEFFREY MOULDING of St. *Asaph.*

N

Mr. Robert Nanney of *Dilgelley.*

Mr.

O

Mr. Robert Owen of *Plâs Iſaf.*

P

Mr. Griffith Parry of *Penarddynion.*
Mr. Hugh Pennant Vicar of *Llanarmon.*
Adam Price of *Bodvach Eſq.*
Mr. HENRY PRICE of *Llanfair.*
Mr. JOHN PRICE Vicar of *Wrexham.*
WILLIAM PRICE of *Rhiwlâs Eſq.*
Mr. Price Vicar of *Llanrhayadr.*
Mr. John Prichard Cur. of *Llan Elltid.*
Mr. Owen Rhydderch Cur. of *Llanrhaiadr.*
ROWLAND PUGH of *Mathafarn Eſq.* M. D

R

Mr. Cadwallader Roberts of *Filltir Gerrig.*
Mr. Edward Roberts of *Coed y Bedo.*
Henry Roberts of *Rhyd Onnen Eſq.*
Humphrey Roberts of *Bryn y Neuadd Eſq.*
Mr. John Roberts Vicar of *Eglwys fâch.*
Mr Sampſon Roberts Rector of *Llan Elian.*
Mr. OWEN ROWLANDS Vic. of *Llanhaſſa*

S

ROGER SALESBURY of *Rûg Eſq.*
Mr. John Salesbury of *Bachymbyd.*
Mr. Robert Stodart Vicar of *Llangerniw.*

T

Mr. DAVID THOMAS of *Gwerni Howell*
JOHN THOMAS of *Llechweddgarth Eſq.*

V

Mr. Charles Vaughan of *Bala.*
John Vaughan of *Caergai Eſq.*

W

Mr. Gabriel Williams Cur. of *Llagwſtennyn,*
Mr. JOHN WILLIAMS Rector of *Clô-caynog*
John Williams of *Glan Alew Eſq.*
Mr. OWEN WILLIAMS Schoolmaſter of *Llan-*

Mr.

Mr. Robert Williams of *Llyweni.*
Mr. THOMAS WILLIAMS Rector of *Denbigh*
Thomas Williams of *Pwll-y-Crochan Eſq.*
Mr. THOMAS WILLIAMS Schoolmaſter of *Denbigh.*
WATKIN WILLIAMS of *Llanvordo Eſq*
Sr. WILLIAM WILLIAMS of *Llanvordo Baronett.*
Mr. Williams Cur. of *Dolgelley.*
Mr. Edward Wynne of *Llangywer.*
Edward Wynne of *Llanufudd Eſq.*
Mr. EDWARD WYNNE of *Llanvardo*
EVAN WYNNE of *Cwmmein Eſq.*
Ellis Wynne of *Yſtymllyn Eſq.*
Mr. GABRIEL WYNNE Vicar of *Hope*
JOHN WYNNE of *Melai Eſq.*
Mr. Meredith Wynne Vicar of *Llanufudd*
OWEN WYNNE of *Llwyn Eſq.*
The Revd. ROBERT WYNNE D. D. *Chancellor* of St. *Aſaph*
ROBRT WYNNE of *Plâs Newydd* in *Henllan Eſq.*
WILLIAM WYNNE of *Maeſ-y-Neuadd Eſq*
Mr. Robert Wynne Vicar of *Gwyddelwern.*
Mr. THOMAS WYNNE Vicar of *Llanrwſt*
Thomas Wynne of *Maes-y-Coed Eſq.*

Anrheg Ifan brydydd Iwr, ſiaplan
llong y Bronwin, Achilles, i Sirs.
Morys, yn Llundain, Ebrill 1757.

BEIAU'R

Yr

ARGRAPH-WASC.

DAlen 23. llin 9. dileua *mwy na phump.* dalen 24. llin 10. ar ôl *a dechreuad,* arllen *ai heb ddechreuad iddo.* dal. 40. llin 2, 3. 4, 5. ſef y geiriau, y mae hyn *&c.* hyd y Gair *Druidion,* a ddyleſynt ſod ar *ochor* neu *odre'r* ddalen ac nid ynGhorph y Llyfr. dal. 121. llin darll. *Tyriaid* yn lle *Tyrciaid.* 191. dal. llin. ar ôl Draddodiadau, darll. *Moſes* a

Diwygiwyd gan R. M. ſ. 1757.

GWIRIONEDD Y GREFYDD GRISTIONOGOL.

At yr Enwoccaf ar Ardderchoccaf Bendefig Jeronymus Bignonius, *Dadleuwr y Brenhin yn Mhrif Frawdle* Paris.

RHAN I.

CHWI a fyddwch arferol, *Hieronymus Bignonius*, (Gwr a haeddai 'n dda ragorol ar eich Gwlad, ac ar Ddyſceidiaeth, ac (os rhowch genhad i ddywedyd) arnaf inneu hefyd) o ymofyn a mi, 'n fynnych pa Deſtyn ſydd i'r Llyfrau a 'ſgrifennais i yn Jaith fy ngwlad ymhlaid y Grefydd Grift'nogol. Ac nid rhyfedd gennyf eich bôd yn ymofyn am hynny. Oblegyd gan ddarllen o honoch bob peth a dâl ei ddarllain a hynny mor bwyllog ac mor ddeallgar, chwi a wyddoch faint a drinyd a'r y Teſtyn hwnnw, trwy fanwl gywreineb Philoſophyddiaeth gan *Raimundus Scbundus*; trwy amryw ſath ar ymddiddanion gan *Lewis Vives*; Llithr yn bendifaddeu trwy Ddyſgeidiaeth ddigymar Araithyddiaeth fedrus-ddoeth Odidog gan eich Gwladwr chwi *Mornæus*. O herwydd pa ham y ellid meddwl mae buddiolach fuaſei Cyfieithu un r rheini yn y dafod-jaith gyffredin, na decheu ar aith newydd. Ond nis gwn i beth a farna Frailn yr achos yma; gobeithio 'n ddiau y bydd hawdd ennych chwi fy eſcuſodi, a chwithau yn Farnwr

eyn hawddgared a chyn ehnwythed, pan ddywed-
wyf fy mod gwedi darllain nid y rhain yn unig
eithr Yſgrifennadau 'r Iddewon tros eu hên Gre-
fydd Juddewaidd, a *Ll*; frau 'r Chriſt'nogion hefyd
tros eu Crefydd hwythau, yn chwennych goſod fy
Marn am Dealltwriaeth fy hun ar waith pa fath
bynnag ydyw, a rhoddi im meddwl y rhydd-did
oedd wahariddedig i'm Corph pan oeddwn yn ei
yſgrifennu, Canys mi a feddyliais nad gwiw ym-
drech ym mhlaid y Gwirionedd ond trwy Wirioned
a thrwy gyfryw Wirionedd hefyd ag yr oeddwn i
fy hun om Calon yn ymfodloni ynddo: Oblegyd
gwaith ofer i mi geiſio peri i eraill goelio, y peth-
au nad oeddwn i yn eu coelio fy hunan ymlaenllaw.
Am hynny y detholais allan o Athrawon hên a
diweddar, y rhefymmau gorau a chymmeradwya
gennyf, gan adael heibio y rhai a fernais o ychydig
bwys a defnydd, chan wrthod hefyd Awdurdod y
Llyfrau hynny y gwyddwn yn ſiccr, neu yr oedd
i mi achos da i ammeu eu bod gwedi eu Cam
Dadu, Eithr y rhai oedd yn cyttuno am meddwl
i, a ddoſperthais mewn trefn, ac a oſodais allan,
mor llwybraidd ac mor Eglur ag y medrwn er
lles y Cyſtredin, ac au cyſanfoddais ar Draethod
Cynghanedd fel y byddai haws eu cofio. Oblegyd
fy nuryd oedd gwneuthur lles im holl Gyd-
wladwyr, ond yn enwedig ir *Mo*rwyr, fal y gallent
yn yr hir ſeguryd y maent yn ei gael wrth ford-
wyo, wneuthur y goreu ou hamſer, yn hytrach
nai fwrw heibio 'n ofer fel y gwna gormod. Am
hynny Ynteu, gan ddechreu 'r gwaith a chanmol-
iaeth ein Gwlad ein hunain, fy'n rhagori 'n hawdd ar
bob un arall mewn cyfarwyddid Llongwriaeth,
rwy 'n eu hannog i wneuthur, y goreu or gelfyddyd
honno megys o ddawn Duw, ac yn unig er elw
iddyn

ddynt eu hunain, eithr hefyd er lcynnydd ir wir Grefydd, ſef y Griſtionogawl. Ac y mae iddynt ddigon o achos a chyfleuſdra i hynny, pan o'nt yn treiddio i amryw Ardaloedd anghyſbell, aill ai i blith Cenhedloedd digred, megys yn *Sina* a *Guinea*; neu i blith *Mahumediaid*, megys n y gwledydd ſydd tan *Lywodraeth y Twrc*, ac Imnerodr *Perſia*, ar *Carthaginiaid*; a hefyd i blith ddewon, ar rheini 'n Flynion addefadwy ir Gre- ydd Griſtnogol, ac yn waſcaredig hyd y rhan fwy- f o barthau 'r Ddaear-fyd Cwmpaſgrwn. Ac y mae ormod o Annuwiolion melltigedig rhy barod an gaffont gyfleuſdra, i gyhoedd-boeri 'r gwenwyn bo'nt weithiau 'n ei gelu o ran ofn, ymmyſc pob virion anwybodol: a minneu 'n Ewyllyſio bod ein Cyd-wladwyr gwedi eu harfogi yn erbyn y drygau yn, ac ir rhai goreu eu dyſc au ſynwyr ymegnio, yd eithaf eu gallu, i orfod a di-ddadlu camgym- hyriaethau, ac ir llaill o leiaf ochel cael eu gwyr- roi au twyllo gan Eraill. Ac yn y Llyfr cyntaf r dangos nad peth ofer yw Crefydd, 'rwy 'n de- hreu yn ei Sylfaen; Sef yw hynny, bod Duw. ynny a brofir fel hyn.

Bod Duw.

HAN

II. FE a wyr ac a wel, ac a gydnebydd pawb fod rhyw bethau yn y byd a de- hreuad iddynt. Ac nid oedd y rhain yn achoſion u hanfod eu hunain: O ran y peth ni bo, ni ddi- non weithredu; ac nid alla i ddim fod, Cyn ei d. mae 'n eglur yn canlyn wrth hynny mae oddi- rth ryw beth arall y cawſant eu dechreuad: *Heb.* . 6. Yr hyn ſydd raid ei cydnabod nid yn unig m y pethau a a welwn; neu a welſom ni u hunain. *Rhuf.* 1. 20. Eithr am y pethau eraill,

hefyd y cafodd y rhain eu dechreuad oddiwrthynt; hyd oni ddelom or diwedd at ryw achos na bu erioed ddechreuad iddo, ar hwn ſydd megys y dywedwn, nid o ddamwain eithr o anghenrhaid, nid o arall, eithr o hono ei hun. A Hwn pa fath bynnag bellach yw; am yr hwn yr ymadroddwn yn y mann yw 'r Anian a arwyddocceir wrth y gair *Duw*dod neu *D*duw. Rheſwm arall yn goleu-fynegi fod Duw cydſynniad eglur pob rhyw Genhedloedd. y rhai y mae rheſwm a moeſau da heb eu llwyr ddiffodd yn eu plith trwy afrywiog wylltineb annaturiol. Oblegyd pa grediniaethau bynnag ſydd o ddychymmyg dynion. Nid yw pawb, ym mhob gwlad yn cyttuno ynddynt, ac y maent hefyd, yn ymnewidio 'n fynych; *E*ithr y Grediniaeth yma am Dduw ſydd gyffredinol a hyſpys ymhob mann, ac ni newidir moni wrth gyfnewidiad yr amſeroedd, fel y mae *Ariſtotle* ei hun yn dal ſulw. *G*wr nad oedd chwannog jawn i goelio 'r cyfryw bethau. *O* herwydd pa ham mae 'n hollawl addas i ni feddwl fod rhyw achos da yn peri 'r cyfryw grediniaeth a bod yr achos hwnnw yn perthyn yn gyffredinol i holl ddynol-ryw. Ac nid all fod y fath achos, o ddieithr naill ai Gair [neu Yſprydoliaeth] *D*uw ei hun, ai Traddodiad oddiwrth *R*ieni cyntaf plant Dynion. *O*s cydnabyddwn y cyntaf o'r rhain, mae yn eglur y peth yr ŷm yn ymddadleu am dano [Sef fod Duw]: Eithr os y diweddaf, nid allir rhoi rheſwm yn y byd a ddichon beri i mi goelio y tanai 'n *R*hieni cyntaf gelwydd, mewn achos o bwys mor anfeidrol ymhlith eu holl hiliogaeth. *H*eb ſaw hyn, pa un bynnag a wnelom ai edrych ar bar thau 'r byd ſydd er ys talm o amſer yn adnabyddu ai ar y rhai a ddadcuddiwyd yn ddiweddar lle, fe 'y dywedaſom yr ayrhon y mae dim moeſgarwch

mae

mae'r wybodaeth yma o Dduw ar lêd ym mhob gwlad, yn gyftal ymmhlith pobloedd ddoethion ddellgar, ac ym mhlith rhai Hurtiôn, anwybodol; c nid yw mewn modd yn y byd gyffelybol y cymerai 'r naill eu twyllo eu gyd oll. Nag y medrai r llaill ddychymmygu ffordd i dwyllo eraill. Ac nid gwiw i neb ddadleu yn erbyn hyn, o ran bod chydig mewn llawer o Oefoedd naill ai heb gredu i heb gyfaddef eu bod yn credu yn Nuw. Oblegyd, gan eu bod cyn anamled, a chan fod pawb rth ddeall gwendid eu Rhefymmau, yn ymwrthod yn ebrwydd au gau-dŷb, mae'n amlwg nad yw yn yn tarddu oddiwrth farn union Refwm, fydd yffredin i *D*dynion; Eithr naill ai o chwant i goli rhyw Ddieithr- dŷb newydd, megys fel yr oedd wallgo 'r Dyn a fynnai daeru mae dû ydyw 'r *Eir*y eu o feddwl llygredig. megys y mae Bwydydd heb od yn un-chwaith i Fnau clwyfus, ag maent yn ẽu lâs naturiol eu hunain. Yn enwedig gan fod côf Lyfrau a *Ll*yfrau Hiftori ac yfgrifennadau eraill yn angos mae'r Dynion difeiaf a goneftaf oedd fanylaf i ynal gwybodaeth am Dduw. ac felly 'r achos mwyfor anghydfod yma oddiwrthy Crediniaeth oedd er oed yn gymmeradwy, yw drwg-ddichell y fawl mae yn dda iddynt na byddai un *D*uw i farnu gweithredoedd *D*ynion; fel y mae 'n amlwg wrth hyn, O ran beth bynnag a daerant hwy ai bod rhywogaethau pethau 'n canlyn olynol heb ddechreuad; i bod y byd *gwedi* ei gyfanfoddi trwy] ddamweiniol Cydymgyrch gronynnau, neu beth bynnag arall, mae hynny cyn anghyffelyped onid yw anghyffel pach i wir: ac nid ydyw mor gredadwy ar hyn goelir yn gyffredinol. fel y gall pawb a yftyrio r peth yn lled-bwyllog ddeall yn eglur. Ond am rhai na fynnant goelio fod Duw o ran nas gwel-

lant monno. os gwelant ddim, hwy a welant yn amlwg, mor anwiw, mor anaddas. mor gywilydd ûs yw hyn i Ddyn, os Crêd fod ganddo i hun Feddwl, yr hwn nis gwêl chwaith. Ac ni ddylem êr na fedrwn a'n Dealltwriaeth ni, amgyffred Natur Duw, wadu o herwydd hynny nad oes y cyfryw fath Natur Oblegyd mae'n briodol i bob rhywogaeth o is grâdd na fedro amgyffred y pethau fydd uwch a Godidoccach eu Natur nag ef. yn ddiau nis gwyr Anifeiliaid direſwm beth yw Dyn; llai o lawer y gwyddant trwy ba Ddoethineb a Rheſwm y mae Dynion yn treinu ac yn rheoli Gwladwriaethau, yn meſur llwybr-gylchau 'r Sêr, yn mordwyo 'r eigiawn. Oblegyd mae'r holl bethau hyn uwchlaw eu ſynnied hwynt. Am hynny ynteu, y dylei Ddyn, gan ei fod o herwydd Ardderchow grwydd ei Naturiaeth, gwedi ei oſod yn uwch na'r Anifeiliaid, a hynny nid trwyddo 'i hun, wrth Reſwm feddwl, fod yr hwn ai goſododd ef yn uwch na'r Anifeiliaid, o leiaf yn rhagori arno ef, gymmaint ag y mae ynteu ar yr Anifeiliaid. Ac am hynny fod rhyw Natur yr hon, o herwydd ei bod yn Ardderchoccach nag ef, na ddichon ei Ddealltwriaeth ef i hamgyffred.

RHAN, III.

Duw un ydyw.

GWedi Eglur ddangos fod Duw, mae 'n rhaid i ni bellach ddyfod at ei Briodolaethau ef: Ar cyntaf or rhain a'n cyferfydd, yw, nad oes amryw *Dduwiau*, eithr un Duw. *Deut.* 6. 4. ar 4. 35. A hynny a brofir fel hyn, ſef mae Duw fel y dywedpwyd

wedpwyd euſus, yw'r Anian ſydd o anghenrhaid neu o hono ei hun; Ar peth ſydd o Angenrhaid neu o hono i hun, ni chymmerir mewn yſtyriaeth gyffredinol, eithr peth yn hanfod yw; ar pethau ſydd yn hanfod ydynt bob un ar ei ben. Ac os dywedir fod amryw Dduwiau ni chanfyddir achos yn y byd i feddwl fod cynnifer o honynt yn angenrheidiol, na dim i beri i ni gredu fod nau rhagor tri, na Deg rhagor pump ~~mwy na phump~~ o Dduwiau.

Heblaw hyn, mae pethau go-gyd-ryw yn ymluoſogi yn ol ffrwythlondeb eu hachoſion, yn gyfatebol ir hyn y deilliaw mwy neu lai or cyfryw bethau: eithr nid yw Duw yn deilliaw oddiwrth na gwreiddyn nac achos yn y byd.

Mae hefyd mewn pethau gwahanrhedol ryw briodoliaethau gwahanrhedol yn peri rhagoriaeth rhwng y naill a'r llall. Eithr nid rhaid ir cyfryw berthyn i Dduw, ac ynteu yn Natur yn hanfod yn angenrheidiol o hono i hun. Ni welwch chwaith yn unlle arwyddion yn dangos fod amryw Dduwiau. Oblegyd nid yw'r holl Greadigaeth onid un Byd: yn hwn mae un Diſclair-*Brydferth*, ſef yr Haul: Un hefyd ſydd yn rheoli mewn *Dyn*. ſef i Feddwl. Ymmhellach hefyd ped fai Ddau neu fwy o *Dduwiau* yn gweithredu ac yn ewyllyſio fel y fynnent hwy a allent ewyllyſio 'n wrthwynebol iw gilydd, ac felly f' allei 'r naill rwyſtro 'r llall, fel nad allei wneuthur a ewyllyſiei. A pheth anghyfaddas i Dduw yw bod dim a ddichon ei rwyſtro. [am hynny nid oes onid un Duw.]

RHAN IV.

Pob perffeithrwydd yn Nuw.

FEl y gwypom Briodoliaethau eraill y gorucha
Dduw, deallwn fod ynddo Ef bob peth a ar
wyddocceir yn arferedig wrth y gair Perffeithrwyd
(dyna 'r gair fydd raid i ni arfer yma, Oblegy
nad oes yr un arall yn ein Hiaith ni, am y Gai
Groeg *Teluotes* fel y mae 'n amlwg wrth hyn
O ran pa Berffeithrwydd bynnag fydd mewn peth
au, mae naill ai â dechreuad, Y Perffeithrwyd
fydd heb ddechreuad yn Nuw y mae. Y
hwn oedd â dechreuad iddo, rhaid oedd bod rhyw
beth i gael o hono 'I ddechreuad oddiwrtho.
chan na wneir dim o ddim, or pethau fydd, mae'
rhaid ir perffeithiadau a welir yn y pethau a wnaeth
pwyd, fod yn yr hwn ai gwnaeth, fel y gallai weith
redu 'n gyfattebol iddynt; ac am hynny 'r oeddyn
oll yn y prif-Achos, fet yn yr hwn a wnaeth y
holl fyd. Ac nid allai 'r Prif-Achos golli dim o'
berffeithrwydd gwedi. Nid allai o herwydd dim
arall. Oblegyd nid yw'r hwn fydd o Dragywyddol
deb yn ymgynnal ar bethau eraill, nag yn godde
chwaith oblegyd dim ar a wnelont; nac o'i herw
ydd ei hun; o ran fod pob natur yn chwenyche
pherffeithrwydd ei hunan.

Tai'heb dechreuad iddo.

RHAN V.

Duw fydd Anfeidrol hefyd.

DIR hefyd fod y Perffeithiadau hyn yn Nuw
mewn modd anfeidrol neu annherfynedig
Oblegyd mae Priodoliaeth peth derfynnedig naill
a

ai o herwydd gyfrannu or achos, trwy 'r hwn y mae'n hanfod, gymmaint ag ſydd ganddo, heb ddim mwy iddo, ai o herwydd y gallaſei dderbyn y perffeithrwydd ſydd ganddo, ac nid dim ychwaneg Eithr nid yw Natur yny byd yn cyfrannu dim o honi ei hun i Dduw; Ac nid yw ynteu chwaith yn derbyn dim oddiwrth arall. oran ei fod yn hanfod (fel y dywedpwyd) o hono 'i hun neu o angenrhaid.

RHAN VI.

Duw yn dragywyddol, Hollalluog. Hollawl-wybodol Hollawl ddajonus.

GAN fod ynteu 'n dra-eglur mae perffeithiach y gelwir pethau byw na phethau heb fywyd idd ynt; pethau a ddichon weithredu na phethau nid allant; pethau deallgar na phethau heb ddeall ganddynt pethau da na phethau nid ydynt felly; mae'n amlwg wrth a fynegwyd yr awrhon, fod yr holl Briodoliaetheu hyn yn gyfaddas i Dduw, a hynny 'n wir mewn mŵdd anfeidrol. *Pſal.* 90. 2. Ac am hynny ei fod Ef o fywyd, *Gen.* 17. 1. *Jer.* 32. 27. annherfynedig Sef yn dragywyddol, o Allu anfeidrol' Sef yn Holl Alluog. ac yn yr un modd yn Hollawl-wybodol ac heb os na nam yn gwbl-Ddajonus. *Mat.* 19. 2 *Pſal.* 147. 5. *Eſay* 40. 28 *Dan.* 2. 22. *Rhuf.* 11 3 1 *Chro.* 28, 9. *Heb.* 4. 13. *Mat.* 19. 17. *Pſal.* 119 68

RHAN VII.

Duw yw Achos pob peth.

AC y mae 'n gyd-gyſon ar hyn a ddywedaſom o blaen, fod yr holl bethau ſydd yn y byd, we ni cael eu dechreuadau cychwynſa oddiwrth Dduw O ran ni ddangoſaſom euſys nad yw 'r hwn ſydd hono ei hun neu o angenrhaid onid un. wrth yr hy y mae 'n eglur mae megys y caſodd pob pethau er aill au dechreuad oddiwrth ryw bethau amgenac na hwynt eu hunain. felly ſod y rhain oll yn deilliaw naill ai yn ddigyſrwng, ai trwy eu hachoſion, oddi wrth yr hwn ni bu erioed ddechreuad iddo, Sef o ddiwrth Dduw, fel y gwelſom or blaen.

Ac nid yw Rheſwm yn unig, Eithr Synhwyr na turiol hefyd mewn rhyw fodd yn eglur-ddangos hyn Canys os edrychwn ar Ryfeddol Gyfanfoddiad Corph dyn oddimewn ac oddiallan, Y modd y mae pob rha hyd yn oed y rhai lleiaf, a ſalaf, â gwaſanaeth a phe wyl Priodol iddynt, a hynny nid trwy ofal nac aſtud rwydd y Rhieni, ac er hynny mor gywrain gelfydd gar na fedrai 'r Philophyddion ar Phyſygwyr doeth af byth ryfeddu digon o'i blegyd, mae hyn yn dang os mae Meddwl doeth-ragorawl yw Cywrein-graf Benſaer Naturiaeth: ynghylch yr hyn y gellir dar llain *Galen*, yn enwedig lle mae 'n dangos lleſawr hydi, a gwaſanaeth y *Llaw*, ar *Llygad*. Ac y mae Cyrph Anifeiliaid mudion hefyd yn datcan hyn. O blegyd nid trwy rym y defnydd, eithr er diben ficc y cyflewyd ac y Portreiadwyd pob rhan o honynt

Ac nid rhannau Anifeiliaid yn unig. Eithr Plan higion a Llyſſiau hefyd, fel y mae *Philoſophyddion* yn dichlin-ddal Sulw. Odiaethol y mae *Strabo* 'n hy-

nodi

odi'r un peth, wrth yſtyried cyflead y Dyfroedd, rhai gan fod eu pefnydd yn yſgafnach na'r ddaiar c yn drymmach nar A wyr, a ddylent fod yn y Cool rhwng y naill ar llall, lle maent yr awrhon yn ifeirio rhwng y Daierydd, rhag rhwyſtro Cnŵd y Ddaiar a bywioliaeth dyn. Ac nid allai ond Rhagniaeth ddeallgar drefnu a gwneuthur pethau ir cyfyw berwyl a diben dajonus. Ac nid yw pob eth gwedi eu trefnu fel y maent, yn unig er lles enedigol iddynt eu hunain, eithr hefyd er lles cyffedinol yr holl fyd. fel y mae yn amlwg iw weled n y Dŵfr, yr hwn yngwrthwyneb iw anfawdd ai Natur, a ymdderchaif rhyngddo ar Awyr rhag bod gendor gwâg yn y Creadigaeth. yr hwn a wnaethwyd mewn cyfryw fodd ag nad allai mor ymgynnal Dni bai fod ei rannau yn ymlynu wrth eu gilydd yn yfrdo-ddiwahanedig. Ac nid ellid bwriadu 'r diben yffredinol yma, na rhoddi grym a thueddiad yn y readuriaid iw cyflawni, ond trwy Rinwedd a gallu nyw Ddealltwriaeth Anfeidrol, yr hwn y mae 'r oll fyd yn ddaroſtyngedig iddo. Mae hefyd rai Aniiliaid mor hwylus a hyffordd yn eu gweithrediau nad oes le i feddwl amgen nad ydynt yn deilliw oddiwrth ryw Anian deallgar: fel y mae 'n egur yn y Morgrûg ac yn y Gwenyn yn enwedig. ac newn rhai Creaduriaid eraill hefyd, a fedrant ochel ethau niweidiol, ac ymgais am bethau lleſol iddynt u hunain, cyn profi erioed na'r naill nar llall. Ac y mae 'n eglur wrth hyn na fedr y rhain o honynt eu unain na dirnad na deall y cyfryw beth, Sef oblegyd eu bod bob amſer yn gweithredu 'r unffordd; c ni fedrant ddim ond eu gorchwyl eu hunain, er a bo na thrymmach nac anhaws ei wneuthur. Dinteu fod y Gweithrediadau hyn yn deilliaw oddi-

wrth

wrth ryw Anian ddealltwrus arall, fy'n eu hyffor-
ddio, neu 'n creû ynddynt y tueddfryd ar Cynedd-
fau hynny. Ac nid yw'r Anian ddealltwrus yma
ddim arall, onid Duw ei hun.

Bellach os edrychwn ar Sêr y Nefoedd, ac yn
mhlith y rheini, ar y rhai amlyccaf o honynt, Sef yw
Haul ar Lleuad. mae Hwyl a ſymmudiad y rhain
cyn gyfaddaſed a chyn dymmhoreiddied, er cynnydd
ffrwyth y ddaiar a llês i bob peth byw, nad ellid
byth ddychymmygu dim well na chymmhwyſach.
Canys lle gallaſent ffordd arall ymſymmud yn rhwy-
ddach hyd Linyn y Cyhydedd, ni a welwn fod idd-
ynt hwyl amgenach mewn Cylch gwŷr-gam ar oſgo
fel y gallai eu llesfawr gynnyrchiolaeth gyrraedd i y
chwaneg o barthau 'r Ddaiar. megys ynteu y treſn-
wyd ffrwyth y Ddaiar er llês i bob peth byw, felly
y mae pob peth byw yn bennaf er llês i Ddyn, yn
hwn trwy ei ddeall ai Synhwyr rhagorawl a fedr
ddoſi a daroſtwng y rhai gwyllaf a ffyrniccaf o hon-
ynt. O herwydd pa ham y barnai 'r *Stoiciaid* hefyd
mae er mwyn Dyn y gwbaethpwyd y Byd oll. Ond
gan na ddichon nerth Dyn gyrraedd cymmhelled
a gallu o honaw ddaroſtwng y Goleuadau Nefol iw
gwaſanaethu ei hun, a chan nad yw debygol yr ym-
roddent hwythau o honynt eu hunain i fod yn weiſi-
on iddo: mae'n canlyn wrth hynny fod rhyw Yſp-
pryd Ardderchoccach, yn rheoli 'r *Goleu-gyrph* go-
goneddus hynny, ac yn eu hordeinio i wneuthur
gwaſanaeth gwaſtadol i *Ddyn*, er ei drigſan cym-
mhelled or tû iſaf iddynt: Ar Yſpryd hwnnw yw
Gwneuthurwr y Sêr a Chreawdwr yr Holl fyd.
Ac y mae Cynnyrfiadau 'r Sêr ſy'n ymſymmud o
fewn Cylchau Sêr eraill yn arwyddion eglur nid o
Rym naturiol eu defnydd, *Eithr* o ddoeth reolaeth
Rhyw Lywiawdr ſy 'ganddo rydd-did ac awdurdod

drefnu pob fel y mynno, mae cyflead y Sêr hefyd
'r rhai y mae 'r naill yn y naill barth, ac eraill
ewn parth arall or Nêf, yn tyſtiolaethu 'r un peth
goſodiad anghyfartal y Ddaiar ar Moroedd, Ac
d all fod achos amgen o herwydd pa ham y mae'r
êr yn ymſymmud y ffordd y maent rhagor ffordd
rall. Ac y mae Dull tra pherffaith, Set Goſgedd-
ûn Cwmpaſgrwn y Byd, ai rannau 'n amgy chyn-
edig megys ym mynwes y Ffurfafen, ac wedi eu dol-
arthu au goſod mewn trefn gywrain-ryfeddol. yn
oleu-fynegi nad trwy ddigwydd a damwain y cyd-
mgyrchodd y pethau hyn eithr eu bod gwedi eu
arfaethu au llunio au Sefydlu gan Ragluniaeth dde-
ltwrus o ragorol Odidowgrwydd. Canys pa hurt-
n cyn ynfyded ag y diſgwiliai i beth mor ddich-
yn brydferth oddiwrth ddamwain? nid anhaws iddo
oelio y gallai Gerrig a Choed ymgyfarfod ar ddam-
wain ac ymgyſyltu o honynt eu hunain yn adeilad
arddwych orcheſtol, neu y gallai Lythrennau gwe-
i eu taflu bendramwnwgl heb na gofal na chyfar-
yddid gyfanſoddi medruſ-Gerdd hyawdl gymmhen-
doeth. Lle 'r oedd ir hwn a welodd ond ychydig
luniau *Mathematic*, ar y Feiſdon, achos da i ddy-
vedyd fod yno yn ôl rhyw Ddyn gan wybod or
orau nad oedd fodd ir fath bethau ddyfod trwy
digwydd a damwain.

Heblaw hyn, ni a ddeallwn nad oedd Dynol ryw
n hanfod chwaith er tragywyddoldeb, eithr cael
honynt Ddechreuad Cyffredinol ar ryw amſer pen-
odol, wrth yſtyried ymmhlith amrywbethau eraill
modd y cynnyddodd ac yr ymhelaethodd celfy-
dydon a Doethineb a *Gwybodaeth*, ar modd y de-
hreuwyd preſwylio 'r Gwledydd oeddynt gynt yn
diffaethleoedd anghyfannedd: yr hyn hefyd a dyſti-
olaetha Jaith yr Ynyſoedd yr hon a dderbyniaſant

gan

gan mwyaf or Gwledydd nefaf attynt. Mae hefy
Hên Arferion cyffredinol ymmhlith pobl yn amly
gu 'r un peth. Ac ni chafodd y rhain mor dechreu
ad yn gymmaint oddiwrth Athrylithr Natur, ne
Eglur Oleuni Rheſwm ag oddiwrth ryw hên Dr
ddodiad oeſtadol; na ddiwrelddiwyd etto ond y
brin mewn ymbell fann trwy ddrwg-ddichell, ne
ddrygfyd y Trigolion: Y cyfryw Draddodiad a wn
i bobl gynt ladd Aberthau yn eu haddoliant Crefy
ddol; ac, fydd etto yn peri gorchwyledd ynghylc
cyd-gyfeillach Mab a Merch a chadw defodau Pri
odas, a ffeidd.o ymlochlach a'u Cyfneſyfiad.

RHAN VIII.

Aiteb ir Gwrth-reſwm ynghylch Achos Drygioni.

NID rhaid i ni chwaith mor gwrthgilio oddi
wrth a ddywedaſom, Oblegyd ein bod yn gwe
led llawer o ddrygau yn y Byd, nad yw gymwys
ni ddywedyd fod eu dechreuad oddiwrth Ddiuw: C
herwydd ei fod, fel y myegwyd eufys, ym mhob
modd yn gyflawn Ddaioni. Oblegyd pan ddywed
aſom mae Duw yw Prif-Achos pob peth, ni a ddy
wedaſom hefyd mae achos y pethau fy'n gwir hanfod
ydyw. Ac nid yw anrheſwm yn y byd ddywedyd y
gall y cyfryw bethau fod yn achoſion i ryw ddigw
yddiadau perthynaſol iddynt, a chyfryw yw ein gwei
thredoedd. F' roddes Duw i Ddyn ac yr Yſpryd
ion fydd arddercheccach na Dyn, yn eu Creadigaeth,
rhydd-did i wneuthur a fynnent. Ac nid yw y rhydd
did hwnnw ddrygioniſs. eithr f' all fod yn fodd i
wneuthur rhyw ddrygioni. Ac am y cyfryw ddry
gau, a elwir drygau moeſawl neu Bechodau, llwyr
wahardded

waharddedig a chableiddgar yw dywedyd mewn modd yn y byd mae Duw yw eu Hawdur. Eithr mae drygau, a elwir felly mewn ſynnied arall, Set o crwydd eu bod yn peri rhyw flinder neu golled i dyn, nad oes achos yn y byd amgen nad allant ddeiliaw oddiwrth Dduw, naill ai er gwellhau Pechadur, ai er ei goſpi'n gyfattebol iw ddrygioni; o ran id oes yn llyn ddim gwrthwynebol i ddajoni; i e, y mae 'r cyſtyw ddrygau n tarddu 'n ſynych oddiwrth t unig wir Ddajoni, megys y daw Phyſygwriaeth diflas oddiwrth Feddyg da.

RHAN IX.

Yn erbyn dau Brif-Achos.

AC yma mae 'n gyſaddas i ni ochel camgymmeriaeth y ſawl a ſynnant fod Dau Brif-Achos weithredawl y naill yn dda ar llall yn ddrwg. Canys ad fuaſai 'r cyſtyw ddau yn ymdrech ac yn ymryon au gilydd, ſ allaſei fod adfail a diniſtr ar eu hôl nd ni buaſei byth y fath adeilad gyfrdo dreſnus. id gwir chwaith, mae megys y mae rhyw Anian o oni ei hun yn gyflawn-ddajonus fod un arall o honi hun ymmhob modd yn ddrwg: Oblegyd diffyg drwg, nad all mor bod ond mewn rhyw beth anſodol. ac ni a wyddom mae rhyw feſur o ddajoni bod neu hanfod.

RHAN

RHAN X.

Duw 'n Rheoli yr Holl Fyd.

AC y mae 'n eglur fod yr Holl fyd, tan Rêolaeth a Rhagddarbodaeth y Nefol Ragluniaeth; O legyd ni a welwn fod nid Dynion yn unig ſydd a Rheſwm ganddynt. Eithr Adar a Phryfed gwylltion ac Anifeiliaid, yn y rhai y mae megys rhi Dealltwriaeth, yn darbod ac yn gofalu am yr Hili iogaeth ſy'n hanfod oddiwrthynt. A chan fod y tued iad ar perffeithrwydd yma yn beth dajonus, diama fod Duw yn feddiannol o honaw, yn enwedig ga i fod yn hollawl-wybodawl ac yn Hollalluog- F' wyr bob peth ſydd, ac a fydd, ac a ddylai fod; ac f a ddichon yn hawdd ac yn eſmwyth jawn eu trin au llywio au hwylio 'r ffordd a fynno; fel y mae eglur ac i hyn hefyd y perthyn y ddywedaſom or blae ynghylch Cynhyrfiad rhyw bethau yngwrthwyneb i Natur eu hunain er llês Cyffredinol ir holl fyd.

RHAN XI.

A phethau is y Nêf,

MAWR ynteu yw Camgymmeriaeth y ſawl a fyn ant warchae Rhagluniaeth Duw o fewn y Wybrennau, ac a daerant nad yw 'n gofalu dim am bethau is y ffurfafen; fel y mae 'n amlwg nid yn unig wrth y Rheſwm a grybwyllwyd yr awrhon yr hwn ſy'n dangos ei fod yn darbod tros bob Creaduriaid cyſtal au gilydd; Eithr hefyd oblegyd fod hwyl Symudiadau y Sêr gwedi eu rheolaethu au trefnu er llês i ddyn, fel y mae 'r Philoſophyddion dyſcedic

af yn cydnabod, a helynt y byd yn goleu-fynegi. A chymmwys yw bod mwy gofal am yr hwn y uniwyd pethau eraill o'i blegyd nag am yr hyn ddarparwyd yn unig er mwyn arall. Ac nid llai yfeiliorni y fawl a fynnant Ei fod yn gofalu mwy nig am rywiogaethau Cyffredinol pethau. Ond id oes arno ofal am y pethau eu hunain. Oblegyd s dywedant nas gwŷr Duw oddiwrth bethau wahanrhedol (fel y maen yn wir, yn dywedyd) id yw 'n gwybod od diwrtho ei hun chwaith. Ac i bydd ei wybodaeth yn anfeidrol, fel y dang-fais or blaen ei bod, onis gwŷr oddiwrth bob peth ithr os gwŷr Duw oddiwrth y pethau hyn (me-ys y gwŷr yn ddiammeu) nid oes achos yn y byd feddwl nad yw 'n gofalu am danynt, yn Enwed-g gan fod pethau gwahanrhedol, megys y mae'nt n gyfryw, gwedi eu hordeinio at ryw ddi-en ficcr, enwedigol a chyffredinol. Heblaw hyn id yw y Rhywiogaethau Cyffredinol hynny, (y hai y mae 'r Athrawon yma'n cydnabod fod Duw n geidwad iddynt) yn hanfod ond mewn Pethau eilltuol. neu wahanrhedol. Am hynny os der-ydd am y rhai hyn o eifieu Rhagluniaeth Duw w cadw a'u cynnal, f all ddarfod am y Rhyw-ogaethau hefyd.

RHAN XII.

Profir hyn yn helaethach trwy Gadwedigaeth Rheolaethau.

RHefwm dwys arall i brofi Rhagluniaeth Duw ai ofal arbennig am y pethau a berthyn i Ddynion, a gydnabyddir gan Philofophyddion a

Hiſtoriawyr wrth yſtyried parhâd a chadwrae
Gwladwriaethau. yn gyntaf yn gyffred inol. Can
pa le bynnag y derbyniwyd unwaith y ddefod ar arf
o *Lywodraethu* ac ufyddhau, mae 'n parhau yn
yn waſtadol: ac y mae 'n fynych hefyd Eglurd
yſpyſach o hyn yn hir barhâd rhyw un fath ar *R*
olaeth mewn rhai gwledydd, tros lawer o oeſoed
megys *Llywodraeth Brenhinoedd* ymmhlith
Aſſuriaid, ar *Aipſtiaid*, ar *Ffrangcod*; Gore
gwyr nai Henuriaid ymmhlith y *Venctiaid*. Can
er y gall Synhwyr a Doethineb Dynion wneuth
peth tuag at hyn; er hynny os jawn-yſtyriwn fa
ſydd o Ddynion diffaith ymmhob gwlad, ar dr
au allant ddigwydd o Wledydd eraill, ar cyfne
ſdiadau ſydd megys yn naturiol i bethau 'r B
nid yw gyffelybol y gallai Lywodraeth yn y B
ſefyll cyhyd yn ddidramgwydd, oni bai ei dioge
rwy ofal arbennig y Nefol Ragluniaeth. Yr h
hefyd a ganfyddir yn eglurach lle mae Duw
gweled yn dda newid Rheoledigaethau. Obleg
pa Weinidogion Lynnag a ddewiſo Ef ir Perw
hwnnw megys peth wedi ei ragarfaethu gantho,
y dewiſodd Ef *Cyrus*, ac *Alexander*, a *Julius Ca*
a *Cingis* ymmhlith y *Tartariaid*, a *Namcaa*
Sina, Ni a welwn fod pob peth, nad oedd fo
chwaith i Ddoethineb Dynol eu rhagluniо,
llwyddo ir cyfryw rai yn well nag y gallent dd
muno, ac yn fwy ffynnadwy nag y mae anſicci wy
ac ymrafael ddamweiniau 'r Byd yn arferol o g
wys, a chan ddigwydd o gynnifer o helyntiau r
feddol, cyn gyffelyped y naill ir llall, a phob un
cyd-gyfeirio megys at yr unrhyw ddiben, arwy
hynod ydyw mae'r un *Rhagddarbodus* gyfarwyd
id ſy'n Rhagluniaethu 'r cwbl. Megys wrth chwa
ac Diſiau, os teifi un ddau-chwech weithieu, ſa

mae damwain a fydd, ond os bwrw Dyn yr un erbyd ganwaith ar ol ei gilydd nid oes neb na farnod gan hwnnw ryw gelfyddyd ryfeddol.

RHAN XIII.

A thrwy Ryfeddodau.

Ithr Rhyfeddodau a Phrophwydoliaethau, or rhai y mae llawer yn Yſgrifennedig mewn Cof-Lyfrau, yw 'r Tyſtioliaethau ſiccraf am Raglunieth Duw. yn wir ſ' a adroddir llawer o Gelwyddau or fath honno. Ond am y rhai a gadarnheir trwy Dyſtion ſiccr gredadwy oedd yn byw yn amſer y gwnaethpwyd hwynt. Sef trwy gyfryw Dyſtion nad oes i ni achos i ammeu nau Synhwyr na'u cywirdeb, ni ddylem wadu mo'r rheini, megys pa buaſei lwyr ammhoſſibl eu gwneuthur. Oblegyd gan fod Duw yn Hollawl-Wybodol, ac yn Holl-Alluog, beth a all rwyſtro iddo Ef na rhagfynegu a wypo, na gwneuthur a fynno, a hynny allan o gyffredin Reol Naturiaeth, yr hon a wnaeth efe ei hun, ac ſydd o herwydd hynny yn ddaroſtyngedig iddo. Ac os dywyd neb, y gallai 'r cyfryw bethau ddeilliaw oddiwrth Yſprydion o is gradd nar Goruchaf Dduw, ni a allwn yn wir gyfaddef hynny. Ond etto mae hyn yn arloeſi 'y ffordd i ni i gredu yr fath beth yn haws am Dduw ei hun. A hefyd gan fod yr Yſprydion hynny yn gwneuthur y fath beth, mae i ni achos i feddwl mae Duw ſy'n gweithredu trwyddynt hwy, neu o'i Ddoethineb yn rhoi cennad a chynhwyſdra iddynt. Oblegyd ille bo rheolaeth dda mewn Teyrnas, ni wneir dimallan or gyfraith, hab Orchymmyn neu

gynhwyſiad y Penllywiawdr.

RHAN, XIV.

Yn enwedig ymmhlith yr Juddewon, *y rhai a ddylent eu coelio, o herwydd hir barhâd eu Crefydd.*

BEllach er bod lle i ammeu gwirionedd Traethiadau eraill, mae 'n ddigon hyſpys ddarfod gynt yn wir ddian weled y cyfryw *R*yfeddodau ped faid heb ddim i wirio hynny ond Crefydd yr *Juddewon* yn unig: yr hon er ei bod er yſtalm o amſer yn ddi-amddeffyn oddiwrth ddynion, ie er bod pawb yn ei gwatwar, a'i diſenwi, ai diyſtyru, ſydd yn parhau agos ymmhob gwlad trwy 'r byd, hyd y *D*ydd heddyw pan yw pob crediniaethau eraill (ond y Grefydd Griſt'nogol. yr hon yn ei herwydd yw perfteithrwydd Crefydd yr *Juddewon*) naill ai wedi diflannu 'n llwyr pan gyntaf y collaſant gymmorth ac Awdurdod y Penrheolwyr oedd yn gynnhailiaid iddynt, megys y digwyddodd i holl goel-grefyddau y Cenhedloedd *Paganaidd*; ai 'n ſefyll etto trwy unig nerth y cyfryw Awdurdodau, fel y mae gau-lith y *Mahumediaid*. Ac os gofyn neb pa ham y mae 'r Grefydd Juddewig gwedi gwreiddio cyn ddyfned ynghalonnau 'r *Hebræaid*, nad oes todd iw diddyfnu oddiwrthi, nid ellir na dywedyd, na meddwl, un rheſwm am hynny, ond bod y ſawl o honynt, ſydd yr awrhon yn fyw, gwedi clywed gan eu Rhieni, ar rheini o'r blaen gan eu Hynafiaid hwythau, ac felly o lin i lin hyd oni ddeler at amſer *Moſes* a *Joſnah*, fod Traddodiad ſicct anghyfnewidiol yn eu plith yn mynegi wneuthur

Dduw y cyfryw Ryfeddodau, megys ar achoſi-
n eraill, felly yn bennaf yn eu hymadawiad or
Aipht, au hymdaith trwy 'r Anialwch au dyfodiad
Wlâd *Canaan*. a bod eu Hên-Deidiau oedd yn
yw 'r pryd hwnnw yn Dyſtion or pethau hyn, ac
edi eu gweled au *Llygaid*. Ac yn wir mae ach-
s da i feddwl na buaſei Bobl cyn gyndyned a
hyn wrthnyſicced ag oedd y rhain, byth yn ymoſt-
yng i Gyfraith mor llwythog o Ddefodau trym-
on, oni bai gyfryw ryfeddodau. neb hyn chwaith,
i buaſei Wŷr Doethion, ymmhlith amryw Nod-
u Crefyddol eraill (y rhai y gallaſei Reſwm Dyn
u Dychymmygu) byth yn dewis Enwaediad; gan
ad ellid mo'i dderbyn heb ddirfawr ofid a chyſt-
dd iddynt eu hunain, na'i gadw heb wradwydd a
irmyg oddiwrth bawb eraill; ac nid oedd dim
nddo iw wneuthur yn gymmeradwy, ond ei fod
wedi ei Orchymmyn gan Dduw.

RHAN XV.

O herwydd Gwirionedd a Heneiddrwydd Yſcrythyrau Moſes.

AC y mae i ni achos or mwyaf i gredu 'Scry-
thyrau *Moſes*, lle mae 'r Rhyfeddodau hyn
n yſgrifennedig er coffadwriaeth i ni, nid yn unig
O herwydd fod yr *Hebreaid* erioed hyd heddyw yn
yhoedd-fynegi mae trwy Air a Gorchymyn Duw
goſodwyd ef yn Llywydd ar Bobl *Iſrael*: eithr
efyd oblegyd ein bod yn gweled yn amlwg nad
doedd ef yn ymawyddu am glod a gogoniant iddo
i hun nac am olud a mawredd iw gyfneſyſiaid,
gan ei fod yn datcan ei feiau ei hun, pan allaſei

eu celu, ac yn rhoddi 'r Swyddau Ardderchocc
Sef y Frenhiniaeth ar Archoffeiriadaeth i etai
gan adael ei heppil ei hunan yn *Lefiaid* gweri
wrth yr hyn oll y mae 'n eglur nad oedd iddo ach
os yn y byd i fynegi celwydd. Nid yw chwaith y
ymarfer ag Araithyddiaeth flyfig wenieithus o
fath ag fy'n gynnefin o goluro celwydd, eithr yn
adrodd gweddus, naturiol a chyfaddas i'r Teftyn

Ni allwn hefyd yftyried Hynafiaeth ddi-ddad
Yfgrythyrau *Moſes*, am yr hyn nid oes yfgrifen
yn y byd a ddichon ymgyftadlu â hwynt; fel y gall
wn ddeall hefyd wrth hyn. Sef, bod y *Groegiaid*
oddiwrth y rhai y llifeiriodd dyfceidiaeth i blith
pob Cenhedloedd eraill, yn cyfaddef dderbyn o ho
nynt hyd yn oed eu Llythyrennau o frô arall; a
nid yw eu Llythyrennau hynny o ran eu trefn a
henwau, au hên ddûll ddim amgen nag oedd yn
Syriaeg neu Jaith yr *Hebraaid*: megys hefyd
mae Cyfreithiau hynaf yr *Athenaid*, oddiwrth
rhai y benthyciwyd cyfreithiau y *Rhufeiniaid* a
ol hynny, gwedi cael eu Dechreuad o Ddeddfa
Moſes.

RHAN XVI.

Trwy Dyftiolaeth Dieithriaid.

HEB law hyn, mae Tyftiolaethau llawer o Aw
dwyr oedd Ddieithriaid i Grefydd yr Judd
ewon, yn dadcan fod y Traddodiadau hynaf a fic
craf oedd ymmhlith yr holl Genhedloedd yn cyt
tuno ar hyn a ddarllennir yn Llyfrau *Moſes*. y
oedd y pethau a 'fgrifennodd ef ynghylch Dech
reuad y Byd, iw cael gan mwyaf yn Hên Hanefio

Phœniciaid, ac a gaſclwyd gan *Sanconiathon*, a yſgeithwyd gan *Philo Biblius*: a rhan o hon yntt ymmhlith yr *Indiaid* ar *Aiphtiaid*. ac oddiyma y datodd *Linus* a *Heſiod* a llawer o'r *Groegiaid* Hanes yr *Aſſuniaidd di-drefn*, a arwyddocceir gan raill wrth y Gair **Wŷ**, ac y draethant i grybwyll am wneuthuriad Creaduriaid byw. ac yn ddiweddaf oll am greadigaeth Dyn, hynny he.yd ar Dyn a Delw Duw, ac am Lywodraeth a goruchafiaeth y Dyn uwchben pob Creaduriaid byw eraill, a pethau hyn oll a ddarllennir yn llaweroedd o Lyfrau, ac yn ddiweddaf Ymmarddoniaeth *Ovid*, yr hwn au benthycciodd hwynt o 'ſgrifennyddiaethau'r *Groegiaid*. Trwy Air Duw y gwnaethpwyd pob peth, medd *Epicharmus* a Diſcyblion *Plato*; ar un peth ymmhell o'u blaen hwythau a ddywedyr Hên Awdur a 'ſgrifennodd y *Mydrau* a elwid gynt (nid y rhai ſydd yr awrhon yn enwog) Caniadau *Orpheus*, nid o herwydd mae *Orpheus* oedd yr Awdur, eithr Oblegyd eu bod yn cynwys u Athrawiaethau ef: Cydnabu *Empedocles* nad yr Haul oedd y Goleuni cyntaf, Eithr mae Derbynfa yr Goleuni ydoedd, *Dochema co achema tour uros*, Derbynfa a Phreſwylfa Gwres, fel y dywed un or *Prif-Grift'nogion* mae Preſwylfod Duw uwchlaw'r Sêr ar Wybrennau, medd *Aratus* a *Thatallus*; Yno mae goleuni tragywyddol, *Homer* Mae'r Hên ddihenydd, neu'r hynaf oll yw Duw: Oblegyd ni chenhedlwyd mono mae Prydferthaf peth yw 'r Byd, oblegyd gwaith Duw; a bod tywyllwch o flaen goleuni, ydynt Athrawiaethau *Thales*, allan o Ddyſgeidiaeth yr hên Oeſoedd, Crywyllir am y diweddaf or rhain he.yd yn-Ghanadau *Orpheus* a *Heſiod*; Ac am hynny 'r oedd y Cenhedloedd oeddynt chwannoccaf i gadw hen ddefodau

fodau, yn cyfrif yr amſeroedd wrth y Noſweithiau, nid wrth y Dyddiau. Mae hyn hefyd yn arferedig etto ymmhlith y *Cymru*. y rhai a ddywedant wythnos; Pythefnos, nid wyth Ddydd &c. a hyn y ddiammau a gawſant oddiwrth y *Druidion*. Y medd wl (neu'r Yſpryd) goruchaf a dreſnodd bob peth medd *Anaxagoras*; Duw a wnaeth y Sêr, medd *Aratus*; Trwy Yſpryd Duw yr anadlwyd bywyd yn y Creaduriaid, medd *Virgil*, ar ol y *Groegiaid*; o Bridd y Ddaiar y lluniwyd Dyn, medd *Heſiod* a *Homer*, a *Callimachus*: yn ddiweddaf mae *Maximus Tyrius* yn mynegi fod yr holl Genhedloedd yn cyttuno; mae un unig Oruchaf Dduw ſydd; yr hwn yw Awdwr ac Achos pob peth. Ac y mae coffa am orphen y Creadigaeth o fewn ſaith Niwrnod, nid yn unig ymmhlith y *Groegiaid*, ar *Italiaid*, wrth anrhydeddu o honynt y Seithfed Dydd, (fel y darllennir yn *Joſephus*, *Philo*, *Tibulus*, *Clemens* o *Alexandria*, a *Lucian*) ac nid oes dim hyſbyſach am yr *Hebræaid*) eithr hefyd ymmhlith y *Celtiaid* (neu Hên Drigolion *Ffrainc* ar *Indiaid*; y rhai oll a ddoſparthent yr Amſeroedd wrth wythnoſau neu o feſur Saith Diwrnod; megys. in dyſcir gan *Philoſtratus*, *Dion Caſſius*, *Juſtin Ferthyr*; ac y gallwn ddeall hefyd wrth hên enwau Dyddiau 'r Wythnos. Traddododd yr *Aiphtiaid* hefyd fod Dyn yn y Dechreuad yn byw yn ddiſyml ac yn ddiniwed, ai Gorph yn noeth heb gywilydd arno. Ac o hyn y lluniwyd Dychymmygion y Beirdd ynghylch yr Oes Aur, a goffeir hefyd yn ganmoladwy gan yr *Indiaid*, fel y darllennir yn *Strabo*. mae *Maimonides* yn mynegi fod Hanes *Addaf* ac *Efa*, ar Pren gwaharddedig, ar Sarph, ymmhlith yr *Indiaid* Fulunaddolgar yn ei amſer eſt. Ac y mae Tyſtion yn ein hoes ninnau yn

[1] *y Goiriau uchod a ddyleſyſit ſod ar ochr neu ddre 'z ddalen.*

adrodd fod yr un Hanes ymmhlith y Cenhedloedd fy'n byw yn *Pegu* ar ynyfoedd a elwir *Philippine* fy'n yr un *India* honno; a bod enw *Addaf* yn y *Brachmaniaid;* a bod Trigolion *Siam* yn credu fod ynghylch chwe mil o flynyddoedd er darfodigaeth y Byd.

Mae *Berofus* yn ei Goffadwriaethau am y *Chaldaid, Manethos,* am yr *Aiphtiaid; Hieromus* am *Phæniciaid, Heftiæus, Hecadæus,* a *Hellanicus* am *Groegiaid,* ac ymmyfc y Prydyddion *Hefiod* yn ynegi fod Oes y fawl oedd yn byw nefaf ar ol y Cynion cyntaf a fu'n y Byd, yn agos i fil o flynyddoedd. A hyn fydd haws ei gredu, oblegyd fod anefion llawer o Genhedloedd (ac yn enwedig *Pauſanias* a *Philoſtraphus* or *Groegiaid;* ac or *Rhufiniaid Plini*) yn dangos fod Cyrph Dynion gynt llawer mwy nag ydynt yr awrhon, fel y canwyd wrth agoryd Beddau, a gweled Efcyrn rhai honynt, oedd anferthol o faintioli.

Mae *Catullus* hefyd ar ol llawer or *Groegiaid* yn rwedyd fod Drychiolaethau Nefol yn arferol o ddangos i Ddynion cyn iddynt trwy Liofowgydd ac echryflondeb eu hanwireddau eu gwneur eu hunain yn llwyr annheilwng or cyfryw nctaidd ymgyfarfod a chyfeillach â Duw ai fprydion gwafanaethgar. F' a ddarllenir agos nmhob mann yn y *Groegiaid* ac yn rhai or *Lagwyr* am fywoliaeth erwin-wyllt y Cowri y bwyllodd *Mofes* am danynt. Mae 'n beth nodig am y Diluw nad yw coffadwriaethau odid o enedl yn y Byd yn cyrraedd ddim pellach. yn hyn fydd wir hefyd am y Cenhedloedd cedd nabyddus i ni, nes ei oes ein Tadau eu dadcudd o fewn ychydig flynyddoedd: O herwydd pa m y geilw *Varro* yr emfer O flaen hynny, yn

Oes guddiedig neu anghydnabyddus: Ond y pethau a ddarllennir yngwaith y Beirdd Cenhedlig gwedi eu cymmyſcu au gorchguddio a Hên-chwedlau *afreolus*, a adroddir yn wir, ſef yn gyttunol a *Moſes*; gan Hên Athrawon o'u blaen hwynt; cyfrywoedd *Beroſus* or *Chaldæaid*; ac or *Aſſuriaid Abydenus*; yr hwn a grybwyllodd hefyd am y Golomen a ddanfonwyd allan or Arch. megys ymmhlith y *Groegiaid* y gwnaeth *Plutarch* a *Lucian*, yr hwn a ddywed fod yn *Hierapolis* yn *Syria* Dradodiad hên jawn ynghylch yr Arch, ar Dynion Etholedig a hefyd yr Anifeiliaid eraill a gadwyd yn ddiogel ynddi. yr oedd yr un Hanes hefyd ym *Molo* a *Nicolaus Damaſcenus*; ac yn y diweddaf or rhain, Enw'r Arch hefyd- yr hwn y geir yr un modd yn Hanes *Deucalion* yn *Apollodorus*. Ond heblaw hyn mae 'n amryw fannau yn *America*, ſef, yn *Cuba*, *Mechoacana*. *Nicuragua*, goffadwriaeth hyd heddyw am y Diluw ar Creaduriaid a 'gadwyd rhag boddi a hefyd am y Gig-frân ar Golomen; ac am y Diluw ei hun yn y lle a elwir y *Caſtell-Euraid* fel y tyſtiolaetha llawer jawn or *Hiſtoriaid*.

Mae'r hyn a fynegodd *Plinius* am adeiladaeth *Joppæ* o flaen y Diluw, yn ddigon i ddwyn ar ddeall i ni, ym mha fann or Byd yr oedd Pobl yn byw cyn hynny. Y lle y gorphwyſodd yr Arch ar ôl y Diluw ym Mynyddoedd *Gordyæi* (a eilw *Moſes Aratat*) a ddangoſir etto drwy waſtadol Goffadwriaeth yr *Armeniaid*. *Japheth* neu *Japetus* Tâd yr *Europæaid*, ac wedi hynny *Jon*, neu fel y dywedid gynt, *Javan* y *Groegiaid* a *Hammo* 'r *Affricaniaid* ydynt Enwau a ddarllennir yn Llyfr *Moſes*, Fel y mae arwyddion amlwg or llaill, yn enwau Cenhedloedd a gwledydd a Lleoedd eraill, megys y mae *Joſephus* ac eraill yn dal ſulw. A phwy or Beirdd Cenhedlig

Cenhedlig na chrybwyllodd am ryfŷg wallgofus y Sawl a tynnent ddringo ir Nefoedd. Mae ſôn am loſgi *Sodom* yn *Diodorus, Siculus, Strabo, Tacitus Plinius*, a *Solinus*. Hefyd *Heroditus, Diodorus Strabo, Philo Publius*; a dyſtiolaethaſant am hên Dde ſod Enwaediad. Ar un peth a gynhelir etto ymmhlith y Cenhedloedd ſydd gwedi hanfod o *Abraham*, nid yr *Hebræaid* yn unig, eithr *Idumæaid* yr *Iſmaelitiaid* ac eraill. Hanes *Abraham Iſaac, Jacob* a *Joſeph* yn hynny yn gydgyſſon a *Moſes*) oedd gynt yn *Philo Biblius* a *Sanchuniathon*; yn *Beroſus, Hecatæus, Damaſcenus, Atraponus, Eupolemus. Demetrius*, a pheth hefyd Ynghaniadau *Orpheus*. Ac y mae rhyw faint etto yn *Juſtin* allan o *Trogus Pompeius*. Ac yn y rhain gan mwyaf, oll, mae coffa am *Foſes* ai weithredoedd. Caniadau *Orpheus* a ddywedant yn eglur ei gyfodi ef or Dwfr, a rhoddi o Dduw 'r Ddwylêch iddo. Bwriwch at y rhain Dyſtiolaeth *Polemon*: or hyn a ſynegodd yr *Aiphtiaid* eu hunain; Sef *Manethon, Lyſimachus*, a *Chærimon*, am yr ymadawiad or *Aipht*.

Ac nid all neb Synhwyrol gredu am *Foſes*, yr hwn oedd iddo gynnifer o Elynion nid or *Aiphtiaid* yn unig, eithr o lawer Jawn o genhedloedd eraill ſef, yr *Idumæaid* yr *Aiphtiaid* ar *Phœniciaid*; y beiddiai Ef gyhoeddi dim ynghylch Dechreuad y Byd a hên helyntiau eraill, a'r alleſid ei broſi yn gelwydd trwy ryw Lyfrau 'ſgrifennedig o'r blaen, neu 'r oedd credíniaeth gyffredinol yr oeſoedd gynt yn ei wrthwynebu. ac nid tebyg y dywedai ddim yn ſicr ond y gwir ami y pethau a wnaethpwyd yn ei amſer Ef ei hun; o ran pe gwnaethai f'alleſid yn hawdd ei daeru allan trwy Dyſtiolaeth llaweroedd oedd yn fyw 'r pryd hwnnw.

crybwyllir

crybwyllir am *Foſes* hefyd gan *Diodorus Siculus*, *Strabo*, *Plinius*, *Tacitus* hefyd, ac ar eu hôl hwythau gan *Longinus* ynghylch ardderchowgrwydd Araithyddiaeth; ac am *Jamnes* a *Mambres*, a wrthwynebaſant *Moſes* yn yr *Aipht*, nid yn unig gan y *Talmudæaid*, eithr hefyd gan *Plinius* ac *Apuleius*. Mae eraill yn ſiarad peth eithr y *Pythagoræaid* lawer jawn am y Gyfraith ar Defodau Deddfol a draddodwyd gan *Moſes*. Mae *Strabo* a *Juſtin* allan o *Trogus*, yn rhoddi Canmoliaeth odidog ir hên *Juddewon*, oblegyd eu Crefydd a'u cyfnawnder; yn gymmaint ag nad yw ond afraid bellach adrodd y tyſtiolaethau ſydd yr awrhon, neu a fu gynt, yn Yſgrifennedig ac yn gyttunol a Llyfrau'r *Hebræaid*, ynghylch *Joſuah* ac eraill; O ran pwy bynnag a goelio *Foſes* (ac nid all neb amgen, heb ormodd rhyfyg a dig'wyldydd-dra) f' a gred hwnnw'n ddiammeu wueuthur o Dduw wrthiau a Rhyfeddodau godidog yn yr hên amſeroedd, a goleu-fynegi hyn yn bennaf, yw fy mwriad yn hyn oll.

Ond am y Rhyfeddodau a fuant ar ol yr amſeroedd hyn yn amſer *Elias* ac *Eliſæus* ac eraill, mae llai o achos i ammeu ei gwirionedd. Obleyd fod *Judæa* 'r pryd hwnnw yn fwy adnabyddus nag or blaen ai holl Gymmydogion yn Elynion atcas iddi o herwydd ymrafael Crefydd; a hawſaf peth yn y byd a fuaſei ir rheini ddatcan gaudeb y chweclau hynny, pe buaſent celwyddog, pan gyntaf y dechreuant darddu allan. mae hanes *Jonas* a fu dridiau ym mol y Môrfil, yn *Lycophron* ac *Æneas Gazæus*, ond eu bod yn ei le ef yn rhoddi enw *Herculos*, er clod ir hwn y byddai 'r Cenhedloedd arferol o ddywedyd am dano bob peth gwyrthfawr a glywent am neb yn unlle arall; fel y tyſtiolaetha *Tacitus*. Mae'n ſicr war am *Julian*

ſi

er ei ſod cymmaint Gelyn i'r *Juddewon* ag oedd ir Chriſt'nogion, orſod arno, o herwydd eglurdeb Haneſion yr amſeroedd, gyſaddef ſod Gwyr gwedi eu hyſprydoliaethu gan Dduw ymmhlith yr *Juddewon*, a deſgyn o Dân or Nêf ar Aberthau *Moſes* ac *Elias*. Ac yn wir mae 'n beth a haeddai ni yma ddal Sulw arno, nid yn unig ſod, ymmhlith yr *Hebræaid*, Goſpedigathau trymmion yn oſodedig wrth y Gyfraith, ir ſawl a ryfygant gymeryd arnynt Swydd Prophwyd heb Awdurdod oddiwrth Dduw, ond bod hefyd lawer o Frenhinoedd a allaſent wrth hynny ynnill Rhagorfreintiau Urddaſol, a llawer o Wŷr Dyſcedig, megys *Eſdras* ac Fraill, na feiddiaſant erioed ymaflyd yn y Swydd Anrhydeddus honno. na neb yn wir trosrai oeſoedd cyn amſer ein Hiachawdwr.

Eithr anhaws o lawer y gellid twyllo cynnifer o Filoedd o Bobl a welant ac y Dyſtiolaethaſant y Rhyfeddod waſtadol gyhoeddus; Sef y Brophwydoliaeth neu Farnedigaeth yr *Urim* ar *Thummim* a ddiſgleiriei yn Nwyfronneg yr Archoffeiriad, am yr hyn yr oedd yr *Juddewon* oll bob amſer yn credu cyn ſiccred, barhau o hono hyd oni ddiniſtriwyd y Deml gyntaf, nad oes le i feddwl amgen nad oedd gan eu Henafiaid wybodaeth ddiamheus am dano.

RHAN XVII.

Profir yr un peth trwy Brophwydoliaethau.

MAE Rheſwm arall o Garennydd i hwn ynghylch *Rhyfeddodau*, cyn gadarned ag ynteu i oleufynegi *Rhagluniaeth Duw*; a gymmerir oddiwrth

oddiwrth Brophwydoliaethau neu Ddaroganau am bethau i ddyfod, a'r rhain, ymmhlith yr *Hebræaid*, oeddynt aml ac eglur iawn. cyfryw oedd yr hyn a ragddywedpwyd am ddiblantu'r ſawl a geiſiau ail-adeiladu *Jericho*; ac ynghylch dinyſtr y Deml oedd yn *Bethel* gan y Brenhin *Joſiah*, wrth ei Enw, a ſynegwyd fwy na thri-chant o flynyddoedd cyn ei ddyfod, felly y rhag-ſynegwyd Enw *Cyrus*, ai Orcheſtion godidoccaf gan y Prophwyd *Eſay*. A diben amgylchyniad *Jeruſalem*, pan warchaewyd hi gan y *Chaldæaid*, gan *Jeremiah*. Fithr troſglwyddiad Ymerodraeth yr *Aſſuriaid* at y *Mediaid* ar *Perſiaid*; ac oddiyno at *Alexander* y *Macedoniaid*; a Doſparthiad rhan oi Lywodraeth ef rhwng Etifeddion *Ptolomeus Lagus* a *Seleueus*; ar drygau anguriol a ddioddefai'r *Hebræaid* oddiwrth bob un or rhai'ni yn enwedig oddiwrth *Antiochus Epiphanes*; a ragſynegodd *Daniel* cyn eglured. nad oedd gan *Porphyrius*, gwedi darllen Cof-Lyfrau *Groeg*, oedd iw cael yn ei amſer ef, ai cyd-gyffelybu ar Prophwydoliaethau hyn, ddim iw achub ei hun, ond taeru nad yſgrifennaſid mor Prophwydoliaethau a dadogwyd ar *Daniel*, nes gwedi dyfod or pethau hyn i benn; yr hyn oedd mor ddireſwm a phe gwadai un yſgrifenu o *Virgil* yn amſer *Auguſtus Cæſar*, y Llyfrau ſydd gyhoeddus yn ei Enw ef, ac a tarnwyd bob amſer yn waith iddo. O ran nid ammheuodd yr *Hebræaid* erioed mor naill, mwy nag yr ammheued y llall gan y *Rhufeiniaid*.

At y rhain y gellir ychwanegu llawer jawn o Brophwydoliaethau hynod ymmyſc Trigolion *Mexico* a *Pheru* yn *America*, yn rhagſynegi dyfodiad yr *Hiſpaeniaid* ir gwledydd hynny, ar blinderau diniſtriol a ddigwyddent ar ol hynny.

I hyn hefyd y perthyn bagad o Freuddwydion, yn cyttuno cyn uniawned trwy Refymmau eraill ar pethau a ddaethant i benn, (ar rheiny hefyd ynddynt eu hunain ac yn eu hachoſion yn llwyr anadnabyddus ir Sawl oedd yn eu gweled trwy eu hûn) nad all neb heb anfad ryfŷg a digwylydd-dra, ddywedyd mai trwy ddamwain y digwyddafant, na bod Achoſion naturiol iw peri. F' a gaſclodd *Tertullian* Eſamplau Nodedig or fath yma, allan o Awdwyr cymmeradwy yn ei Lyfr ynghylch yr Enaid. Cyfryw yw 'r Drychiolaethau, nid yn unig a welwyd, eithr a glybuwyd yn fiarad hefyd; Fel y Traddododd llawer o Athrawon dyſcedig nac oeddynt nac ehud na Choel-grefyddol. eithr cymmhelled ag allai fod oddiwrth bob un or ddau. Yr un peth a dyſtiolaetha Rhai yn ein hoes ninau, a fuont yn byw yn *Sina*, a *Mexico*, a mannau eraill yn *America*. A pheth a dâl ei yſtyried yw'r hên ddefod a fu gynt o gyhoeddi chwilio diniweidrwydd pobl wrth gyffwrdd â heyrn Frydr Tanllyd, fel y mae llawer o Haneſion yr *Ellmyn* a'r Cyfreithiau eu hunain yn Tyſtiolaethu.

RHAN XVIII.

Atteb ir ſaw! a Wrth-ddadleuant na chanfyddir y fath Ryfeddodau yr awrhon.

AC nid gwiw i neb ddadleu 'n erbyn hyn, o herwydd na chanfyddir y fath Ryfeddodan 'r amſer yma, ac na chlywir y fath Brophwydoliaethau. Oblegyd digon i brofi Rhagluniaeth Duw yw bod y fath beth ryw bryd. Ac os cydnabyddir hyn, ni a ddylem gredu fod yn gymmaint Darbodaeth

Doethineb i Dduw beidio ar cyfryw bethau yr awrhon, ag oedd iddo gynt eu gwneuthur. Ac nid cymmwys chwaith yn fyrbwyll ac yn waftadol droſeddu 'r Gyfraith a oſododd Duw ir holl fyd yngh ylch hwyl naturiaeth ac anſiccrwydd pethau i ddyfod; Eithr y pryd y bo achos da 'n peri; megys pan oedd; Addoliant y Gwir Dduw gwedi ei droi agoss allan or holl fyd. yn trigfanu yn un gongl gyfyng o honaw, ſef yn *Judæa*, yna angenrhaid oedd codi megys byddinoedd o Ddieithraid iw hamddeffyn ai diogelu rhag rhuthrau 'r Annuwioldeb oedd iw hamgylchu. neu megys pan oedd y Grefydd Grift'nogol, am yr hon yr ymadroddwn yn bendant yn y mann, trwy Ordinhâd Duw, iw thanu gyntaf hyd yr holl Fyd.

RHAN XIX.

A bod cymmaint rhydd-id i bechu.

MAe ymbell un yn chwannog i ammeu Rhagluniaeth Duw, o ran eu bod yn gweled cymmaint o Ddrygioni, megys Diluw, yn gorchguddio Wyneb y Ddaiar. A gorchwyl Pennaf Rhagluniaeth meddant pe bai 'r fath beth fuaſei goſtegu a rhwyſtro 'r cyfryw echryſlon anwireddau. Ond mae'n hawdd atteb hyn. Oblegyd gan roddi o *Dduw* i Ddyn yn ei Greadigaeth rydd-did i wneuthur â fynno ai da ai drwg, gan gadw Dajoni perffaith-gwbl anghyfnewidiol megys rhagorfraint iddol iddo ei hun, ni buaſei gymmwys llyffetheirio Dyn cyn gaethed oddiwrth weithredoedd drwg, â dwyn ymmaith y rhydd-did a ganniatefid unwaith iddo, y mae Duw, er mwyn attal Dyn rhag

rhag pechu, yn arfer pob moddion na lwyr anghydfyddent ar rhydd-did hwnnw. megys trefnu a chyhoeddi Cyfraith; Cynhyrfiadau ac Annogaethau oddifewn ac oddiallan a Chadarnhau 'r cwbl trwy fygythion ie, a thrwy Addewidion hefyd. Eithr nid yw chwaith yn gadael mor cymmaint rhwyfc i Ddrygioni, nac iw Effeithiau gyrraedd cymmhelled ag y gallent [ped faent heb attalfa arnynt:] yn gymmaint nad allwyd erioed ddadymchwel pob math ar Lywodraeth, na llwyr ddileu Gwybodaeth o Gyfreithiau Duw. Ac nid yw y troſeddau a gynhwyſir heb ryw ffrwyth yn y cyfamſer, O ran ſai harferir (megys y cychwynnais grybwyll or blaen) naill ai er coſpedigaeth ar ryw ddrwg-weithredwyr echryſlon eraill, ai er cerydd ar y ſawl a lithrant oddiar ffordd Rhinwedd a Duwioldeb, ai er Annog y ſawl a aethant ymmhell ymlaen yn llwybrau Rhinwedd a Sancteiddrwydd i ddangos Eſampl ragorol o ddiſigl ammynedd a dyfal-barhâd ddianwadal. yn ddiweddaf, mae y ſawl y mae Duw yn goddef eu hanwireddau ros amſer, megys pe bai heb eu canfod, yn arferol o dalu ryw bryd hyd adref, a llêg hefyd am r amſer y cyd-ddygwyd a hwynt, ſef o ddioddef r Coſpedigaethau a fynno Duw am wneuthur honynt y petheu na fynnaſei ef.

RHAN XX.

Yn gymmaint â bod Gwyr da yn fynych yn cael eu gorthrymmu.

AC os ydym weithiau heb weled Coſpedigaethau yn deſcyn ar y cyfryw Anwireddau geler. a bod (yr hyn fy 'n arferol o rwyſtro

meddyliau gweiniaid) Gwyr da 'n gorfod iddynt odde 'u gorthrymmu au baeddu trwy drais a gorthrech dynion diffaith, ac nid yn unig yn byw mewn afwydd a blinder, ond yn marw hefyd yſgatfydd o farwolaeth wradwyddus: Ni ddylem ni er hynny mor gwadu nad yw Rhagluniaeth Duw yn gofalu am berthynaſau dynion, gan ei bod (fel y mynegaſom yr awrhon) gwedi eu ſiccrhau trwy gynnifer o Reſymmau anorfod; Eithr ni a ddylem, gyda 'r Gwŷr Doethaf, ymreſymmu a barnu fel hyn.

RHAN XXI.

Gwrth-droir hyn i brofi fod yr Enaid yn byw ar ol y Corph:

GAn fod Duw yn gofalu am weithredoedd Dynion, ac yn gyfiawn heſyd, ar pethau hyn yn y cyfamſer 'yn cael eu cymwys, mae i ni achos da i ddiſgwyl y bydd rhyw Farn ar ôl y bywyd hwn. rhag nac i anferth Ddrygioni ddiangc heb goſpedigaeth, naci Rinwedd oddiog fod heb wobr a diddanwch.

RHAN XXII.

Yr hyn a brofir drwy Draddodiad.

ER mwyn ſiccrhau hyn, mae 'n rhaid cydnabod hefyd fod Eneidiau Dynion yn byw ar ar ol eu hymwahaniad oddiwrth y Cyrph; Ar hên Draddodiad yma a ddyliſodd oddiwrth ein Rhieni cyntaf

Cyntaf. (Canys o ba le arall y deuai?) agos at bob Cenhedloedd y mae na dyſc na dawn yn eu plith; fel y mae 'n eglur wrth Brydyddiaeth *Homer*, ac wrth Lyfrau Philoſophyddion nid or *Groegiaid* yn unig, eithr hefyd y rhai a elwid *Druidion*, yn *Ffraingc* a *Brydain*; ar *Brachmaniaid* yn *Jndia*, ac wrth y Pethau a 'Sgrifennodd llawer o Awdwyr ynghylch yr *Aiphtiaid* ar *Thraeiaid*, ar *Ellmyn* hefyd neu 'r *Germaniaid*. Heblaw hyn ni a welwn hefyd fod llawer o ſôn am y Farn oſnadwy a fydd ar ol y fuchedd hon, nid yn unig ymmyſc y *Groegiaid*, Eithr yr *Aiphtiaid* ar *Indiaid* hefyd, fel y mynega *Strabo*, *Diogenes Laertius* a *Phlutarch*. At yr hyn y gellir ychwanegu y Dlarogan oedd gynt yn *Hyſtaſpis* ar *Siblau* yn rhagfynegu y lloſgid y Byd, yr hyn ſydd etto yn *Ovid* a *Lucan*, ac ymmhlith Trigolion *Siam* yn *India*. A Sywedyddion a ddaliaſant Sulw maearwydd o hyn yw bod yr Haul yn ymoſtwng nes nês at y Ddaiar. A phan aeth Gwŷr or gwledydd yma gyntaf i'r Ynyſoedd a elwir *Canaria*, ac *America*, ac Ardaloedd anghysbell eraill, fa gaſwyd y Grediniaeth yma ynghylch Anfarwoldeb yr Enaid a Barn i ddyfod ymmhlith Brodorion y mannau hynny.

RHAN XXIII.

Ac nid ellir rhoi Rheſwm yn y Byd yn erbyn hyn.

AC nid all fod un Rheſwm Naturiol yn erbyn hyn o Draddodiad, ſydd cyn hyned ac nor gyffredinol. Oblegyd pa bethau bynnag a welwn yn darfod; hwy a ddiddymmir naill ai

trwy weithrediad rhyw beth gwrthwynebol o fwy grym, megys y diddymmir Oerſel trwy boethlym angerdd gwrês. Ai yn Ail trwy golli 'r Sylwedd y bo'nt yn ymgynnal arno; megys y derfydd am faintioli Drŷch pan ei torrer. ai 'n Drydydd. O herwydd diffyg neu eiſiau 'r Achos trwy yr hwn y bo 'nt yn hanſod, megys y palla Goleuni 'r Dydd ar ſachludiad yr Haul, Eithr nid ellir diddymmu neu ddiniſtrio 'r Enaid trwy 'r un or tair ffordd hyn. Nid trwy 'r gyntaf, Oblegyd nid ces dim yn wrthwynebol ir Enaid. ie cyfryw yw ei Natur arbennig ag y dichon yr un modd, a'r un amſer, amgyffred pethau gwrthwynbol i'w gilydd, yn ei ffordd ei hun, ſef trwy ei Ddealltwriaeth. Na thrwy 'r Ail; Oblegyd nid oes un ſylwedd y mae Natur yr Enaid yn ymgynnal arno: ped fai, Corph Dyn a fyddai. Ond nid yw yn ymgynnal ar hwnnw, fel y mae 'n eglur wrth hyn. Sef, pan ſo Nerthoedd a Swydd-gynneddfau yr Corph yn blino wrth gynnhyrfu neu weithio, mae'r Enaid neu 'r Meddwl yn ddiflinder. Heblaw hyn mae Gallu neu Synhwyrau 'r Corph yn pallu neu 'n gwanhychu, neu 'n briwo, pan ſo ryw beth amgenach yn pwyſo 'n rhy drwm arnynt, megys y palla lleuerydd y Llygaid wrth ddiſclair belydr yr Haul. Eithr po odidoccaf ſo 'r pethau y bo 'r Meddwl neu'r Enaid yn ymgyffwrdd neu 'n ymſynnied a hwynt, megys Lluniau gwahanrhedol oddiwrth ſylweddau defnyddiol, neu Yſtyriaethau cyffredinawl, bydd o hynny 'n berffeithiach, yn gyflawnach, ac yn alluoccach. Nid ymgyrraedd Nerthoedd y Corph ond ar y cyfryw bethau ac ſydd o ran eu lle au hamſer; yn Derfynedig, yr hyn yw Naturiaeth y Corph, Eithr ymddercha 'r Enaid at yr Anfeidrol ar Tragywyddol. Am hyn-

ny

ny ynteu, gan nad yw 'r Enaid neu'r Meddwl yn ymgynnal ar y Corph yn ei weithrediadau, nid yw chwaith yn ei Anian neu ei hanfod. O ran nid oes i ni fodd i ddeall natur pethau anweledig ond wrth eu Gweithrediadau. Ac ni ddyddymmir yr Enaid trwy'r drydydd ffordd O Lygredigaeth. Oblegid nid oes un achos gweithredawl or hwn y mae'r Enaid yn deilliaw'n wastadol. Canys nid all neb ddywedyd mae 'n Rhieni yw'r achos hwnnw, gan ein bod yn gweled plant yn byw, gwedi marw eu Rhieni. Ond os bydd rhaid i ni gael rhyw Achos oddiwrth yr hwn y deilliaw yr Enaid felly, nid all hwnnw fod ddim amgen na'r Prif-Achos cyffredin, Sef Duw ei hun, yr hwn ni phalla byth o ran ei Allu. Ac nid oes Rheswm yn y Byd i brofi y palla Ef chwaith o ran ei Ewyllys; hynny yw, ni ddichon neb byth ddangos fod Duw 'n Ewyllysio diddymmu'r Enaid.

RHAN XXIV.

Llawer o Resymmau am hyn.

ONd or tu arall, y mae llawer o Resymmau dwyfion i brofi Anfarwoldeb yr Enaid. megys, llywodraeth a roddwyd i Ddyn ar ei weithredoedd ei hun; yr Awydd sydd ganddo i fod yn Anfarwol; Bywiogrwydd ei Gydwybod yn cyssuro'i feddwl o herwydd Gweithredoedd da er eu blined; ac yn ei gynnal i fynu trwy ryw Ddisgwyliad Gobeithlawn; ac or tû arall yn ei yssu ac yn ei arteithio oblegyd gweithredoedd drwg yn enwedig pan fo ymron marw, megys ped fae Eusys yn deimladwy or farn sydd ar ei warthaf. Ac nid allai'r

Teyrn-Reolwyr dihiraf na dyhuddo na lluniaru'r gnoſa ddygn-doſt yma, pan oedd fwyaf eu hewyllys i gael llonyddwch ganddi; fel y mae'n amlwg wrth lawer o Eſamplau.

RHAN XXV.

O herwydd pa ham y Diben goreu i Ddyn yw Dedwyddwch ar ol y Fuchedd hon.

GAN fod ynteu, yr Enaid o gyfryw anſawdd a Natur nad oes ynddo 'i hun ddim achos Llygredigaeth, a chan roddi o Dduw i ni amryw Arwyddion, trwy y rhai y dylem ddeall ei fod yn Ewyllyſio byw or Enaid ar ol ei ymadawiad ar Corph. Nid ellir cynnig gwell na chymmwyſach Diben i Ddyn, nâ Dedwyddwch tragywyddol yn y bywyd hwnnw. Yr hyn, yn ei herwydd, yw meddwl *Plato* ar *Pythagoreaid* pan ddywedent, mae goreu i Ddyn gael ei wneuthur yn drachyffelyb i Dduw.

F'all dynion yn wir fwrw amcan ar Ddull ac Anſawdd y Dedwyddwch yma, ar modd iw ymnill: Ond os ydyw Duw ei hun gwedi rhoddi rhyw ddadcuddiad neu Oleuni am dano, ac am y ffordd iw gyrhaeddyd, ni a ddylem goelio hynny megys Gwirionedd ſicer diammeu.

RHAN

RHAN XXVI.

I gael hyn rhaid iw edrych am y wir Grefydd.

ACHan fod y Grefydd Grift'nogol, rhagor eraill yn addaw dangos hyn i ni, mae'n fy mryd yn y Llyfr nefaf edrych pa goel a Chrediniaeth fydd ddyledus iddi.

Yr AIL LLYFR
YNGHYLCH
GWIRIONEDD
Y
GREFYDD GRIST'NOGOL.

RHAN I.

Profir mae 'r Grefydd Griſt'nogol yw'r wir Grefydd.

NID dadcan a gofod allan holl Athrawiaethau *Chriſtnogaeth* yw Amcan a bwriad yr ail Llyfr yma, Eithr gwedi difrifol Weddio ar Griſt y 'r awrhon yn rheoli yn Frenin yn y Nefoedd, im ganiattau o honaw i ni gymmorth ei lân Yſpryd im gwneuthur yn addas i'r cyfrywy orchwyl bwysfawr, ſy mryd yw ceiſio dangos mae'r Grefydd Griſt'nogawl yw 'r wiriaf ar ſiccraf o'r holl Grediniaethau, neu ei bod yn union ac yn ſiccr wir.

RHAN

RHAN II.

Fod Jeſu 'n byw gynt yn Judæa.

NID oes dim fydd wiriach na ſiccrach na bod Jeſu o *Nazareth* yn byw gynt yn *Judæa*, Pan oedd *Tiberius* yn Ymmerodr yn *Rhufain*, gan fod nid yn unig y Criſt'nogion ſy'n waſcaredig hyd holl Ardaloedd y Byd yn diſigl gredu ac yn cyhoeddi hynny, Eithr yr Holl *Juddewon* hefyd ſy'n byw yr awrhon, a chynniſer o honynt ag a 'ſgriſennodd er hynny hyd yr awrhon, yn cydnabod yr un peth. Hyn hefyd a dyſtiolaetha bagad o Awdwyr Cenhedlig, ſef or rhai nad oeddynt nac *Juddewon* na *Chriſt'nogion*, megys *Suetonius Tacitus* a llawer ar eu hôl hwythau.

RHAN III.

Ddieddef o bonaw farwolaeth wradwyddus

AC y mae cyn ſiccred ddarfod Croeſhoelio *Jeſu* hwnnw tan *Pontius Pilate* Rhaglaw *Judæa*; Oblegyd mae'r Holl Criſt'nogion yn cyfaddef hynny, er y gellid tybied mae peth cywilyddus oedd iddynt addef'r fath Arglwydd: yr un peth a gydnabyddir gan yr *Juddewon* hefyd er eu bod yn gwybod or goreu fod y *Chriſt'nogion*, y rhai y mae'nt yn byw yma a thraw trwy eu Llywodraeth, yn eu ffieiddio 'n erchyll or achos. Mae'r Awdwyr Cenhedlig, a grybwyllwyd yr awrhon, gwedi gadael yr un peth yn yſgrifennedig. ie 'r oedd Actau neu weithredoedd

late iw gweled ymmhell gwedi hyn, trwy y rhai y gellid profi 'r peth. a'r Chrift'nogion weithieu'n cymmeryd tyftiolaeth o honynt. Ac nid anmheuodd na *Julian* na neb arall o Elynion y Grefydd Grift'nogol ddim o'r pethau yma: yn gymmaint ag nad ellir meddwl am hanes yn y byd ficcrach na hwn, a gadarnhawyd gan gynnifer, ni ddywedaf o Ddynion, eithr o Genhedloedd hefyd y rhai ydynt yn cyttuno yn hyn, er eu bod yn anghyttuno agos ymmhob peth arall.

RHAN IV.

Addolir ef er hynny ar ôl ei Farwolaeth ganwyr doethion hefyd.

AC er hyn ei gyd, ni a welwn fod yn ei addoli ef, megys Arglwydd, hyd eithafoedd y Byd: a hynny nid yn unig yn ein hoes ni, neu yn yr Oefoedd a fuant ychydig o'r blaen, eithr er yr amfer hefyd y gwnaethpwyd hyn. fef, er amfer Ymmerodraeth *Nero* y pryd yr Arteithiwyd ac y dihenyddiwyd llawer o Bobl. yn unig am addef Crefydd Crift ai Addoliant, fel y mae *Tacitus* a eraill yn tyftiolaethu.

RHAN V.

Ac nid allai fod un achos arall o hyn ond gwneuthur o honaw Ryfeddodau yn ei fywyd.

YR oedd hefyd bob amfer ymmhlith Addyliddion Crift, lawer jawn o Wŷr Doeth-

ion

ion dyſcedig, cyfryw (heb ſôn yr awrhon am yr *Juddewon*) oedd *Sergius* Rhaglaw *Cyprus*, *Dionyſius*, *Areopagita*, *Polycarp*, *Juſtin*, *Irenæus*, *Athenagoras*, *Origen*, *Tertulian*, *Clemens* o *Alexandria* ac amryw eraill. Ac nid oedd achos yn y byd i Wŷr or fath yma ymroddi i dalu duwiol Addoliant i Ddyn gwedi marw o farwolaeth gywilyddus, yn enwedig gan eu bod, ganmwyaf oll, gwedi eu dwyn i fynu mewn Crediniaethau eraill, ac heb na pharch na golud iw gael y pryd hwnnw oddiwrth y Grefydd Grift'nogol; ond eu bod wrth ddyfal chwilio, fel y gweddai i Wŷr Doethion Synhwyrol mewn achos o gymmaint pwys, yn gweled ac yn gwybod mae gwir, gwedi ei gadarnhau trwy Dyſtiolaethau ſiccr-greda-dwy, oedd y Gair a aethai ar lêd am y Rhyfeddodau a wnaethai 'r Jeſu, megys darfod iddo yngwydd bagad, ai Air yn unig, jachau llawer o hên gleſydon trymmion anaele; ac edfryd Golwg i ddyn a aneſid yn ddall; ychwanegu fwy nag unwaith ychydig Dorthau o Fara i fod yn ymborth a gweddill i lawer o filoedd o bobl, a allaſent dyſtiolaethu hynny, a chyfodi rhai o feirw i fyw: heblaw amryw wyrthiau eraill o'r fath honno. Ac yn wir yr oedd cymmaint Siccrwydd a hysbyſrwydd am wreiddyn y Gwirioneedd yma, na feiddiodd na *Julian*, na *Celſus* erioed wadu na wnaethau Grift rai Rhyfeddodau pan Yſgrifennaſant yn erbyn y Chriſt'nogion, a'r *Hebræaid* yn Llyfrau 'r *Talmud* ai cyfaddefant yn eglur.

RHAN

RHAN VI.

Ac ni wnaethpwyd y Rhyfeddodau hyn trwy nerth Natur, na thrwy ddim arall ond gallu Duw

MAE'n amlwg wrth hyn nad trwy rŷmm Natur y gwnaethpwyd y Gweithredoedd hynn, y crybwyllaſom am danynt, Oblegyd gwyrthiau neu Ryfeddodau y gelwir hwynt. Ac nid oes fodd i neb chwaith trwy nerth Natur allu 'n ebrwydd ai Air, neu trwy gyffwrdd yn unig, jachau Clefydau trymmion. A phe buaſei fodd yn y byd i daeru y gallai nerth Natur wneuthur y ſathr Wyrthiau, diameu y dywedaſid hynny er ys talm naill ai gan y ſawl oeddynt Elynion addefadwy i'r Hiachawdr Criſt pan oedd ar y Ddaiar, ai gan y ſawl a wrthwynebent ei Efangyl, Ef ar ôl ei Farwolaeth.

Mae'r cyffelyb Reſwm i brofi nad hudoliaethau Swyngyfareddawl oeddynt, Oblegyd ſa wnaethpwyd y rhan fwyaf o'r Gweithredoedd hyn yn gyhoeddus yngolwg y Bobl, ac ymmyſc y bobl hyn lawer o Wŷr dyſcedig yn Elynion neu 'n ewyllyſwyr drwg i Griſt, ac yn dal craff-ſulw ar ei holl weithredoedd ef. Bwriwch at hyn wneuthur o honaw 'n fynych weithredoedd cyffelyb iw gilydd; ac nad oedd eu heffeithiau 'n darfod mewn munudyn, eithr yn parhau yn hir o amſer. Os yſtyriwn hyn oll, fel y dylem, nid allwn lai na gweled yn eglur (yr hyn a gydnabyddir hefyd, gan yr *Juddewon*) ddeilliaw or Gweithredoedd hyn oddiwrth ryw Allu mwy nag a berthyn i Ddyn, ſef oddiwrth ryw Yſpryd, naill ai da ai drwg. Ond nid oedd fodd iddynt ddeilliaw oddiwrth un Yſ-

pryd

pryd drwg, fel y mae 'n eglur wrth hyn; fef, oblegyd fod Athrawiaeth Crift (er mwyn cadarnhau yr hon, y gwnaethpwyd y gwyrthiau hynny) yn gwrthladd yſprydion drwg: Canys y mae'n gwarafun eu haddoli, ac yn gwahardd dynion rhag pob aflendid Buchedd; yn yr hyn y mae 'r cyfryw Yſprydion yn ymhyfrydu. Ac ni a welwn wrth y pethau a ddigwyddafant gwedi hynny, fod Addoliant Yſprydion drwg yn diflannu, a chelfyddydau Swyngyfareddawl yn colli. Pa le bynnag y derbynid y Grefydd Grift'nogol, ac nad Addolid onʼd un Duw, gan erchyll-ffeiddio 'r cyfryw yſprydion melldigedig: yn gymmaint a bod *Porphyrius* ei hun yn cydnabod ballu o Nerth ac Awdurdod y rheini ar ddyfodiad Crefydd ac Addoliant Crift.

Nid yw debygol chwaith y byddai un yſpryd drwg cyn hurted ag y gwnai, a hynny 'n fynych, y cyfryw bethau nad allai fod na pharch na bŵdd iddo 'i hun, eithr, yn y gwrthwyneb, colled fawr a chywilydd oddiwrthynt. Ond yn bendifaddeu, nid yw mewn modd yn y byd yn cyttuno a Doethineb a Dajoni Duw ei hun, gredu y goddefai ef, trwy ddichell a hudoliaethau Cythreuliaid, dwyllo Dynion diddrwg, diniweid oedd yn ei wir ofni ef, megys yr oedd Diſcyblion cyntaf ein Hiachawdr, fel y mae eu hucheddau difeius, ar amryw flinderau ar poenydiau a ddioddefafant o herwydd Cydwybod yn eglur-fynegi.

Ond dywedi ddeilliaw o Weithredoedd Crift oddiwrth ryw yſprydion neu Angylion da, eithr o is gradd nar goruchaf Dduw, yr wyt wrth hynny 'n cydnabod eu bod yn bodloni Duw, ac yn perthyn iw Anrhydedd Ef; Oblegyd ni wna yſprydion da ddim ond a fo cymmeradwy gan Dduw

Dduw, ac er gogoniant iddo ; fel nad ynganom
yr awrhon fod rhai o wyrthiau Crift yn gyfryw,
u bod megys yn tyftiolaethu nad allai ond Duw
ei hun weithredu monynt, megys Adgyfodi mwy
nag un o farw i fyw. Bellach, Nid yw Duw yn
gwneuthur, nac yn cynwys gwneuthur Rhyfedd-
dau heb achôs. O ran ni weddei i Ddoeth Ly-
wiawdr neu Ofodwr Cyfraith gilio oddiwrth ei
Gyfreithiau ei hun, oddieithr ar Achos ac yftyr
wysfawr. Ac nid ellir dywedyd fod Achos yn
byd arall o herwydd pa ham y gwnaethpwyd
gwyrthiau yma, ond yr hyn a fynegodd Crift
i hun; fef, mae er mwyn rhoi tyftiolaeth am wir-
onedd ei Athrawiaeth ef: Ac yn ddiammeu ni
edrai 'r fawl a welent y Gweithredoedd hyn fedd-
wl am achos yn y byd arall; A chan fod ymmhlith
rhain lawer o bobl Dduwiol yn caru ac yn of-
i Duw o eigion eu Calonnau, cabledd melldig-
dig yw credu na meddwl y gwnai Duw 'r cyf-
yw beth, yn unig iw twyllo a'u fiomi. A hyn
edd un achos a wnaeth i lawer or *Iuddewon* oedd-
nt yn byw ynghylch amfer yr *Iefu*, ie or rhai
a fedrid tynnu monynt i ymadel ac un mym yn
Gyfraith *Mofes*, megys yr oedd y rhai a elwid
Nazareniaid ar *Ebionæ'id*, gydnabod er hynny
nae Dyfcawdr gwedi ei anfon or Nef oedd *Iefu*.

RHAN VII.

oleu-fynegir Adgyfodiad Crift trwy Dyftiolaethau Siecr-gredadwy.

Heblaw 'r Gwyrthiau gallnog a wnaeth Chrift
yn ei fywyd, mae rhefwm arall i ficcrhau
Gwirion-

Gwirionedd ei Athrawiaeth Ef, ſef ei Ryfeddol Adgyfodiad Ef gwedi ei groeſhoelio ai farw a gladdu. Oblegyd mae'r Holl Griſtnogion ymmhob mann ac ymmhob oes yn addef hyn, nid yn unig am ſiccr wir, eithr megys Prif-ſail, neu ſylfaen gadarnaf eu crefydd au crediniaeth. Ac nid allaſei hyn mor bod, oni bai ddarfod ir-ſawl a ddyſcaſant neu a bregethaſant y ffydd Griſt'nogol gyntaf beri i'w Gwrandawyr goelio'n ddiammeu, fod y peth yn gwbl ac yn ſiccr wir. Ac nid allaſent chwaith beri i neb dealltwrus goelio hyn am wir diammeu, oni ddywedent eu bod eu hunain gwedi ei weled a'u llygaid. Canys heb gyfryw Siccrwydd, ni buaſei neb yn agos yw hwŷl yn coelio monynt, yn enwedig yn yr amſeroedd hynny, pan oedd drygau a pheryglon erchyll i orddiwes y ſawl a'u coelient. Mae eu Llyfrau hwynt eu hunain ac Awdwŷr eraill yn mynegi i ni ddarfod iddynt ddywedyd hyn, a ſefyll ynddo yn ddiſigl-ddiyſgog; ie, mae 'n amlwg wrth eu Llyfrau, fod ganddynt Bum-cant o Dyſtion a welſent yr *Jeſu* ar ôl ei farwolaeth, gwedi dyfod i fyw drachefn; Ac nid arfer neb pan ddywedent gelwydd alw am gymmaint o Dyſtion. Ac nid poſſibl chwaith i gynnifer gyttuno mewn gau-dyſtiolaeth. Ond ped ſuaſent heb ddim Tyſtion ond y Deuddeg hynny, oeddynt Bregethwŷr a Dyſcawdwyr Enwoccaf y Crefydd Griſt'nogol, f'a ddylaſei hynny fod yn llawn ddigon. Nid yw neb yn ddrwg am ddim. Nid oedd le iddynt ddiſgwyl parch ac Anrhydedd am ddywedyd y fath gelwydd, pan oedd pob goruchafiaeth yn Nwylo 'r Cenhedloedd ar Juddewon: y rhai ni chawſant hwy ddim oddiwrthynt ond Enllib ac Anair, nid allent chwaith ddiſgwyl na golud na mawrdda oddiwrth hyn, Oblegyd fod yn

gorfod

gorfod ir ſawl a addefent y ffydd yma yn fynych golli hynny a fyddai ganddynt o dda bydol; a phe buaſei hyn heb fod, nid allaſent chwaith bregethu mor Efangyl, fel y gwnaethant, heb lwyr eſgeuluſo gofalu am bethau 'r byd. Ac nid allai ddim arall o bethau dymunol y bywyd yma 'u cynhyrfu neu eu hanog i ddywedyd amgen nar gwir yn yr achos yma, pan oedd Pregethu 'r Efangyl yn eu daroſtwng i ddioddef newyn a ſyched, Gwialenhodau a Charcharau Nid oedd gymmaint bri iw gael ddiwrth dippyn o ſolach neu Ffir-da ymmhlith eu cydnabod, ag y buaſei Ddynion diſyml diniweid y i hai yr oedd eu buchedd au hathrawiaeth yn llwyr-ffeiddio pob balchder a Gwag-ogoniant byth yn ymroddi i ddioddef Cymmaint o ddryg-fyd a chaledi o'i achos. Ac nid allaſent chwaith ddiſgwyl y buaſei eu hathrawiaeth byth yn cyrraedd cymbelled, gan fod Trachwantau naturiaeth yn eu gwrthwynebu, a Rhwyſc ac Awdurdod ymmerodron a llywodraethwyr ymmhob mann yn ei gorthrechu oni bae fod ganddynt Addewid Duw iw cefnogi au cyſſuro. bwriwch at hyn nad oedd les iddynt ddiſgwyl y parhai 'r glod honno yn hir, pa fath bynnag a fuaſei Oblegyd (gan fod Duw o'i Ddoethineb yn celu ei feddwl yn yr achos hwnnw) ei bod yn diſgwyl Diwedd y byd ar fyrrder; megys y mae eu hyſgrythyrau hwynt eu hunain. ac yſgrifennadau 'r Chriſt'nogion, a ddaethant yn y mann ar eu hol, yn eglur-fynegi. Nid oes ynteu ddim iw ddadleu yn eu herbyn, oni thaerir eu bôd yn dywedyd celwydd. er mwyn ymddiffyn eu Crefydd; Ond os jawn yſtyrir y peth. nid oes le i ddywedyd mo hynny chwaith am danynt. Canys naill ai'r oeddynt yn credu o'u Calonnau fod y Grefydd honno 'n wir, ai nid oeddynt. Ped ſuaſent heb

gredu ei bod yn wir, ie, ped fuafent heb gred
mae 'r Crefydd orcu oedd hi: ni ddewifafe
byth moni gan ymwrthod a Chrefyddau erail
oedd ddiogelach ac anhydeddufach. ie et ei bo
yn wir, ni buafent yn addef moni, oni bai gre
du o bonynt fod y cyfryw addefiad yn anghen
rheidiol, pan allent yn hawdd ragweled, ac
daethant yn y munn i wybod yn hysbys, y by
ddai 'r Gredinfaeth yma 'n Achos o Farwolaet
angeuft o bobl. A phe buafent yn hudo 'r trueini
aid hynny i gollu eu bywyd, heb achos da cy
awn; ni buafent ddim gwell na lladron neu lo
truddion. Oud os oeddynt yn credu fod eu crefyd
yn wir, ac yn dda ragorol, ac yn llwyr angenrhei
ei haddef; a hynny at ol marwolaeth eu Har
lwydd au Hathraw: yn ddiammeu nid allafei hy
ny byth mor hod, oni bai gywiro o'u Har
lwydd ei Addewid ynghylch ei Adgyfodiad. O
legyd pe torrafai ei Air am hynny, t'a fuafe
yn ddigon i beri i bob Dyn yn ei jawn bwyll
ymwrthod hefyd ar peth a goeliafei or blaen a
dano.

Dracheſn, mae pob Crefydd, ar Grift'nogo
yn anad un, yn gwahardd celwydd a cham Dyſ
golaeth, yn enwedig ar Achoſion Crefyddol. N
allai ynteu ſerch ar Grefydd, yn Enwedig
cyfryw Grefydd, ddenu monynt i ddywedyd ce
wydd. Bwriwch at hyn, eu bod yn wyr o y
ddygiad di-ddrwg difeius, nad oedd gan eu 6
lynion atcafaf ddim iw fwrw arnynt, ond
Gwiriondeb a'u Diniweidrwydd; ar cyfryw D
edd-fryd yn ddiammeu yw 'r anghyffelypaf or cw
i ddychymygu celwydd.

Ond beblaw hyn, nid oedd yr un or rhain
ddioddefodd flinderau a phoenedigaethau or try

maſ, am addef Adgyfodiad yr *Jeſu.* a llawer o honynt hefyd a ddihennyddiwyd trwy farwolaethau dir-boenus angiriawl, O herwydd y Dyſtiolaeth honno. Bellach f'allei y dioddefau Ddyn yn ei jawn bwyll y cyfryw galedi, O herwydd rhyw-lŷb a hoffodd ac a goeliodd yn ei Galon am war; Ond bod nid yn unig i un Dyn, ie, eithr i lawer o Ddynion, ymroddi o'u gwirfodd i ddioddef'r cyfryw Arteithiau creulon o achos Celwydd, y gwyddent mae celwydd ydoedd, a hynny pan nad oedd iddynt nac elw nac ynnill, o beri i eraill goelio 'r anwiredd hwnnw, ſydd beth llwyr anghyffelybol ac anghredadwy.

Ac y mae ymddygiad a Llyfrau 'r Gwyr yma yn tyſtiolaethu 'n olau nad dynion gwallgofus eithr mae Gwŷr pwyllog deallgar oeddynt. Yr hyn a ddywedpwyd yma am yr Apoſtolion Cyntaf, ſydd wir hefyd am St. *Paul*, yr hwn a gyhoeddodd yn eglur weled o honaw Griſt yn teyrnaſu yn y Neſoedd; Ac nid oedd ar y Gwr hwnnw, eiſieu na dyſc, na gwybodaeth ynghrefydd yr *Juddewon*; nag eiſiau Gobaith chwaith am fawredd a goruchafiaeth, pe buaſei 'n canlyn ffordd ei Dadau.

Lle yn y gwrthwyneb yr oedd yn rhaid iddo o achos y grediniaeth yma, oddef câs a chilwg gan ei Ceraint ai gydnabod, ac ymroddi i gymeryd ymdeithiau toſtion peryglus, blinion ar draws y byd, ac yn ddiweddaf oddef Cyſtuddiau a marwolaeth greulon, gydâg Anair a gogan gwradwyddus.

RHAN VIII.

Atteb i wrthreſwm y Sawl a feddyliant fod y Adgyfodiad yn Amhoſſibl.

NID all neb yn ddiammeu amgen na choeli cymmaint a chyfryw Dyſtiolaethau, oddi eithr iddo ddywedyd nad oedd fodd i'r fath beth mor bod fel pettai 'n gyfryw ac fy 'n llwyr ang hydfyddol a Gwirionedd. Ond nid ellir dywed yd mo hyn yn yr achos yma, yn wir pe taerai ryw un fod yr un Dyn yn fyw ac yn farw 'r un amſer ni byddai fodd i hynny mor bod. Eithr nid oes achos yn y byd i feddwl mae peth nad all fod, yw Adgyfodi Dyn gwedi marw unwaith i fyw drachefen, yn enwedig trwy rinwedd a gallu yr hwn a roddes i Ddyn ar y cyntaf ei fywyd a hanfod.

Ac nid oedd Gwyr Doethion yn meddwl mae peth ammhoſſibl yw hyn. gan fod *Plato* yn yſgri fennu ddarfod adfywioccau un *Fris* o *Armenia*; yr un peth a fynegir am ryw wraig gan *Heracl ites* Philoſophydd o *Pontus*, ac a ddywed *Her dotus* am un *Ariſtæus*; a *Phlutarch* am rai eraill. A pha un bynnag ai gwir ai anwir oeddynt, mae'n yn dangos fod Gwyr Doethion dyſcedig yn barn y dichon y fath beth fod.

RHAN IX.

Mae Adgyfodiad yr Jefu yn Siccrhau Gwirionedd ei Athrawiaeth ef,

BELLach gan nad yw'n beth ammhoſſibl y gallai Grift adgyfodi o farw i fyw, a bod digod o Dyſtiolaethau hynod oi Adgyfodiad, (megys yr oeddynt cyn eglured a gorfod ar *Rabbi Bechi*, un o Athrawon yr *Hebreaid*, gydnabod mae gwir ydoedd) a chan ddarfod i'r Crift yma (fel y mae ei Ddiſgyblion ef ei hun ac eraill yn cyfadd ef) oſod allan Athrawiaeth newydd, megys trwy orchymmyn Duw, mae 'n eglur ddiddadl fod yr Athrawiacth honno 'n wir. Oblegyd ni buaſei 'n gweddu i Gyfiawnder a Doethineb Duw ei Anrhydeddu Ef mewn modd mor rhagorol, pe lluniaſei anwiredd ar achos o bwys mor Anfeidrol. yn enwedig, gan ddarfod iddo cyn el farw ragfynegi ei farwolaeth, a pha fath a fyddai, a hefyd ei Adgyfodiad o farwolaeth i fywyd, gan ddywedyd yn ychwaneg y deuai 'r pethau hyn i benn, fel y bydden yn eglur oleufynag am Wirionedd ei Athrawiaeth Ef.

RHAN X.

Mae'r Grefydd Gyfi'nogol yn rhagori ar bob ar all.

DYMA gan hynny y Rheſymmau ſydd i cael oddiwrth y Gweithredoedd eu hunain gadewch i ni bellach ddyfod at y rhai a berthy i Natur ac anſawdd yr Athrawiaeth.

Ac yn ddiammeu, mae 'n rhaid naill ai ymwrth od â phob Duwiol Addoliant (yr hyn nid â byth ynghalon neb a gredo fod Duw, ai fod yn gofal â'n eu Greaduriaid. ac â yſtyrio fod Dyn yn gyn nyſgaeddol â Dealltwriaeth ac â rhydd did i dde wis da a drwg moeſawl, ac o herwydd hynny h addas i dderbyn gwobrwyon neu goſpedigaethau neu i' haeddai'r Grefydd yma ei chroeſawu, n yn unig o herwydd tyſtiolaeth y Gweithredoed y crybwyllaſom yr awrhon am danynt, eithr he fyd oblegyd y Priodoliaethau hanfodol ſy'n pe thyn iddi. Canys nid oes ac ni bu un Grefydd mew oes na gwlad yn y byd odidoccach o ran eu gwo rwyon, berffeithiach o ran ei Rheolau, na rhy feddach o ran y modd a ordeiniwyd iw phlann ai chynnyddu.

RHAN XI.

Godidawgrwydd y Gwobrwyon.

GADEWCH i ni gan dynny, yn gyntaf, yſtyr ied Godidowgrwydd y Gwobr, neu'r dibe a gynhygir i Ddyn, Oblegyd hwnnw a fwriedi yn

yn gyntaf, er na cheir mono tan yn ddiweddaf, yn ordinhâd Crefydd yr *Iuddewon*, os edrychwn ar eglur gyfammodau 'r Gyfraith, nid addawodd *Moſes* ddim yn amlwg uwchlaw donian 'r bywyd hwn, megys tir ffrwythlawn, llawnder a helaethrwydd o bob rhyw luniaeth, buddugoliaethau ar Elynion, Hir-oes ac Iechyd, a Hiliogaeth obeithlawn i fyw ar eu hôl. Ac od oes dim amgenach, mae gwedi ei orchuddio tan Gyſcodion, neu iw gaſglu trwy ddoeth a dichlyn ymreſymmiad. O herwydd ya ham yr oedd llawer or *Iuddewon* a ddefent Ddeddf *Moſes*, megys y *Saduceaid*, heb ganddynt ddim gobaith am Ddedwyddwch ar ôl y fuchedd hon. ymmhlith y *Groegiaid* (a dderbyniaſant eu Dyſceidiaeth oddiwrth y *Chaldeaid* ar *Aiphtiaid*) Y ſawl yr oedd ganddynt ryw obaith am fywyd ar ôl hwn. a Siaradaſant yn ammheûus jawn am dano. fel y mae 'n amlwg wrth ymddadleuon *Socrates*, ac yſgrifennadau *Tullius Cicero*, a *Seneca* ac eraill. Ar Rheſymmau a arferent ir perwyl yma, oeddynt gan mwyaf heb na Sylfaen, na ſiecrwydd iddynt. Oblegid ni phroſent ddim ychwaneg am Ddynion nag am Anifeiliaid. Ac phan ddaliodd eraill Sulw ar hyn, nid yw cyn rhyſedded ddychymmygu o honynt fod yr Eneidiau 'n ymdroſglwyddo o Ddynion i Anifeiliaid, ac o Anifeiliaid i Ddynion. Ond gan nad oedd na thyſtiolaeth na rheſwm dilŷs am hyn chwaith, a chan nad ellid er hynny wadu nad oedd rhyw ddiben goſodedig i Ddyn, gorfu ar eraill ddywedyd fod Rhinwedd yn Wobr iddi ei hun, a bod Gŵr Doeth yn llawn ddigon Dedwydd pedfai gwedi ei gau i fynu yn y *Tarw-Pres* a wnaeth *Phalaris* i boenydio dynion wrth gynnau tân wrtho iw loſgi 'n wynjas. Eithr eraill, ac nid heb achos

a anſodlonaſant i hyn hefyd. Oblegid eu bod yn gweled yn oleu, nad allai Ddedwyddwch, yn enwedig y dêdwyddwch pennaf a chyflawnaf, na bod na ſefyll lle byddai beryglon ac Aflwydd a chyſtudd a deſtryw. oni fynnai fod Dedwyddwch yn gymnwyſedig yn ſain geiriau, ac am hynny meddyliaſant mae 'r dedwyddwch mwyaf ar diben goreu i ddyn oedd mwynhau 'r pleſerau y mae 'r Synhwyrau Corphorawl yn ymhyfrydu ynddynt. Eithr y Dŷb yma hefyd a lwyr-ddifarnwyd gan lawer, o herwydd y dyddymmai hyn Lob rhinwedd ac addwynder (y rhai y mae eu hâd megys yn wreiddiedig yn ein Henęidiau) ac y daroſtyngai ddyn, yr hwn, wrth Naturiaeth, ſy 'n ymdderchafu at bethau ardderchoccach, i fod yn ogyddrâdd ac or un ſynnied ag Anifeiliaid, y rhai megys y mae'nt yn ymgrymmu tua 'r llawr felly nid ymorolant am ddim ond om bethau Daiarol.

Mewn cyfryw Gamgymmeriaethau ammheu ûs yr oedd dynol-ryw 'n ymddallgaibio 'n gyſeiliorus yn yr oes honno, pan ddûg Chriſt eglur ac unîon wybodaeth am y gwir ar unig ddiben dedwyddawl; gan addaw iw ddilynwyr ar ôl y fuchedd hon, fywyd nid yn unig heb farwolaeth a gofid a blinder, eithr un gyflawn hefyd o lawenydd a hyfrydwch anrhaethol, a hyn hefyd nid yn unig ir naill rann o Ddyn, ſef ir Enaid, (am ddedwyddwch yr hwn, yr oedd rhyw obaith or blaen, gan rai trwy ledtŷb a bwrw amcan, a chan eraill trwy Draddodiad) eithr ir Corph hefyd: Ac yn wir cymmwys a chyfiawn jawn oedd hynny, ſel na bo 'r Corph y gorfydd arno 'n fynych ddioddef cyſyngderau, a dirboenau a marwolaeth er mwyn Cyfraith Dduw, heb wobr ſicer a thaledigaeth, ac nid gwael yr hyfrydwch a addewir ar

ol

ol y bywyd hwn, nid Gwleddoedd a chyfeddach fel y gobeithia rhai *Juddewon* Cnawdol: na chydorwedd ac Anlladrwydd fel y difgwyl y *Mahumediaid*: Oblegid y rhai'n ydynt berthynafau priodol i'r fuchedd ddarfodedig hon, ac ymwaredïadau marwolaeth, y naill er cadw hoedl dynion ac Anifeiliaid, ar llall er codi hiliogaeth ar eu hôl, fel y parhao eu rhywiogaethau, eithr bydd nerth ac jechyd a bywiogrwydd gwaftadol yn y Cyrph, a phrydferthwch difgleiriach a gogoneddufach na goleuni 'r Sêr, ac yn yr Enaid, Deallt-wriaeth dî-gamgymmeriad, a gwybodaeth eglur hefyd am Dduw ei hun ai Ragluniaeth Nefol. Ac od oes dim arall yr awrhon yn guddiedig rhagom, bydd yr Ewyllys yn llaryaidd, yn heddychlawn ac yn ddianwydau; ai orchwyl pennaf fydd hyfryd-weled y goruchaf Dduw, ei fawrhau ai glodfori a rhyfeddu o'i blegid, ar air, f'a fydd pob peth yno yn llawer mwy ac yn llawer gwell, nag a ddichyn fyned i mewn i galon dyn wrth eu cyffelybu ar pethau goreu a godidoccaf yn y byd yma.

RHAN XII.

Atteb ir fawl a wrth-ddadleuant nad ellir edfryd bywyd i gyrph meirw.

HEB law 'r gwrthrefwm a atebafom or blaen mae rhai 'n arferol o ddadleu am Gyrph Dynion a fo'nt gwedi ymollwng yn llwch a lludw, nad oes fodd yn y byd iw hedfryd drachefen iw hên ddull gyfanfoddedig ond nid oes Rhefwm yn y byd. am hyn. Oblegyd (fel y mae 'r Philofophyddion ganmwyaf oll yn cyttuno) gan fod

defnydd

Defnydd pethau gwedi newid eu dull au rhith yn parhau heb ddarfod, ac yn gyfaddas i ddeiliaw amryw fath ar ffurf neu Anfawdd; pwy a ddywyd naill ai nas gwyr Duw ymmha fannau er, pelled oddiwrth eu gilydd, y mae Anrhyw rannau, yr Defnydd a fu 'n perthyn i gorph Dyn, ai bod arno ddeffyg gallu iw cafglu ynghyd ai had-gyfanfoddi; ac i wneuthur yr un peth yn ei Hollfyd ai hun, ag a wna Toddyddion celfyddgar yn eu ffwrnau au crochanau, y rhai a welwn yn medru cafglu a chyd-gorpholaethu pethau cydryw, er eu bod yn wafcaredig oddiwrth eu gilydd Ac y mae Arwyddion naturiol o hyn. fef, yn dangos y gall pethau gwedi newid eu dull au natur i ymnewidio neu ymchwelyd drachefen fel yr oeddynt ar y Cyntaf; megys y mae Hâd, Planhigion ac Anifeiliaid; Ac nid rhŷ anhawdd ei ddattod ydyw'r cwlwm rhwyfirus a gyfrodeddir gan lawer am Gyrph dynion fy'n myned yn ymborth i bryfed gwyllion neu Anifeiliaid eraill a Dynion drachefen yn ymborth ar y rheiny. Oblegyd or pethau a fwytteir mae y rhan fwyaf yn myned nid i fylwedd y Corph, eithr yn garthion megys tomen trwngc chwŷs, poer neu fynaftedd y corph, megys fflêm, geri ar cyffelyb. ac or hyn fydd lunjaeth cyfaddas iddo, treulir llawer trwy glefydon a gwrês y Corph oddimewn, a chan yr Awyr ar Gwynt oddiallan: a chan fod y pethau hyn felly f'all Duw, yr hwn fydd yn gofalu mor ddiefgeulus am rywiogaethau Anifeiliaid mudion, ac na chollir un o honynt; trwy ofal arbennig edrych ar ol Cyrph Dynion, fel na bo ddim a ddêl oddiwrthynt yn fwyd i Ddynion eraill, droi mwy na Gwenwyn neu Ryfygwriaeth, yn rhan ou fylwedd; yr hyn fydd gyffelypach o lawer, Oblegyd fod yn

eglur

eglur megys wrth Naturiaeth, nad yw Cnawd dynol ymhorth cyfaddas i ddynion eraill; Ond ped fai hyn heb fod, a bod yn gorfod ir Corph diweddaf ymadel â' phetn or hyn a ddaeth atto oddiwrth un arall, ni rwyfira hynny iddo mor bod yn unrhyw Gorph, gan fod mwy Cyfnewidiad yn digwydd yn rhannau 'r Corph, yn y bywyd yma. ie f'a welir fod y gwybedyn a elwir Gloyn Duw mewn pryf, a fylweddd, rhyw blanhigion, neu Win mewn lle, bychanigyn, ao y gellir oddiyno 'u hedfryd drachefen iw cyflawn faintioli yn ddiammeu, os yftyrir hyn oll, a llawer o bethau eraill y rhai y gellid heb anghyfleufdra 'n y byd eu bwrw at hyn, nid oes Achos yn y byd i feddwl mae peth ammhoffibl yw edfryd bywyd i Gorph marw, er ei fod gwedi ymolliwng yn llŵch a lludw. Ac yr oedd Gwŷr Dyfcedig, *Zoroaſter* ymmhlith y *Chaldeaid*, y *Stoiciaid* gan mwyaf oll, a *Theopompus* ymmhlith Difcyblion *Ariſtotle* yn credu nid yn unig y gallai hyn fod, eithr y byddai hefyd.

RHAN XIII.

Sancteiddrwydd arbennig y Rheolau ynghylch Addoliant Duw.

YR Ail peth, trwy 'r hyn y mae 'r Grefydd Criſt'nogel yn rhagori ar bob un arall, fydd ac a fu, ac a fedrir dychymmygu, yw Sancteiddrwydd arbennig ou rheolau a'u Gorchymmynion, yn gyftal yn y pethau a berthynant i Addoliant Duw, ag ynghylch Achoſion eraill.

Yr oedd Addoliant y *Paganiaid* agos trwy 'r holl

holl fyd, yn llawn o Greulondeb a Chieidd-dra fel y mae, *Porphyrius* yn dangos yn helaeth, a mordwyadau 'r oes yma gwedi dadcuddio 'n eglur oblegyd yr oedd arfer agos ymmhob manno fodloni a heddychu eu Duwiau trwy Aberthu Gwaed Dynion, ac ni thorrodd na dyfceidiaeth y *Groegiaid* na chyfreithiau y *Rhufeiniaid* mor ddefod echryfion honno, fel y mae 'n amlwg wrth a ddarllennwn am yr Aberthau a offrymmid i *Bacchus Omeftes* ymmhlith y *Groegiaid*. ac am y *Groegwr* ar *Groeges*, a Gwr a Gwraig arall o *Ffraine* a laddwyd yn *Rhufain* yn *Aberthau* i *Jupiter Latiaris*, fef Eulun yr *Italiaid*. Ar *Dirgeledigaethau* Sancteiddiaf hynny a berthynent i *Ceres* a *Bacchus* (*neu Dad y rhwyfc ar rhydd-did*) oeddynt cyn llawned ac y gannent o bob aflendid a ffieidd-dra fertheidd-frwnt: fel y canfuwyd yn eglur pan ddadcuddiwyd dirgelion Crefyddol, ac y dechreuwyd eu gwneuthur yn hysbys ir byd; fel y mae *Clemens* o *Alexandria* ac eraill yn mynegi 'n helaeth. Ac yr oedd y fath Gampau gwrthun yn arferedig wrth gadw 'r Dyddiau Gwylion a gyffegrafant o ran parch iw Duwiau, nad edrychai *Cato* rhag cywilydd, arnynt. Nid oedd yn wir ynGhrefydd yr *Juddewon* ddim anghyfreithlon nac anweddaidd; Ond er hynny, rhag ir Bobl oedd cyn chwannocced i Fulunaddoliaeth, ymlithro oddiwrth y wir Grefydd, f'ai llwythwyd ac amryw Reolau ynghylch pethau nad oeddynt o honynt eu hunain na da na drwg: megys Aberthu Anifeiliaid, Enwaediad, Gorphwyftra dibaid ar y Sabbath, a gwahardd llawer math ar fwydydd Benthycciodd y *Mahumediaid* rai or Defodau hyn ac heb law hynny, a wnaethant yfed Gwin yn beth gwaharddedig.

Eithr

Eithr y mae'r Grefydd Griſt'nogol yn dyſcu i ni addoli Duw a chalon neu feddwl pur, megys y mae ynteu 'n yſpryd or puraf; ai wâſanaethu Ef â chyſfryw weithredoedd ag ſydd o honynt eu hunain yn Rhinweddol ac yn ganmoladwy, pe buaſent heb fod yn orchymmynedig, felly ni pherſir i ni Enwaedu 'n Cnawd, eithr ein trachwantau; nid ymgadw oddiwrth bob math ar waith ar y Sabboth, eithr oddiwrth yr hyn ſydd anghyfreithlon; nid Aberthu gwaed a Braſder Aniſeiliaid, eithr rhoi 'n gwaed ein hunain iw dywallt, os bydd rhaid er tyſtiolaeth ir Gwirionedd; ac edrych ar yr hyn a roddom o'n da bydol ir Tlodion ar anghenus, megys peth wedi ei offrwm i Dduw: nid ymgadw oddiwrth ryw fath ar Fwydydd neu Ddiodydd, eithr arfer pob un or ddau yn gymhedrol fel y bo da ar lês ein Hiechyd; a daroſtwng weithiau ein Cnawd ir yſpryd trwy ympryd, fel yr ymdderchafo 'n meddyliau 'n ſiriolach ac yn fyw-ioccach at bethau Nefol, yſprydol. Eithr prif-Ddyledſwydd Chriſtianogaeth, fel y dangoſir ym mhob mann, yw Duwiol Hyder. trwy 'r hon, gan ymroddi i ſyddlon Ufuddod, y rhoddwn ein holl bwys an goglud ar Dduw, ac y Credwn yn ddiyſcog iw Addewidion, oddiwrth yr hyn y tardda Gobaith ddi-ammheuus, a gwir Gariad i Dduw an Cymmydog; yr hyn a bair i ni ufuddhau iw orchymmynion ef, nid fel Caeth-weiſion rhag ofn Coſpedigaeth, eithr er mwyn ei fodloni Ef, ac er mwyn ei gael Ef, ai Ddajoni yn Dâd ac yn wobrwywr i ni, Gorchymmynir i ni hefyd weddio, nid am Olud neu Anrhydedd, ar cyfryw bethau eraill, a wnaethant ddrwg i lawer or ſawl oedd chwanoccaf iddynt. Eithr yn gyntaf ac yn bennaf am y pethau a berthyn i Ogoniant Duw, ac yno

am

am y cyfryw gyfran or pethau darfodedig hyn, ag a fyddo cymmwys i ddiwallu angenrheidiau Natur gan adael y ewbl tros benn hynny, ar Rhagluniaeth Duw, gan ymfodloni 'n rhadlon ac yn ddi-betruſder beth bynnag a ddigwyddo. Eithr ſ'an dyſcir i ymbil yn ddygnach ac yn fwy difrifol am y pethau a berthyn i fywyd tragywyddol, megys maddeuant am ein pechodau a aeth heibio, ac am gymmorth yr yſpryd glân in cadarnhau an nerthu rhagllaw yn erbyn pob dychryniadau a hudoliaethau, fel y gallom barhau 'n ddiſigl i fyned rhagom yn llwybrau Sancteiddrwydd a Duwioldeb. Dyma ddiwiol Addoliant y Grefydd Grift nogol; ac yn ddiammeu did ellir dychymmygu dim gyſuddaſach nac anrhydedduſach i Dduw.

RHAN XIV.

Am y Dyledſwyddau o addfwynder tuag at ein Cymmydogion, et gwneuthur o honynt hefyd niweid i ni

CYffelyb ir rhain yw 'r Dyledſwyddau y ofynnir gennym tuag at ein Cymmydogion. Nid yw Crefydd *Mahomet*, gwedi ei Chenhedlu mewn Rhyfel, yn chwythu dim ond deſtryw a chleddau, a thrwy nerth Arfau y mae 'n ymgynnal ac yn cynnyddu. At Ryfeloedd hefyd ac ymladdfaun gwaedlyd yr oedd Gofodigaethau 'r *Lacedemoniaid* (y rhai a gyfrifid gan *Apollo* 'n orcu o Gyfreithiau 'r *Groegiaid*) yn tueddu 'n hollawl, fel y mae *Ariſtotle* yn dal Sulw ac yn beio arnynt og Achos. Eithr y mae 'r un *Ariſtotle* yn barn

barnu fod Rhyfel yn erbyn Eftron Genhedloedd yn beth naturiol; yr hyn fydd wrthwynebol ir gwir. Oblegyd mae Natur iaeth yn dyfcu pobl i fod yn garedig ac yn gymdeithgar ai gilydd. Canys beth fydd anghyfiawnach a chywilyddiach na chofpi pobl am lâdd un neu ddau, ac ymfroftio a gorfoleddu am lâdd miloedd megys rhyw orcheft ogoneddus. Ac etto pa fodd y cafodd y Ddinas Enwog honno, *Rhufain* y fath barch ac Enw ond trwy Ryfeloedd, ar rheiny 'n fynych yn ddigon anghyfion, fel y mae'nt hwy eu hunain yn cyfaddef am eu Rhyfeloedd yn eybyn *Sardinia* a *Cyprus*: Ac yn wir yr oedd y rhan fwyaf or Cenhedloedd, fel y mae Awdwyr goreu 'r Cêflyfrau 'n mynegi i ni, yn credu 'n gyffredinol nad oedd gwilydd yn y byd lâdd a lledratta o fewn terfynau Eftroniaid. Mae *Ariftotle* o *Cicero* yn barnu mae Rhinwedd yw ymddialu, peth o Gyhoedd: Ddifyrwch y Cenhedloedd oedd edrych ar y Cleddyfwyr yn anafu ac yn arteithio eu gilydd; a pheth arferedig beunydd oedd bwrw eu plant allan newydd eni, au gadael tan drugaredd Cŵn neu Fôch, neu ryw bryfed gwyllion eraill. Yn wir yr oedd gwell Cyfraith, a Sancteiddiolach Difcybliaeth ymmhlith yr *Hebræaid*. Eithr f 'a gyd-ddygid ag ymbell beth, ir bobl ddigllon anoddefus hynny, megys rhuthro ar y Saith genhedl a haeddafent hynny; ac nid ymfodlonafant ar hyn chwaith, eithr caffaent yn llidiog ac eriidient yn greulon bawb oedd yn anghyttuno a hwynt. Ac y mae etto arwyddion or tuedd-fryd ffyrnnig yma yn y gweddiau o ddychymmygant yn erbyn y Crift'nogion: Eithr yr oedd y Cyfraith ei hun yn Caniadhau rhydd-did iddynt i ddial eu cam au dwylo 'u hunain, ac i lâdd llofrudd a fuafei 'n Euog o Far-

wolaeth

wolaeth un o'u cyfneſyfiaid a'u dwylo 'u hunain heb na chwyn na chalyn. Ond y mae Cyfraith Chriſt yn gwahardd yn hollawl ad-talu drwg neu gamm nac ar air nac ar weithred, rhag am y drwg y byddom yn ei cuog farnu yn Eraill, inni ei ganmol ai hoffi ein hunain trwy wneuthur y cyffelyb mae'n peri ini wneuthur da i bawb yn enwedig yn wir ſawl ſydd dda a rhinweddol eithr ir drwg hefyd. yn ol eſample Duw ei hun, yr hwn ſy'n rhoddi, 'r Haul ar Sêr, ar Awyr ar Gwynt a Cafodydd yn ddoniau lleſſawr Cyffredinol i bob Dyn.

RHAN XV.

Cyd-gyſſylltiad Gwr a Gwraig.

CYD-gyfeillach Mâb a Merch, trwy 'r hwn yr amlheir hiliogaeth Dyn, yw un or pethau teilyngaf o Ofal y Cyfreithiau. Ac nid rhyfedd fod y Cenhedloedd yn eſgeuluſo y rhan ym o honynt, pan ddywedent y fath chwedlau ferthaidd am Odineb a Phutteindra 'r Duwiau 'r oedd ynt yn eu haddoli: A pheth a feddyliwn am ſawl a ymddeffynnent yr arfer annaturiol rhwng y naill fab ar llall trwy Eſamplau 'r Ddwiau neu a gyfrifent *Ganymedes* gynt, ac *Antinous* gwedi hynny yn nifer y Duwiau hynny heb achoſ haeddedigawl yn y byd ond eu bod yn Fuog o ffiaidd aflendid hwnnw? Mae 'r Drygioni ſerth frwnt yma 'n fynnych yn arferedig ymmyſg *Tyrciaid.* ac a fernir yn gyfreithlon heſyd ym mhlith Cenhedloedd *Sina* a rhai Gwledydd eraill. Ac mae lle i feddwl am *Philophyddion* Groeg

eu bod megys yn aſtudio 'n ddyfal am Enw hardd'
ir weithred wrthun honno. a phan oedd y rhai
godidocaf or *Philoſophydklion* hynny yn canmol cy-
feillach merched, pa beth a wnaethant laſ na throi
Dinas gyſan yn un ogof trythyllwch? Eithr gan
fod rhyw fath ar Gyfammod Priodawl rhwng rhai
Creaduriaid mudion, pa faint anghymmwyſach ac
anweddeiddiach yw bod Dyn, y Creadur Sanct-
eiddiolaf, yn genhedledig o Hâd anficcr, gan ddi-
ffodd hefyd y ſerch ar Cariad a ddylai fod rhwng
plant a'u Rhieni: Mae Cyfraith yr *H braaid* yn
wir yn gwahardd pob math ar aflendid, ond y
mae 'n caniatteu amryw Wragedd ir un Gwr, ac
yn gadael iddo Awdurdod i fwrw ymmaith ei
wraig ar yr achos a fynno: hyn a arferir yr
awrhon gan y *Tyrciaid*, a chan y *Groegiaid* ar *Lla-*
dingwyr gynt: a hynny mewn modd mor afreolus
i bod y *Lacædemoniaid* a *Chato* yn benthycca 'u
Gwragedd tros amſer i eraill,

Eithr y mae perffaith Gyfraith Criſt yn treidd-
o at wraidd anwireddau: ac yn cyfri 'r ſawl a
geiſio ddinoethi Merch neu Wraig, neu a edrycho
yn nwyfus arni, yn Euog gerbron Duw; Chwil-
wr a Barnwr y Calonnau, am chwennych, er nas
gwnelo 'r Pechod. A chan fod pob gwir Serch yn
barhaus ac yn ddi-ollyngdod, mae achos da ir car-
iad rhwng Gwr a Gwraig fod felly, ac ynteu
gydâ chyd-gyfeillach eu meddyliau yn cyd-blethu
cymdeithas eu Cyrph hefyd: Ac yn ddiammeu
dyna 'r modd goreu i ddwyn plant i fynu 'n rhin-
weddol. Yr oedd rhai or Cenhedloedd yn ymfod-
loni ir un Wraig. megys yr *Ellmyn* ar *Rhufein-*
aid. Y *Chriſtiangion* hefyd a ganlynant yr arfer
yma, fel y byddo ir Wraig ſy 'n rhoddi ei Serch
yn hollawl ar ei Gwr, gael ganddo ynteu yn yr

yn modd Gariad am gariad, ac fel y trefnid llywodraeth y Tŷ yn hwyluſach tan un Gwarcheidwad, ac na fagai amaryw fanmau anghyttuned yn mhlith y Plant.

RHAN XVI.

Ynghylch arfer da'r Byd.

FEL y delem bellach at y pethau a elwir yn gyffredinol, Dâ'r Byd, ar modd iw harfer; ni a welwn fod rhai or Cenhedloedd anghredadwy yn cynwys lledrad; megys yr oedd yr *Aiphtiaid* ar *Lacedemoniaid*: or ſawl ni addefent bobl neilltuol ledratta, mi wnaethant yn gyhoedd as ddim yn ei herwydd ond hynny, megys y gwnaeth y *Rhufeiniaid*, am y rhai y dywedodd eu Haryeithydd hwynt eu hunain, y buaſei raid iddynt ddychwelyd drachefen iw bythod, pe gorfuaſei arnynt edfryd i lawb eu heiddo.

Nid oedd yn wir ddim or fath arfer ymmhlith yr *Hebreaid*, ond yr oedd y Gyfraith, fel yr ymddengweddai'r ffordd honno, at Natur a thueddiadau'r bobl, yn cynnwys iddynt gynnmeryd llog gan Estroniaid; ac heb law hynny, ymmhlith gwobrwyon eraill, yn addaw Cyfoeth ir ſawl a gadwant y Ddeddf.

Either mae Cyfraith Chriſt nid yn unig yn gwahardd pob rhyw anghyfiawnder yn erbyn pob math ar bobl, either yn gwaraſun i ni hefyd roddi gormod o'n bryd a'n haſtudrwydd ar y pethau darfodedig hyn; a hynny Oblegid na wasanaetha meddwl dyn i ofalu yn ddyfal am ddau beth; or rhai y mae pob un yn gofyn yr holl Ddyn, ac yn

ein

ein tynnu ni 'n fynych i amryw Gynghorion a
wriadau yngwrthwyneb iw gilydd ymmhellach
hefyd mae gormod Gofal a phryder i gaſglu ac
gadw Cyfoeth, yn dwyn arnom ryw gaethiwed
gofid: a rheiny'n anrheithio hyd yn oed y difyrrwch
a ddiſgwylir oddiwrth Olud. Ond y mae ychydig yn ddigon i ſodloni naturiaeth, a hawdd dyfod o hŷd i hynny heb na llafur poenus na thraul ddrud-fawr. Ac os gwel Duw yn dda ganiathau ni ychwaneg na hyn, ni pherir i ni daflu mono ir môr, fel y gwnaeth rhai *Philoſophyddion* anghall: nai gadw chwaith yn anfuddiol yn ein hymmyl, nai ddifrodi 'n afradlon, eithr ei dreſnu i ddiwallu angenrheidiau Dynion eraill, naill ai trwy roddi 'n Syberlân, ai echwyna ir ſawl a'i gofynnant; megys y gweddai i rai 'n edrych arnynt eu hunain nid megys Perchennogion y pethau hyn, eithr megys Goruchwilwyr a Gweinidogion ir Goruchaf Dduw, Tâd a Pherchennog y cwbl oll: gan yſtyried fod pob Gweithred ddâ, a wnelom lle bo 'n Eluſen, yn Dryſſor gweathfawr llawn gobaith, yr hwn ni ddichon direidi lladron nac anſiccrwydd damweiniau 'r byd byth moi ddifrodi.

Mae'r Prif-Criſt'nogion gwedi dangos i ni Eſampl ragorol or cyfryw. wir ddi-ragrith haelioni, pan ddanfonaſant cyn belled ag • *Macedonia* ac *Achaia* gymmorth ir Tlodion oeddynt yn *Paleſtina*: megys pe na buaſei 'r Byd oll ond un Teulu. ac yma y mae Cyfraith Chriſt yn ein rhybuddio i ymogelyd rhag i Obaith am Daledigaeth neu ganmoliaeth anrheithio ein haelioni; Oblegyd ni bydd cymmeradwy gan Dduw, osgwnelr o ran dim arall ond er ei fwyn Ef. Ac rhag i neb fel y mae 'n arferedig fwrw eſgus am ei

Grintachrwydd, fel pettai'n oſni fy byddai arno'i hun ryw bryd eiſiau ei dda yn amſer henaint neu ryw galedi arall, mae Cyfraith Criſt yn addaw cymmeryd gofal arbennig am y ſawl a ufuddhânt ir gorchymmynion hynny. Ac fel y byddo haws ganddynt ymddiried wrtho, mae'n dwyn ar gôf iddynt eglur Raglúniaeth Duw, yn porthi Bwyſtfilod ac Anifeilaid, ac yn prydferth-wiſgo llyſieu a blodeu'r meuſydd. Peth cywilyddus ynteu na choeliom Dduw mor ddajonus ac mor holl gyfoethog, mwy na phettai rhyw ddyledwr drwg, ddim pellach nag y bo gennym wyſtl i'n cadw yn ddigolled.

RHAN XVII.

Ynghylch Tyngu.

MAE Cyfreithiau eraill yn gwahardd Anudonedd, Fithr hon ſy'n gwarafun i ni dyngu mewn modd yn y byd, oddi eithr ar achos ac anghenrhaid cyfreithlon, ac yn peri i ni fod mor eirwir ymmhob peth a ddywedom na bo'u rhaid i neb ofyn llŵ gennym.

RHAN XVIII.

Ynghylch Gweithredoedd Erail.

AC yn wir nid oes dim odiaethol iw gael nac yn yſgrifennadau'r *Philoſophyddion Groeg*, nac yn Niharebion ac Ymadroddion yr *Hebraaid*, nac un Genedl arall nad yw'n gyn-

nwyſedig

nwyſedig ynghyfreithiau Chriſt, ai ei gadarnhau hefyd ai ſefydlu trwy Awdurdod Duw ei hun, ſelly y gorchmmynir Gorchwyledd Gymmedroldeb, Tiriondeb, Addfwynder a Chymmwynasgarwch, Ymddygiad Gweddaidd, Pwyll Doethineb, a Dyledſwyddau Llywodraethwyr a Deiliaid, Rhieni a Phlant, Penteuluoedd a Gweinidogion, Gŵr a Gwraig tuag at eu gilydd, ac yn enwedig gochel y Camweddau a dwyllaſant y *Gro'giaid* ar *Rhufeiniaid* tan Rith ac Enw Rhinweddau, ſef gormod awydd i ogoniant a goruchafiaeth, a rhyfeddol fyrred a chyflawned yw Sylwedd y Cyfreithiau hyn, yn gynnwyſedig mewn ychydig eiriau, ſef Caru o honom Dduw uwchlaw pob peth, an Cymmydog fel nyni ein hunain, a hynny ydyw, gwneuthur i eraill, megys y chwennychem wneuthur i ninnau.

RHAN XIX.

Atteb ir Gwrthreſwm ynghylch yr ymraſaelion ſydd rhwng Chriſt'nogion o herwydd Crefydd.

F'all rhyw un yſgatfydd ddadleu yn erbyn Godidowgrwydd Athrawiaethau Criſt (am yr hyn yr ŷm yn ymadrodd) Oblegyd fod amryfuſedd ac anghyttundeb mawr rhwng Chriſtnogion ynghylch Achoſion Crefyddol, oddiwrth yr liyn y tardda amryw bleidiau gwahanedig yn eu plith. Eithr mae atteb parod am hyn, ſef fod y fath beth yn digwydd agos ymmhob celfyddydon, naill ai o ran gwendid Synhwyr dynion, ai o ran fod eu hewyllys au tueddiad yn rhwyſtro ac yn methlu eu Dealltwriaeth. Eithr

y mae terfyn ir ymrafael debygoliaethau hyn, a rhyw Brif-grediniaethau cyffredinol y mae pawb yn cyttuno ynddynt, ar rhai y mae'nt yn gwreiddio eu hamryfufedd arnynt. fel y mae dadl ymmhlith y *Mathematiciaid*, pa un a wneir ai gallu gwneuthur *Crwnn yn bedrongl*, ond nid oes dim ammeu, *Os tynnir rhannau Cyfartal, oddiwrth bethau cyfartal na bydd yr hyn a adawer yn gyfartal.* Ac felly y gwelir yn yr wybodaeth a berthyn i Gyrph Naturiol, a Phyfygwriaeth a chelfyddydon eraill. Yn yr un modd nid yw'r amryfufedd fydd rhwng Chriſt'nogion ynghylch rhyw bethau, yn rhwyfro iddynt gyttuno yn eglur ynghylch prif-feilliau eu Hathrawiaeth, fef y Rheolau y canmolafom Crefydd Chriſt o'u plegyd. Ac y mae hyn yn oleufynag o'u ſiccrwydd au Gwirionedd. fef fod y rhai fy'n ffidiog-gafhau eu gilydd, ac o herwydd hyn yy yn ceiſio rhyw achos i ymrafaelio ymmhellach, heb feiddio myned cymmhelled â gwadu na orchymmodd Chriſt y pethau hyn; ac nis gwedir chwaith gan y dihirwyr dygydwybod y fawl ni fynnant hwylio eu bucheddau yn gyfattebol ir Rheol honno.

Ond os bydd neb mor rhyfygus a gwadu 'r Athrawiaethau hyn, f'a ddylid ei farnu 'n gyffelyb i'r *Philoſophyddion* a daerent nad gwynn yr Eiry, Oblegyd megys y mae golwg pob dyn yn dangos anwiredd y naill. felly y diddedlir y llall trwy gydfynied a chyttundeb cyffredinol pob rhyw Genhedlaethau Chriſt'nogawl, A Llyfrau 'r Chriſt'nogion cyntaf, ar rhai neſſaf attynt, ar Dyſcawdwyr a ddaethant drachefen ar eu hôl hwythau, fef y rhai hefyd a dyſtiolaethafant eu ffydd ynghriſt trwy farw o'i herwydd. Ac megys yr ydym ni yn coelio *Plato Xenophon*, ac Eraill o Ddiſcyblion *Socrates* am Athrawiaethau 'r Awd-

WI

wr hwnnw, *Stoiciaid* ain traddodiadau *Zeno*: felly y cydnebydd pob Barnwr teg di-duedd mae Athrawiaeth Chriſt yw'r hyn a addefir felly gan ei holl ddiſcyblion hynny.

RHAN XX.

Profir Godidowgrwydd y Grefydd Criſt'nogawl, O herwydd godidowgrwydd eu Hathraw.

Y Trydydd peth o herwydd yr hyn y dywedaſom fod y Grefydd Criſt'nogawl yn rhagori ar bob un arall ſydd, neu a fedrir eu dychymygu, yw 'r modd y traddodwyd hi, y cymyddodd; lle mae 'n rhaid i ni 'n gyntaf edrych ar Awdur yr Athrawiaeth.

Awdwyr nôethineb y *Groegiaid* a gyfaddefent eu hunain nad oedd ganddynt ddim iw ddywedyd am wir, ſicr diogel, Oblegyd fod y Gwirioneddl meddent megys yn guddiedig mewn Pydew, an meddyliau ninnau cyn wanned i fyſyrio ar bethau nefol ag yw Llygaid y Ddylluan i graffu ar ddiſgleirdeb yr Haul. Heblaw hyn nid oedd neb o honynt nad oedd yn euog o ryw fai cywilyddus, rhai yn gwenheithio i dywyſogion. Eraill yn chwannog i ymlochlach aſlan gyd â Bechgyn neu Butteiniaid, a rhai cyn ddigwilyddied â Chwn. Ac arwydd hynod ou câs au cenſigen iw gilydd, yw eu bod yn ymryſon ac yn ymgyllellu ynghylch geiriau neu ryw bethau babanaidd di-ddefnydd. Ac y mae hyn yn Arwyddoccau oered oeddynt yn Addoliant *Duw*, ſef bod y ſawl o honynt a gredent nad oedd ond un Duw, er hynny yn ymwrthod a hwnnw, ac yn talu duwiol Addoliant i ſawl y

ddent nâd Dnwiau oeddynt, gan gymmeryd am Reol eu Crefydd, yr hyn a dderbynid yn gyffredinol ac a addefid yn gyhoeddus yn y Wlâd. Ac nid oedd ganddynt ddim ficcrwydd am Wobr Duwioldeb, fel y mae 'n eglur wrth ymddadl ddiweddaf *Socrates* pan oedd yn marw. Awdur Crefydd ddigon llydan a gwaſgarog oedd *Mahomet*, Ond ni wâd ei Ddiſcyblion ef ei hun, nad oedd yn chwannog i Drythyllwch holl ddyddiau ei fywyd. Ac heb law hynny ni roddes Ef ficcrwydd hysbys yn y byd i beri i bobl gredu y byddai 'n wir y fath Wobr, ſef y fath Wleddoedd a chyd orwedd, ag a addawodd Ef ar ôl y fuchedd hon. Oblegyd ni ddarfu i neb erioed gymmaint a dywedyd adfyrrio gi o honaw, iê y mae ei Gorph Ef hyd y Dydd heddyw yn gorwedd yn ei Feddrod ym *Medina*. Eithr *Moſes* Awdur Cyfraith yr *Hebræaid*, er ei fod yn ŵr da rhagorol, nid yw lân er hynny oddiwrth o bob bai. Oblegyd prin a gwrthnyſſig jawn y cymmerodd Ef arno 'r Gennadwri a orchymmynodd Duw iddo fyned at Frenin yr *Aipht*, ac yr oedd yn lled-awmheuſus na chywirai Dduw ei Addewid am dynnu 'r Dwfr allan or Graig fel y mae 'r *Hebræaid* eu hunain yn cyfaddef. A phrin y cafodd Ef ei hun fwynhau dim or Gwobrwyon a addawodd Efe trwy 'r Gyfraith *iw* ddilynwyr, eithr ei flino 'n waſtadol mewn lleoedd anial diarffordd trwy derfyſcau ymryſongar, ac ni chafodd fyned i mewn ir Wlad ddedwydd ddymunol. Eithr yr *Jeſu* a bortreiedir gan ei Ddiſgyblion yn lân ddianaf oddiwrth bob pechod. Ac nid yw neb arall yn argyoeddu monaw o bechod trwy fath yn y byd ar Dyſtiolaeth. Eithr pa beth bynnag a orchymmynodd Efe i eraill, fe ai cyflawnodd ei hun. Oblegyd f' a gwplhaodd

yn

yn ffyddlon y pethau a orchymmynodd Duw iddo diddrwg a didwyll a diniweid ydoedd yn ei fywyd; ymârhousa thra ammyneddgar tan gamwri a gorthrymderau, tan gyſtuddiau creulon a dioddefiadau; fel y dangoſodd Ef wrth oddef poenydiau 'r Groes: Anfeidrol oedd ei Gariad ef i ddynion. iê iw Elynion, ac ir rhai hefyd a'i rhoddaſant i farwolaeth, yn gymmaint a gweddio o honaw troſtynt ar iw Dad faddeu iddynt. ac am y Gwobr a addawodd Efe iw Ddiſgyblion, f' a fynegir ac a brofir trwy Dyſtiolaethau ſiccr-gredadwy ei fod ef ei hun mewn modd arbennig yn feddiannol o honaw. Canys gwedi ei Adgyfodi o farw i fyw, f' ai gwelwyd ac ai clybuwyd ac ai teimſwyd gan lawer; F 'a ymdderchafodd ir Nefoedd yngolwg ei holl Apoſtolion, ac y mae 'n eglur gael o honaw Awdurdod a gallu or Arddercheccaf yn y breſwylfod wynfededig honno, Oherwydd gynnyſgaeddu o honaw ei Ddiſgyblion: ag ymadroddiad amryw ieithoedd na ddyſcaſont erioed, ac ag amryw Rinweddau gwyrthiawr Eraill, fel yr addawſei Ef wrth ymadel a hwynt Ac os yſtyriwn hyn oll, nid oes i ni le i ammeu nai ffyddlondeb na'i Aſlu i dalu i ni y gwobr a addawodd Efe ni. Fel hyn y dangoſais fod y Grefydd yma 'n rhagori o herwydd hyn hefyd ar bob un arall, ſef o ran bod ei Hathraw gwedi cyflawni a orchymmynodd, a mwynhau a addawodd.

RHAN XXI.

O herwydd cynnydd rhyfeddol y Grefydd yma.

GAdewch i ni bellach edrych Effeithiau 'r Athrawiaeth a ddûg Ef ir byd; ac yn ddiammeu,

os jawn yſtyrir hwynt, mae'nt yn gyfryw nad all neb, a goelio fod Duw yn gofalu am berthynaſau Dynion, amgen na chredu hefyd fod y Gretydd yma o Dduw. peth gweddus i Ragluniaeth Duw, oedd peri ir Athrawiaeth oreu gyrraedd ymmhellaf; Ac felly y digwyddodd ir Gretydd Griſtnogol. Canys ni ai gwelwn gwedi ei thanu ai dyſcu trwy holl *Europa*, hyd yn oed ciſfachau anhygyrch y Gogledd oerfelog. Ac nid llai ei hymgyrch ai thanelliad hyd *Aſia* oll, ac yn ei hynyſoedd hefyd ſy 'nghanol yr eigiawn. a hefyd hyd yr *Aipht* ac *Æthiopa*, a rhai ardaloedd eraill yn *Affrica*. ac yn ddiweddaf hyd *America*. Ac nid yn ddiweddar y bu hyn eithr er ys talm o amſer fel y tyſtiolaetha Hanesion pob oes, a Llyfrau i Chriſt'nogion, Gofodigaethau Cymmanfâau Cynghorion, a'r Hên Draddodiad ſydd etto ymmhlith y Cenhedloedd gwylltion ynghylch ymdeithiau a Rhyfeddodau *Thomas*, ac *Andreas* ac Eraill or Apoſtolion *Clemens Tertullian* ac Eraill or Hên Dadau a hynodaſant belled yr adnabyddwyd ac y clodforid Enw Chriſt ymmyſc y *Brittaniaid Ellmyn*, a Chenhedloedd anghysbell eraill yn eu hamſeroedd hwynt, A pha Gretydd ſydd a ddichon ymgyſtadlu â hon am helaethrwydd ac Ehangdra: Meddiannau? Os dywedi y gall *Paganeiddra*, un Enw'n wir ydyw, eithr nid un Gretydd. Oblegyd nid oedd y Cenhedloedd digred nac yn addoli 'r un peth: Canys rhai a addolent y Sêr, eraill yr Elfenau, a rhai Anifeiliaid ar lleill bethau di-ſylwedd; nac oedd ei haddoliant chwaith yn ſefyll trwy rym yr un Gyfraith nac yn deilliaw oddiwrth yr un Athraw Cyffredinol,

Mae'r *Judewon* yn wir yn waſcaredig yma a thraw, Eithr un Genhedl ydynt, ac ni chynnydd-

odd

odd nac a ymhelaethodd eu Crefydd hwynt ddim i fôn am dano er amſer ein Hiachawdwr. Ie f' a roddes y Chriſt'nogion ſwy hyſt yſtwydd o'u Cyfraith hwynt, ac ai gwnaethant yn ſwy cydnabyddus ir Byd nag y gwnaethant eu hunain, Mae digon yn wir o Dir a Daiar tan reolaeth Crefydd *Mahomet*. eithr nid tan honno 'n unig. Oblegyd addefir y Crefydd Griſt'nogol hefyd yn yr un gwledydd, a mwy hefyd o rifedi o Griſtnogion, nag or *Tyrciaid* mewn rhai mannau. Ond yn y gwrthwyneb ni welir dim or *Tyrciaid* mewn odid o wlad lle mae Chriſtianogaeth yn Sefydlog.

RHAN XXII.

Os yſtyrir gwendid a Gwiriondeb y ſawl a'i Pregethaſant gyntaf.

YPeth neſaf iw yſtyried yw 'r moddion y cynnyddodd ac yr ymhelaethodd y Grefydd yma trwyddynt, fel y goller ei chyſtadlu ag Eraill o herwydd hynny hefyd. ni a welwn fod tueddfryd y rhan fwyaf o bobl y Byd i ganlyn Eſamplau Brenhinoedd a Gwyr Cedyrn Enwog, yn enwedig os bydd Cyfraith a chofpedigaeth iw cymmell i hynny. Ac felly y cynnyddodd Credíniaethau 'r Cenhedloedd a gau-lith y *Tyrciaid*. Eithr y ſawl a ddyſcaſant y Grefydd Griſt'nogol gyntaf oedd nid yn unig heb na rhwyſc na Rheolaeth ganddynt.; eithr Dynion gwaelion Tlodion megys Pyſcodwyr, Gwehyddion, ar cyffelyb oeddynt. Ac er hynny trwy Egni a diwydrwydd y Trueiniaid hynny f' a ymledodd y Grefydd yma, mewn dengmlynedd ar hugain, neu ynghylch hynny, nid yn unig

unig tros holl Ardaloedd ymmerodraeth *Rhufain* eithr i blith y *Parthiaid* ar *Indiaid* hefyd. Ac nid yn y dechreuad yn unig eithr tros agos i drichant o flynyddoedd yr ymgryfhaodd y Grefydd yma trwy gynnmorth a dyfalwch Gwŷr di-awdurdod, heb ddim bygythion i gynhyrfu, na gwobrwyon bydol i ddenu pobl atti, iê yn erbyn trais ac Erlynedigaethau cynddeiriog-wyllt y fawl oedd y pryd hwnnw 'n Llywodraethu, yn gymmaint a bod agos y rhan fwyaf o Ddeiliaid Ymmerodraeth *Rhufain* yn *Grift'nogion* cyn addef o *Gwſtennyn* yr Ymmerodr y Grefydd Grift'nogol. Ymmhlith y *Groegiaid*, y fawl a draddodafant Reolau moesgarwch, a'u gwnaethant eu hunain yn ganmoladwy ac yn gymmeredig, Oblegyd Celfyddydon dyfnddyfc eraill; felly 'r oedd Difcyblion *Plato* am gywreindeb *Mathematicaidd*; Dilynwyr *Ariſtotle* am hanes Natur Anifeiliaid a Phlanhigion: y *Stoiciaid* am ddichlyn ymrefymmu; y *Pythagoreaid* yn hynod am eu gwybodaeth au cyfarwyddid mewn Rhifyddiaethau a chydfeiniadau; Llawer hefyd oeddynt ryfeddol oblegyd cymmenddoeth Araithyddiaeth, megys *Plato Xenophon* a *Theophraſtus*. Ond ni feddai Brif-Ddyfcawdwyr Chriſtianogaeth ddim or fath gywreindeb; nid oedd eu hymadroddion ond difyml a di-weniaith yn gofod allan eu rheolau, eu haddewidion au bygythion ag Aryeithiad fathredig ddi-fedrufder. A chan nad allai 'r cyfryw o honynt eu hunain wneuthur mor gwrthiau cyfattebol i gynnydd ac ymgyrch y Grefydd Grift'nogol, mae 'n rhaid i ni gydnabod fod naill ai rhyfeddodau, ai dirgel weithrediad y Goruchaf Dduw neu bob un or ddau yn hwylio ymmlaen yi Gorchwyl bendigedig.

RHAN

RHAN XXIII.

Y Rhwyſtrau anferthol oedd yn attal Dynion rhag derbyn, ac yn eu dychrynu rhag addef y Grefydd ynta.

AT yr ýſtyriaeth yma gellir ychwanegu un arall, ynghylch tuedd-fryd y ſawl a dderbyniaſant Griſtianogaeth trwy eu hathrawiaeth hwynt: oblegyd nid oedd meddylie y rheini *ryddion* oddiwrth bob rhyw Grefydd, ac felly'n hylithr yr un a fynnid, megys yr oedd y ſawl a ymroddaſant gyntaf i Gau-grediniaethau'r *Paganiaid* ac *i* Gyfraith *Mahomet*. Llai o lawer yr oeddynt gwedi eu parottoi iw chroeſawu trwy ryw athrawiaethau ac Ordinhadau a ddyſcaſant or blaen, megys yr oedd yr *Iuddewon* trwy Enwaediad ac adnabod yr unig wir Dduw, gwedi eu cymmhwyſo i dderbyn Deddf *Moſes*; Eithr yn y gwrthwyneb yr oedd eu meddyliau or blaen yn llawnion o hên goelion a Defodau, a'r rhei'ny megys ail natur gwedi greddfu ynddynt, ac yn llwyr wrthwynebu'r Goſodigaethau *newyddion* hynny. Oblegyd eu dwyn i fynu a wnaethid naill ai yn addolianty *Paganiaid*, ai yn Nefodau'r *Iuddewon* au Cadarnhau ynthynt trwy rym Cyfreithiau ac Awdurdod eu *Rhieni*. Ac nid llai na hwn oedd un rhwyſtr arall; Sef y drygau ar blinderau anguriol oedd yn cyſtuddio neu o leiaf yn dychrynu yr ſawl a gydnabyddent y Grefydd Griſt'nogol. Canys gan fod Natur Dyn yn arſwydo'r cyfryw niweidiau, mae'n canlyn wrth Reſwm nad anturiai neb ond yn wrthnyſig ac yn anhydyn jawn, i dderbyn Crefydd y byddai raid iddo ddiodde'r

cyfryw

cyfryw helbulion a chyfluddiau o'i phlegyd. Hir y bu 'r Chriſt nogion yn ddidoledig oddiwrth bob Anrhydedd a goruchafiaeth, yn gorfod arnynt oddef trethi trymmion, a dirwyau, a cholli eu da au meddiannau, au deol yn alltudion o wlad bwygilydd, eithr eſmwyth ac yſcafn oedd y poenydiau hyn: f'au barnwyd ac au cymmellwyd i gaethweithio 'n galed yn y Mwyn-gloddiau; f'au cyfluddiwyd ar arteithiau toſtaf a chieiddiaf a fedrai Galon Dyn eu dychymmygu.

F'au coſpwyd yn fynych i farwolaeth, tel y tyſtiolaetha Scrifennyddion yr amſeroedd hynny. Nid bu erioed na Newyn, na Nodau, na Rhyfel a ddifethodd gymmeſer o Ddynion yr un amſer. Ac nid math gyffredin ar farwolaethau a ddioddefaſant, eithr eu lloſgi yn fyw, au croeſhoelio ar cyffelyb Benydiau anoddefadwy, na ddichon neb mai darllain, na meddwl am danynt heb arſwyd ac erchylldod tra-dychrynadwy. Ac er darfod ir creulondeb melldigedig yma barhau heb fawr ſeibiant (a hynny heb fod ymmhlith mann) agos hyd Ddyddiau *Cyſtennyn* yn Ymerodraeth *Rhufain*, ac mewn mannau eraill yn hwy; etto ni leihaodd ddim o Rifedi 'r Chriſt nogion. eithr yn y gwrthwyneb eu Gwaed oedd Had a gwrtaith ir Eglwys, a phan dorrid rhai o honynt i lawr f'a godai ychwaneg i fynu yn eu lle hwynt.

Gadewch i ni teſtiach yn hyn hefyd gyflawnder Creſyddau eraill a Chriſt nogeiddrwydd, y *Groegiaid a Chenhedloedd* eraill a fyddent arferol o ddechau, a mawrhau eu gorcheſtion eu hunain trosbenn peb canmoliaeth. ni chyfrifant ond ychydig a ddioddefaſant farwolaeth er mwyn eu Creſydd Rhai or *Gymnoſophiſtiaid*, *Socrates*, heb fawr ychwaneg; eithr prin y gellir gwadu nad oedd gan

y

y Gwyr Hynodfawr hyn ryw awydd i gael clod ac Enw mawr ar ol marwolaeth. Ond ymmhlith y Cheriſt'nogion llawer iawn a oddefafant eu lladd au dihenyddu er mwyn yr Efangyl o bobtlach druain werin nad oeddynt ond prin yn gydnabyddus ymmhlith eu Cymmydogion, llawer o Wrageid, a Gwyryfon a Phobl ieuainge, nad allai fod ganddynt nac awydd na gobaith gyffelybol am enw parhaus a chofiadwriaeth. Ac nid oes ond ychydig o honynt au henwau 'n yſgrifennedig yn Llyfrau 'r Merthyron, with y N[illegible]oedd a ddioddefafant goſpedigaethau or achos hwnnw; eithr ir un fordd y cyfrifir hwynt o fefur Cantoedd a Miloedd. Heb law hynny, f' allafei y rhan fwyaf o honynt ochel y' cyfryw Goſpedigaethau trwy ychydig Ragrith, megys with dalu tippyn o Thus neu Fygydarth ar yr Allor. Ond nid ellir dywedyd mo hyn am y llaill, y rhai, beth bynnag oedd dirgel-feddwl eu Calonnau, oeddynt yn eu gweithredoedd cyhoedd yn ymagweddu at ymddygiad y Cyffredin. braidd ynteu y gellir dywedyd farw o neb er anrhydedd a Gogoniant i Dduw, ond yr *Juddewon* ar *Chriſt'nogion*; Nar *Juddewon* chwaith ar ol amſer Chriſt: Nae ond ychydig o honynt cyn hynny, os cyffebir hwynt a'r *Chriſtnogion*, or rhai y dioddefodd ychwaneg mewn un Dalaith er mwyn Crefydd Chriſt, nag a dioddefodd or *Juddewon* erioed hyd heddyw. Oblegyd nid oes agos ddim ſon na chrybwyll am eu hammynedd a'u dioddefgarwch hwynt o herwydd Achoſion Crefyddol, ond a fu 'n amſer *Manaſſe* ac *Antiochus*. Am hynny ynteu, gan fod y Grefydd Griſt'nogol yn hyn nefyd yn rhagori cymmaint ar y llaill oll; da 'r hoeddai ei chyfrif am barnu yn amgenach, ac yn edifeddgach na hwynt.

A

A chan ſod y fath Liaws aneirif o Ddynion o bob gradd ac o bob rhyw mewn cynnifer o Wledydd ac Oeſoedd gwahanrhedol, heb betruſo marw o herwydd y Grefydd yma, nid allwn lai na deall a chydnabod fod rhyw achos mawr, or cyfryw Gefnogrwydd eoſn, diyſcog; ac nid allir meddwl am un achos arall ond Goleuni 'r Gwirionedd a c Yſpryd Duw.

PHAN XXIV.

Atteb ir ſawl a chwenychent ychwaneg a chadarnach Rheſymmau.

OD oes neb etto 'n meddwl nad digon y Rheſymmau hyn iw fodloni am wirionedd y Grefydd Griſt'nogawl, ac a chwennychei glywed rhai dwyſach a mwy Annogaethawl; f' a ddylai wybod mae megys y mae rhagoriaeth rhwng amryw fath ar bethau, fod rhagoriaeth heſyd rhwng yr amryw ffyrdd i brofi, ac i eglurhau 'r cyfryw bethau, felly y mae un ffordd i oleu-fynegi 'r gwirionedd ynGhelfyddyd *Mathematic*; un arall ynghylch Natur a Phriodoliaethau pethau corphorawl; ac un arall i ddangos beth ſy ' oreu mewn cyfyng gyngor; a ffordd arall i wybod y gwirionedd am ryw beth a fu neu a wnaethpwyd, ac yn y cyfryw achos yn ddiammeu mae'n rhaid i ni ſefyll wrth Dyſtiolaethau diammheuaeth Ac oni wneir hyn, ni wiw ſon nid yn unig am Haneſion pethau a fu gynt, nac am lawer o bethau a berthyn i Phyſygwriaeth, eithr derfydd heſyd am yr holl Garedigrwydd rhwng Rhieni au Plant. Oblegyd nid allant adnabod eu gilydd ond trwy gyfryw

gyfryw Dyſtiolaethau. Eithr Fwyllys Duw am y pethau a fynnai i ni eu credu, fel y cyfrifid y cyfryw Grediniaeth i ni am Ufudd-dod, yw na byddent cyn amlycced ag y gellid eu canfod â llygaid, neu eu deall cyn eglured a bod un a dau yn dri; eithr eu bod cyn hyſpyſed ag y gallai ddyn diwrthnyſig eu credu au coelio, fel y byddai Air yr Efangyl megys Eurfaen i brofi tueddiad meddyliau Dynion ai Meddyginaethol, ai anaeleu ſyddant. Oblegyd gan ddarfod ir Rheſymmmau hyn ynnill llawer o Wŷrdâ doethion i gredu, mae wrth hynny yn eglur nad eiaſieu goleu-fynag ſy'n peri ir llaill anghredu, eithr o herwydd na chwennychant goelio am wir yr hyn ſydd mor wrthwynebol iw Tuedd-chwant au deiſyfiadau; ſef. o herwydd mae caled iddynt ddiyſtyru Anrhydedd a Golud y byd, fel y byddai raid iddynt, pe bae'nt yn derbyn Athrawiaethau Chriſt'nogaeth, ac yn meddwl y gorſyddai iddynt o'u herwydd, Ufuddhau i orchymmynion Chriſt. Yr hyn a ddeallwn wrth yſtyried eu bod yn derbyn Traethiadau eraill am Wir, heb ddim iw gwirio ond Awdurdod, er nad oes chwaith mor fath hysbyſrwydd am danynt hyd y dydd heddyw, ac ſydd am Efengyl Criſt; ped fai ond cyfaddefiad yr *Iuddewon* ſydd etto'n fyw, ar pethau a welir ymmhob mann Ynghyulleidfaoedd y Chriſt'nogion, am y rhai y mae'n rhaid cydnabod nad allent mor bod heb ryw achos. A chan nad all neb ddywedyd mae gwaith Dyn a barodd ir Grefydd Griſt'nogol barhau cyhyd, a chynnyddu cymmhelled a chyn helaethed, mae'n ddiammeu mae Rhyfeddodau oedd yr achos o hynny. Ac os gwâd neb mae trwy Ryfeddodau y gwnaethpwyd, mae hynny, ſef gallu or cyfryw grediniaeth ymgryfhau ac ymledu cymmaint heb ryfeddodau iw gyfri'n fwy na Rhyfeddod yn y Byd.

Y TRYDYDD LLYFR
YNGHYLCH
GWIRIONEDD
Y
GREFYDD GRISTNOGOL.

RHAN I.

Profir Awdurdod Llyfrau'r Ail Cyfammod.

PWY bynnag fydd bellach o herwydd y Rheſymmau hyn, neu od oes rhai eraill heb law y rhai'n, yn meddwl ac yn credu mae Gwir yw Crefydd y Chriſt'nogion, ai bod hefyd yn oreu, rhaid iddo, fel y dyſco bob rhann o honi, fyned at y Llyfrau hynaf ſy'n cynnwys y Grefydd honno, y rhai a alwn ni Yſgrythyrau'r Teſtament neu'r Cyfammod Newydd.

Canys anghymmwys i neb wadu nad yw'r Grefydd honno'n gynnwyſedig yn yr Yſgrythyrau hyn, felly dywed yr holl Griſt'nogion, gan fod yn jawn coelio pob math ar Grefyddolion, pa un bynnag ai da ai drwg, pan ddywedant fod eu Crefydd yn Yſgrifennedig yn y naill Lyfr neu'r llall; fel yr ydym ni'n coelio 'r *Mahumediaid* fod Crefydd *Mahomet* yn gynnwyſedig yn Llyfr yr *Alcoran*. Am hynny ynteu gan brofi o honom Wirioned-

y Grefydd Grift'nogol or blaen, a chan fod yn eglur hefyd fod honno 'n gynwyſedig yn y Llyfrau yma, f' a waſanaetha hyn yn unig i ſefydlu ac i gadarnhau Awdurdod y Llyfrau hynny. Ond od oes etto neb a chwennychai yſpyſach Eglurdeb am hyn, mae 'n rhaid i ni 'n gyntaf oſod ar lawr un Rheol a gydnabyddir yn arferedig gan bob Barnwyr union di-duedd, ſef fod yn rhaid ir ſawl a chwennychai wrthladd Awdurdod rhyw Yſgrifen a dderbyniwyd yn gymmeredig tros lawer o Oeſoedd, gymmeryd y baich arno 'i hun i ddangos rheſymmau a brofant geudeb y cyfryw Yſgrifen; ac os metha ganddo hynny, f' a ddylid amdd effyn y Llyfr, fel y mae mewn meddiant o'i Awdurdod.

RHAN II.

Llyfrau ydynt o waith yr Awdwyr y mae eu henwau yn Yſgrifennedig o'u blaen.

DYwedyd gan hynny 'r ydym am y Llyfrau nad oes dim dadl nac ammheuaeth ou herwydd ymmhlith Chriſt'nogion, ac ſydd ac Enw rhyw un wrthynt, mae Gwaith yr Awdwyr hynny ydynt, y rhai y mae eu henwau 'n yſgrifennedig o'u blaen. Oblegid fod yr Hên Dadau, *Juſtin*, *Ircnæus*, *Clemens*, ac eraill ar eu hôl hwythau yn canmol y Llyfrau hynny wrth yr unrhyw Enwau. A hefyd o herwydd fod *Tertullian* yn mynegi fod yſgrifen-law gyntaf rhai or *Llyfrau* hynny iw gweled yn ei amſer Ef. ac oblegyd fod yr holl Eglwys 'n derbyn y Llyfrau hynny megys gwaith y cyfryw Awdwyr, cyn bod dim cymmar-

Cymmanfâau cyffredinol yn ymgynnulledig, ac ni chododd na Chenhedloedd nac *Juddewon* erioed ddadl o'u herwydd, fel ped fuaſent yn meddwl nad gwaith yr Awdwyr hynny oeddynt. A *Julian* a gydnebydd yn eglur mae gwaith *Pedr*, *Paul*, *Matthew*, *Marc* a *Luc*, yw'r Yſgrythyrau a ddarllennir gan y Chriſt'nogion tan eu henwau hwynt, Nid oes neb yn ei jawn bwyll a wâd nad gwaith *Virgil* a *Homer*, yw'r Llyfrau Barddoniawl a elwir wrth enwau'r Awdwyr hynny, oblegyd Tyſtiolaeth waſtadol y *Lladingwyr* am y naill, ar *Groegiaid* am y llall, a pha faint mwy achos ſydd i ſefyll wrth Dyſtiolaeth cymmaint ag ſydd agos o Genhedloedd o fewn amgylchoedd y Byd am Awdwyr y Llyfrau yma.

RHAN III.

Eglurir yr ammheuaeth a fu gynt yng hylch rhai or Llyfrau.

YN wir mae yn y *Teſtament Newydd* rai Llyfrau nad oeddynt ar y cyntaf or un Gymmeriaeth ar llaill, megys Ail *Epiſtol Petr*, *Epiſtolau Jaco.* a *Judas*, a dau dan Enw *Joan* yr Henuriad, y *Dadcuddiad*, a'r *Epiſtol* at yr *Hebraaid* Ond er hynny yr oedd llawer o Eglwyſi 'r pryd hwnnw au cydnabyddent, fel y gallwn ddeall wrth fod y *Prif-Griſt'nogion* yn arfer tyſtiolaeth y rhai'n megys Llyfrau 'r Yſgrythur lân. O herwydd pa ham, mae'n gyffelybol am yr Eglwyſi nad oedd ganddynt y Llyfrau hynuy ar y cyntaf, eu bod naill ai heb wybod oddiwrthynt, ai yn ammeu o'u herwydd; a darfod iddynt yn ôl hynny, gwedi cael hyſpyſach gwybodaeth or gwirionedd,

ddechreu eu harfer fel y gwnaethei Eglwyſydd eraill or blaen, ac fel y gwelwn yr awrhon fod pawb agos ymmhob mann yn gwneuthur.

Ac nid oes achos da yn y Byd i feddwl y ffugiai neb y Llyfrau hyn yn lle Llyfrau 'r Yſgrythyr, oblegid nid ellir caſglu dim o honynt, ond a gynnhwyſir yn helaeth mewn Llyfrau eraill na bu erioed ammheuaeth am danynt.

RHAN IV.

Profir Awdurdod y Llyfrau ſydd heb Enwau wrthynt, o herwydd Cynneddfau 'r Awdwyr.

AC nid oes achos yn y byd i neb anghoelio yr *Epiſtol* at yr *Hebræaid*, o herwydd nad yw 'r Awdur yn adnabyddus, na dau *Epiſtol Joan* chwaith, o ran fod rhai yn ammeu ai *Joan* yr Apoſtol ynteu rhyw un arall or un Enw ai hyſgrifennodd. Canys ni ddylid edrych cymmaint ar Enwau, ag ar gynneddfau Awdwyr. Ac am hynny 'r ydym yn derbyn llawer o Lyfrau Hiſtoriau nas gwyddom pwy au hyſgrifennodd: megys y Llyfr ymgllylch Rhyfel *Cæſar* yn *Alexandria*; Oblegyd eln bod yn gweled am yr Awdur, pwy bynnag oedd, ei fod yn byw 'r amſer hwnnw, ac yn gweled yr helyntiau hynny. Ac felly am y Llyfrau yr ydym yr awrhon yn ſôn am danynt. gan fod y ſawl au 'ſgrifennodd yn tyſtiolaethu 'n eglur eu bod yn byw yn yr Oes gyntaf, ac yn gynnyſcaeddol a doniau Apoſtolaidd. f' a ddylai hynny weſanaethu i ni. Ac os taera neb y gellid yr ffug o 'r cynneddfau hyn; megys y gellid yr Enwau hefyd mewn Yſgrythyrau eraill. peth llwyr

anhebyg

anhebyg i wir ydyw: fef y byddai ir fawl fy ymmhob mann yn annog i Wirioneddau Duwioldeb, eu gwneuthur eu hunain, heb achos yn y Byd, yn Euog o gau-yfgrifen; yr hyn fydd nid yn unig yn ffiaidd ac yn gywilyddus ymmhlith pob Dynion da, eithr a gofpid hefyd a marwolaeth trwy Gyfreithiau y *Rhufeiniaid*

RHAN V.

Yr Awdwyr hyn a 'fgrifennafant y Gwir: Oblegyd fod ganddynt wybodaeth ficr or hyn a Sgrifennafant.

F'a ddylid cydnadod ynteu fod Llyfrau 'r *Cyfammod Newydd* gwedi eu hyfgrifennu gan y fawl y mae eu henwau wrthynt, neu rai oeddynt gyfryw ag y mae'nt yn tyftiolaethu am danynt eu hunain. Ac os bwriwn at hyn, eu bod yn ddigon cydnabyddus ar pethau a 'fgrifennafant, ac nad oedd eu brŷd ar gelwydd, nid allwn lai na chydnabod fod eu Hyfgrythyrau 'n wir. oblegyd ni thardda celwydd ond naill ai o Anwybodaeth ai o feddwl drwg.

Yr oedd *Matthew*, *Joan*, *Petr*, a *Judas*, o gyfeillach y Deuddeg a ddetholafei 'r *Jefu*, yn Dyftion o'i Fuchedd ai Athrawiaetheu; ac felly nid allei y rhei'ny amgen na gwybod y pethau a draethant, gellir dywedyd yr un peth am *Jaco*, yr hwn oedd naill ai'n *Apoftol*, ai fel y mynn rhai, yn Gâr agos ir *Jefu*, ac wedi ei Gyffegru gan yr *Apoftolion* yn *Efcob* yn *Jeruſalem*. Nid allai *Paul* gamgymmeryd ynghylch y pethau y mae'n addef eu dadcuddio iddo gan yr *Jefu* ei hun yn Teyrn-

aſu yn y Neſoedd; ac nid allai nac Ef, na *Luc* oedd Gydymmaith di-wahan iddo, gamddeall y pethau a wnacthpwyd ganddo 'i hun. A hawdd oedd i *Luc* heſyd wybod y pethau a 'ſgrifennodd ynghylch buchedd a marwolaeth yr *Jeſu*; gan fod wedi ei Eni yn y wlad neſaf, ac wedi ymdeithio trwy *Palæſtina*, lle mae yn dywedyd Siarad o honaw ar ſawl a fuaſent dyſtion or pethau hyn, ac a'u gwelſant au llygaid. Yn ddiammeu, heb law 'r *Apoſtolion*, yr oedd Ef yn gydnabyddus ac yn gyteillgar a hwynt, yr oedd bagad yn byw 'r pryd hwnnw, a jacheuſid gan yr *Jeſu*, ac ai gwelſant Ef yn marw ac wedi Adgyfodi.

Os coeliwn ni *Tacitus* a *Seutonius* am y pethau a ddigwyd aſent ymmhell cyn eu geni hwynt. Oblegyd ein bod yn ymddiried ddarfod iddynt ſanwl chwilio am wirionedd yr helyntiau hynny: pa faint mwy achos ſydd i ni i gredu 'r Efangylwr yma, ac ynteu 'n dywedyd gael o hono 'r cwbl oll, oddiwrth y ſawl a'u canfuaſent eu hunain.

Ni bu erioed ammeu nad oedd *Marc* bob amſer yn Gydymmaith i *Petr.* yn gymmaint a bod yn rhaid derbyn y pethau a ſcrifennodd Efe megys pedfuaſei *Petr* ei hun yn eu mynegi; yr hwn nid allai amgen na gwybod oddiwrthynt. Heblaw bod y pethau a ſcrifennodd Efe yw cael agos ei gyd yn Llyfrau 'r *Apoſtolion.* Ac nid oedd fodd i dwyllo Awdwr y *Dadcuddiad* yn y Gweledigaethau a ddangoſwyd iddo or Nêf, fel y mae Ef ei hun yn mynegi: Nac Awdur yr *Epiſtol* at yr *Hebreaid*, yn y pethau y mae 'n cyfaddef eu dyſcu o honaw naill ai gan Yſpryd Duw, ai gan yr *Apoſtolion*.

RHAN

RHAN VI.

Ac oblegyd na chwenychant ddywedyd celwydd.

YR ail Rheſwm a grybwyllaſom am gywirdeb yr Athrawon hyn, yw nad oedd ganddynt Ewyllys i ddywedyd Celwydd, a hynny ſydd gyſylltedig ar hyn a draethaſom or blaen, pan broſaſom yn gyffredinol Wirionedd y Grefydd Grift'nogol, a hanes adgyfodiad Chriſt. Pwy bynnag a chwennychant ddifuddio Tyſtiolaeth Dynion o ran dryganiaeth eu hewyllys, mae'n rhaid iddynt ddangos rhyw gyffelybrwydd o anewyllysgarwch y cyfryw Dyſtion i ddywedyd y gwir. Ond nid all neb ddywedyd dim or fath beth am y Gwŷr yma. Oblegyd os dywyd neb mae yn eu hachos eu hunain yr oeddynt yn tyſtiolaethu, mae yn rhaid edrych pa ham yr oedd hwn yn achos iddynt eu hunain; yn ddiammeu nid oedd iddynt ddim ynnill iw gael oddiwrtho, na lle i ochel un perygl oi herwydd; gan eu bod oblegyd y Grediniaeth yma yn colli pob Elw bydol, ac yn gorfod iddynt anturio pob rhyw beryglon. Am hynny ynteu nid Achos iddynt eu hunain oedd hwn; ond o ran parch a chariad i Dduw; ac yn ddiau ni ddena'r Achos hwnnw neb i ddywedyd Celwydd, yn enwedig yn y gorchwyl y mae tragywyddol Jechydwriaeth dynol ryw yn ſefyll arno. Ac nid oes le i gredu y byddent Euog or cyfryw echryſlon anwiredd, os yſtyriwn eu hathrawiaethau oeddynt ymmhob mann yn gyflawn o Dduwioldeb, au bucheddau difeius na chyhuddwyd erioed o Ddrwg-weithred yn y byd. iê nid allai eu Gelynion atcaſaf ſwrw dim yn eu herbyn ond

eu

eu gwiriondeb, ac yn ddiau nid gnawd ir cyfryw ddychymmygu eelwydd. A phe buafei ganddynt faint yn y byd o Athrylith i dwyllo a rhagrithio, ni buafent byth yn dadcan eu beiau eu hunain, ac yn eu traddodi i Dragywyddol Goffadwriaeth megys dianc o honynt oll a gadael eu Harglwydd pan oedd perygl arno, a darfod i *Betr* ei wadu Ef deirgwaith.

RHAN VII.

Sicrheir Cywirdeb yr Athrawon hyn oblegyd y Rhyfeddodau a wnaethant,

ETithr or tû arall fa roddes Duw ei hun Dyftiolaethau hynod o u ffyddlondeb gywirdeb hwynt trwy wneuthur Rhyfeddodau, y rhai a draethafant hwy a'u Difcyblion yn gyhoedd ac yn hyderus, gan ddadcan Enwau 'r Dynion ar lleoedd ac amgylcheddau eraill, fel y buafei hawdd jawn i Lywodraethwyr a Swyddogion ddadcuddio gwirionedd neu geudeb eu hymadroddiad. Ac ymmhlith y rhain da y dylem ddal fulw ar yr hyn a draddodafant yn wafiadol, ac yn ddiyfcog ynghylch y Cyfarwyddid rhyfeddol a gawfant i fiarad amryw Jeithoedd na ddyfcafant or blaen yngwydd llawer o filoedd o Ddynion, ac i jachau 'n ebrwydd ddoluriau Cyrph clwyfus yngolwg y bobl. Ac nid oedd nac ofn nac arfwyd arnynt, er eu bod yn gwybod fod Swyddogion yr *Iuddewon* y pryd hwnnw yn Elynion atcas, ar *Rhufeiniaid* yn ddigon drwg eu hewyllys iddynt: ac na buafent byth yn efgeuluío achlyfur yn y byd iw cyhuddo ai barnu am ddychymmygu a chyfloeddi Crefydd ac

Athrawiaeth

Athrawiaeth Newydd. Ac er hynny ni feiddiodd nac *Iuddewon* na *Chenhedloedd* wadu, yn yr amſeroedd neſaf hynny, na wnaethai 'r Gwyr hyn wyrthiâu a *Rhyfeddodau*. iê y mae *Phlegon*, un o *Wyr Llys Adrian* y *Ymmerodr*; yn crybwyll yn ei gôſ-Lyfrau am Ryfeddodau *Petr*: ar *Chriſt-nogion* eu hunain yn y Llyfrau a 'ſgrifennaſant Ymmhlaid eu ffydd at yr *Ymmerodron*, ar *Henadurêaeth*, ar *Rhaglawiaid*, yn mynegi 'r pethau hyn, megys digon adnabyddus, nad oedd le i ammeu mo'nynt; mae'nt hefyd yn cyhoedd-ddadcan ſod rhyw Rinwedd Ryfeddol yn parhau tros lawer o Oeſoedd ym Meddau 'r Prif-Griſt'nogion. pan wyddent or gorau, pe buaſei hynny 'n anwir, nad oedd dim haws ir Llywodraethwyr na'u gwrthbrofi, a'u cywilyddio, au coſpi hefyd or achos. Eithr f'a fu 'r cyfryw Ryfeddodau cyn fynyched wrth y Beddau hynny. a chynnifer o Dyſtion iw gwirio, a gorſod ar *Porphyrus* ei hun gyfaddef mae gwir ydoedd. F'a ddyſlai 'r pethau a ddywedaſom waſanaethu ond mae digonedd o Reſymmau eraill yn dadcan 'gwirioned, a ffyddlondeb y Llyfrau hynny.

RHAN VIII.

Cadarnheir Gwirioned yr Yſgrythyrau hyn, oblegyd ſod llawer o Brophwydoliaethau ynddynt au bethau a ddaethant i benn gwedi hynny, yr hyn ſy 'n dangos eu bod gwedi eu dadcuddio gan Dduw.

OBlegyd mae llawer o bethau gwedi eu rhagfynegi ynddynt nad oedd ſodd i Ddeallturiaeth Dynion rag-wybod mo'nynt, gwedi dyfod yn rhyfedd

feddol i benn, megys ebrwydd a dirfawr gynnydd y Grefydd yma: ei hir-barhâd gwaſtadol; y gwrthodid hi gan yr *Juddewon*, ac y derbynid gan Eſtroniaid; caſineb yr *Juddewon* ir ſaw! ai haddefant; y Coſpedigaethau trymion a ddioddefid o herwydd; Gwarchae ac Adfail *Jeruſalem* ar Deml; gydag Adfyd a blinderau 'r *Juddewon*.

RHAN IX.

A hefyd oblegyd gofal Duw am gadw 'i Bobl rhag Gau-Yſgrythyrau.

HEB law hyn, Os cydnabyddwn fod Rhaglunaeth Duw yn gofalu am helyntiau Dynion, ac yn bendifaddeu am y pethau a berthynant iw Anrhydedd ai Addoliant ei hun; nid oedd fodd iddo oddef twyllo trwy yſgrythyrau celwyddog y fath liaws anfeidrol o Ddynion, nad oedd ganddynt fwriad yn y Byd ond Sancteidd-addoli Duw. Bellach gan godi o amryw Bleidiau gwahanrhedol, gwedi hyn, ymmhlith Chriſt'nogion, a chan nad oedd or rhain odid o un na dderbyniodd yr holl Lyfrau hyn, neu y rhan fwyaf o honynt (oddieithr rhyw ychydig nad oes ynddynt ddim amgen nag ſy'n y llaill) mae hyn yn Oleu-fynag mawr i beri i ni gredu nad oedd dim iw ddywedyd yn erbyn yr Yſgrythyrau hyn: yn enwedig gan fod y Pleidiau ymwahanawl hynny yn caſhau eu gilydd mor gynddeiriog, ag y buaſei 'r naill yn gwrthod yr hyn oedd gymmeradwy gan y llaill, yn unig o herwydd ei fod felly

RHAN

RHAN X.

Atteb ir Gwrthreſwm, o herwydd fod Bagad or Llyfrau hyn na dderbyniwyd gan bawb.

BU yn wir ymmhlith y rhai a chwennychent eu galw 'n *Chriſt'nogion*, ychydig iawn a wrthodaſant bob rhai or Llyfrau hyn a welent yn gwrthwynebu eu gau-grediniaethau neilltuol eu hunain; cyfryw oedd y rhai a enllibient yr unig Dduw Creawdr y byd a Chyfraith *Moſes*, o ran câs ir *Juddewon*; neu or tû arall y rhai, rhag ofn blinderau ar Erlidiau a orfu ar y Chriſt'nogion eu dioddef, oeddynt yn chwennych ymguddio tan Enw *Juddewon*; ir rhai yr oedd rhydd-did i ganlyn eu Crefydd eu hunain yn ddi-goſpedigaeth. Fithr y rhain a lyſid megys Eſgymmunol gan bob *Chriſt'nogion* eraill ymmhob man yn yr amſeroedd hynny, pan oeddid etto ag Ammynedd mawr yn ôl Gorchymmyn yr *Apoſtolion* yn gadael cynnwysdra i bawb oeddynt yn anghyttuno, heb anrheithio gwir Dduwioldeb. Am y fath gyntaf yma o Anrheithwyr Chriſtianogaeth, rwy 'n meddwl ddarfod i mi or blaen roddi digon o eg'urdeb yn eu herbyn, lle dangoſais nad oes ond un Gwir Dduw, unig Greawdr yr holl Fyd, ac yn wir mae'r Llyfrau a gydnabyddant Hwy eu hunain, fel y gallant ymddangos yn rhyw rith Chriſt'nogion, ac yn enwedig Efangyl St. *Luc*, yn dangos yn eglur mae 'r un Duw ag a addolodd *Moſes* ar *Hebreaid* a bregethwyd gan *Jeſu Griſt*. Ac f' a gair cyfleuſdra i ymddadleu ar llaill, pan ddelom i wrthladd y ſawl ſydd yn wir; ac a fynnant eu galw yn *Juddewon*. Hyn yn y cyfamſer a ddywedaſ, mae

mae Rhyfeddol yw eu digywilydd-dra, fod yn diyſtyru ac yn bychanu Awdurdod *St. Paul*, gan na Seiliodd neb or *Apoſtolion* fwy o Eglwyſydd nag ynteu; ac f'a fynogwyd cymmaint a chynnifer o'i Ryfeddodau Ef yn yr amſeroedd hynny, y pryd (fel y dywedaſom or blaen) y galleſid yn hawdd ymoroi a chwilio ai gwir oeddynt. Ac os gwnaeth Ef Ryfeddodau, pa ham nad ellir credu iw ait Ef am ei Weledigaethau Neſol, ar Athrawiaeth a diderbyniodd Eſe gan *Griſt*? ac os oedd hefyd mor anwyl gan *Griſt*, nid oedd fodd iddo oſod allan ddim anghymmeradwy gan *Griſt*, hynny yw un Gau-Athrawiaeth. Ac am yr un peth y mae'nt yn beio arno o'i blegyd; ſef y Rhyddhâd a ganiattawyd ir *Hebreaid* oddiwrth y Defodau a orchymmynaſid iddynt or blaen trwy *Moſes*, nid oedd iddo achos yn y byd i ddyſgu 'r Athrawiaeth honno heblaw 'r Gwirionedd, gan ei fod Ef ei hun yn Enwaededig, ac oi wirfodd yn cadw y rhan fwyaf o ddefodau 'r Gyfraithiau; ac er mwyn y Grefydd Griſtnogol yn gwneuthur llawer o bethau anhowſach, ac yn dioddef blinderau calettach nag oedd orchymmynedig yn y Ddeddf, neu a ddiſgwylid eu goddef o herwydd cadw 'r Gyfraith; ac yr oedd hefyd yn dyſcu, ac yn Gorchymmyn iw Ddiſcyblion wneuthur a diodde 'r un pethau. Wrth yr hyn y mae 'n eglur nad oedd mo'no'n thwennych bodloni na Chluſtiau na deiſyfiadau ei Wrandawŷr, y rhai a ddyſcwyd i dreulio nid yn unig y *Sabboth*, eithr pob Dydd yngwaſanaeth ac addoliant Duw; yn lle ychydig draul O herwydd y Ddeddf, i oddef colli eu holl dda; ac yn lle gwaed Anifeiliaid, i gyſſegru eu Gwaed eu hunain i Dduw. Ac heb law hyn mae St. *Paul* ei hun yn mynegi 'n gyhoeddus ddarfod i *Petr*,

Ioun

Joan, ac *Jaco* roddi iddo ddeheu-ddwylaw cymdeithas yn arwydd o'u cydsynnied ag Ef: Ac ni feiddiai ei byth ddywedyd mo hyn, oni bai ei fod yn wir, pan allasei y rhai'n oedd etto 'n fyw i swrw yn ei gelwydd.

Gan adael heibio y rhain ynteu y crybwyllais am danynt; na haeddant ond prin eu galw 'n Grist'nogion, mae Cyttundeb Eglur-loyw cynnifer o Gynnulleidfaoedd Christ'nogawl eraill a dderbyniant yn unfryd y Llyfrau hyn, gyda 'r hyn a ddywedaswn or blaen am wyrthiau 'r Awdwyr; ac am ofal arbennig y goruchaf *Dduw* ynghylch y cyfryw bethau, yn ddigon i fodloni pob Christ'nogion di-duedd i gredu 'r Ysgrythyrau hyn. yn enwedig gan fod rhai 'n arferol o goelio Cof Lyfrau Eraill, nad oes mor fath dystiolaethau iw gwirio, oddieithr bod rhyw reswm eglur ir gwrthwyneb, ac nid oes dim or cyfryw yn erbyn y Llyfrau hyn.

RHAN XI.

Atteb ir Gwrthreswm, fel pettai 'r Llyfrau hyn yn cynnwys pethau amhosibl.

OBlegyd os dywyd neb fod rhai pethau a draethir yn y Llyfrau hyn nad oedd fodd iw gwneuthur, f'a ddiflanna 'r Gwrthddadl hwnnw, wrth ystyried a ddangosasom eusys or blaen, fod pethau na ddichon *Dynion*, eithr a ddichon *Duw*. Oblegyd nad oes ynddynt ddim gwrthwynebol iw allu Ef, a chyfryw yw 'r Gwrthiau galluog yr ym yn rhyfeddu fwyaf ou plegyd, ac Adgyfodiad meirw i fyw.

RHAN

RHAN XII.

Neu bethau gwrthwynebol i Reſwm.

AC ni ddylid chwaith wrando 'r ſawl a ddywedant ſod rhyw bethau cynnwyſedig yn y Llyfrau hyn, yn anghyttuno a Rheſwm union. Canys profir y gwrthwyneb yn gyntaf trwy Gydſynniad aneirif o Wŷr deallgar. Doethion, Dyſcedig, a Ufuddhaſant i Audurdod y Llyfrau hyn, er yr amſeroedd cyntaf. Ac heb law hynny, mae'r holl bethau a brofwyd yn gyttunol ac union Reſwm (yn y Llyfr cyntaf or gwaith yma) megys bod Duw, ac mae un ydyw, a hwnnw 'n gyflawn o berffeithrwydd, yn Anfeidrol o Alluowgrwydd, a Bywyd a Doethineb, a Dajoni; ac yn unig Wneuthurwr yr holl bethau ſydd; a bod ei Ofal Ef yn cyrraedd at bob peth, ac yn enwedig at Ddynion; ac y dichon Efe, ar ôl y fuchedd hon, wobrwyo 'n helaeth y ſawl a ufuddhânt iddo; y dylem attal a ffrwyno 'n trachwantau cnawdol, ſod trâs a charennydd rhwng Dynion, a bod, am hynny yn jawn iddynt wir garu eu gilydd; mae yr holl bethau hyn, iw cael yn eglur-gyhoedd yn y Llyfrau yma. Eithr ni a allwn weled, mor anniogel a thwyllodrus yw mynegi dim am ſiccr wir tros benn hyn, naill ai ynghylch Natur Duw, ai ynghylch ei Ewyllys, trwy nerth a chyſarwyddid Rheſwm naturiol, wrth yr anfad anghyttundeb ſydd rhwng Athrawiaethau nid yr Yſgolion yn unig, Eithr *Philoſophyddion* neilltuol hefyd ymmyſc eu gilydd.

Ac nid rhyfedd hynny; Oblegyd os ydynt yn ſyrthio allan i Groes-ympiniwnau llwyr wrthwynebol

wynebol iw gilydd, pan fo'nt yn ymrefymmu ynghylch Natur eu meddwl eu hunain; pa faint mwy y bydd rhaid iddynt fyrthio i amrafael Gamgymmeriaethau, pan chwennychent ddirnad a deongli 'r meddwl neu 'r Yfpryd goruchaf hwnnw, fydd cymmhelled uwchlaw ein hegwan Ddealltwriaeth ni? Os dywyd Gwyr Doethion i ni mae enbyd ymorol yn fanwl am ymgynghoriadau Brenhinodd, ac am hynny nad allwn ni ddirnad monynt; pwy fydd cyn ddoeth-galled ag y difgwyl allu trwy ei fynhwyr ai gytarwyddid ei hun, i amgyffred neu ddeall beth yw ewyllys Duw am ddim or pethau a ddichon ef eu hewyllyfio fel y fynno. Odïaeth ynteu y dywed *Plato* nad ellir gwybod dim or pethau hyn ond trwy Ddadcuddiad neu oleu-fynegiad oddiwrth Dduw, bellach nid all neb ddangos y fath Ddadcuddiad, a brofir felly trwy amgenach tyftiolaethau, na'r dadcaddiadau fydd gynnwyfedig yn Llyfrau 'r *Cyfammod Newydd*, mae cymmaint rhwng neb a phrofi, ag nad oes un dyn a ddywed fynegi o Dduw i ddynion am ei Natur ei hun ddim yn y gwrthwyneb ir Yfgrythyrau hyn, Ac nid ellir chwaith ddangos un arwyddoccâd credadwy oi ewyllys Ef ar ol y rhai'n. Canys os gorchymynwyd neu os cynnwyfwyd dim amgen cyn amfer *Chrift*, or cyfryw bethau ag fydd o honynt eu hunain yn ddiddrwg ddi-dda, neu nad ydynt mewn modd yn y byd yn ddyledus o ran eu hunain, nac chwaith yn bechadurus jawn; nid yw hynny ddim yn erbyn y Llyfrau hyn; O herwydd yn y cyfryw Achofion y mae 'r Cyfreithiau diweddaf yn difymmu y rhai Cyntaf.

RHAN XIII.

Attebion ir Gwrth-reſwm, ſod rhyw bethau gwrthnyniebol in gilydd yn y Llyfrau hyn.

F'a ſydd rhai 'n arferol o ddadleu ſod weithieu ryw anghyttundeb yn yſtŷr y Llyfrau ynna, Eithr yn y gwrthwynebiad, pwy bynnag a fwrio olwg ar hyn o beth a ddeallai union di-duedd, f'a wêl fod hyn yn Rheſwm rhagorol arall i gadarnhau eu hawdurdod; Oblegyd mae'nt ymmhob mann yn cyttuno 'n lowr ynghylch y cyfryw bethau ac ſy 'n perthyn i un pwngc pwyſfawr o Athrawiaeth neu Hiſtori; Yr hyn ni welir mewn Llyfrau Eraill yn y byd ymmyſc Awdwyr or un Grediniaeth, cymmerwch y neb a fynnoch ai *Judeaidd*, ai *Philoſophyddion Groeg*, ai *Phyſyddion* ai *Cyfreithwyr Rhufeinig*: Oblegyd yn y rhain oll chwi a gewch yn fynych jawn weled nid yn unig yſgrifennyddion ar un blaid, megys *Plato* a *Xenophon*, yn amrafaelio au gilydd; eithr yr un Awdur yn dywedyd withieu 'r naill beth ac yn y mann beth arall yn y gwrthwynebiad, fel pettai 'n ei anghofio 'i hun, neu heb wybod beth i ſefyll arno, Eithr yr Yſgrythyrwyr hyn, yr ym yn ſiarad am danynt, a ddaliant ar yr un Crediniaethau neu bwngciau Fŷdd, yr un Gorchymmynion a rheolau buchedd! a dreddflant. ac am a draethant ynghylch Buchedd a Marwolaeth ac Adgyfodiad e'n Hiachawdr yr un yw Sylwedd y cyfan ymmhob man o honynt. Eithr am ryw amgylcheddau bychain na pherthyn ddim i'r Sylwedd, f'allesid ond antur, yn hawdd eu cydgyſſoni, er nas gwyddom ni pa fodd, oblegyd amrafael Arwyddoccad

Geiriau

Geiriau neu ſod amryw Enwau ir un Gwr neu le ar cyffelyb. Ac yn wir i'r a ddylai hyn lanhau'r Awdwyr yma au rhyddhau odd wrth bob amheu-aeth o dwyll a geudeb, Oblegyd arfer Gau-dyſti-on yw cyttuno i ddywedyd pob peth air yn air, fel na bo na lliw na llun i ganfod rhagoriaeth yn eu chwedlau. Ac os anghoelir Llyfrau cyſan oblegyd rhyw ymryſuſeddau di-ddefnydd, nad ell-ir cyttuno monynt, nid oes le i goelio Llyfrau n-y byd yn enwedig ſy'n mynegi haneſion Hen bethau; Ac er hynny mae pawb o honom yn cyd-nabod Awdurdod a Chywirdeb *Polybius Halicar-naſſenſis*, *Livius*, a *Plutarch* am ſylwedd y pe-thau a'ſgrifennaſant, er bod y cyfryw amryſul-eddau bychain ynddynt: ac jawnach o lawer, na bo i ddim or cyfryw ddirymmu Awdurdod a Gwir-ionedd yr Awdwyr hyn, a ninnau 'n gweled wrth eu Hyſgrythyrau, eu bod bob amſer yn gofalu 'n ddyfal am Dduwioldeb a Gwirionedd.

RHAN XIV.

Atteb ir Gwrthreſwm ynghylch Tyſtiolaeth Dieithr-iaid, ſy'n hyttrach yn ſicrhau'r Llyfr hwn.

MAE etto ffordd arall i ddirymmu tyſtiol-aeth. ſef trwy ddwyn tyſtiolaethau Gwyr Iraill ir Gwrthwyneb. Ond myfi a ddywedaf yn hyſ, nad oes mor fath dyſtiolaethau iw cael, odd-ieithr i ryw unwneuthur defnydd o Eiriau rhyw-rai a anwyd ymmhell gwedi hynny, a chyfryw hefyd ag oeddynt yn Cyhoedd addef eu bod yn Elynion i Enw Chriſt, ac nid cymmwys galw y rhei'ny 'n Dyſtion yn yr achos yma. ie or tû ar-

all, er nad rhaid wrth hynny chwaith, mae gennym ni lawer or fath Dyſtiolaethau i gadarnhau amryw bethau a fyneglr yn y Llyfrau hyn. felly y mae'r *Hebraeaid*, ar *Cenhedloedd* yn coffau groeshoelio 'r *Jeſu*, a gwneuthur o honaw Eſai Doiſgyblion amryw Ryfeddodau. Llyfrau hynod *Joſephus* a olodwyd allan ychydig gwedi penn deugain Mhlynedd ar ol derchafael *Chriſt*, a fynegant yn helaeth am *Herod*, *Pilate*, *Feſtus*, *Felix*, *Joan Fedyddiwr* a *Gamaliel*, a Dinyſtr *Jeruſalem*, ar hyn y cyttuna Llyfrau 'r *Talmud*, lle mae'nt yn crybwyll am yr amſeroedd hynny; Adroddodd *Tacitus* Gieidd-dra *Nero* wrth y Chriſt'nogion. Yr oedd gynt Lyfrau Awdwyr neilltuol megys *Phlegon*. a Chof-Lyfrau Awdurdodawl, Cyhoeddus, y byddai'r Chriſt'nogion yn cymmeryd tyſtiolaeth o honynt; O herwydd eu bod yn rhoddi Fglurdeb am y *Seren* a ymddangoſodd ar ol Genedigaeth Chriſt, ac am y Ddaiargrynn, ar Diffyg a fu ar yr *Haul* yn erbyn rheol Naturiaeth, pan oedd y Lleuad yn llawngronn y pryd y dioddefodd *Chriſt* ar y Groes.

RHAN XV.

Atteb ir Gwrthreſwm ynghylch newid yr Yſgrythyrau.

YN wir ni fedrafi weled beth yelwaneg a ddichon fod gan neb fw ddadlu 'n erbyn y Llyfrau hyn, oddieithr taeru o ryw un yſgatfydd nad yr un fath ydynt ac ag oeddynt or dechreuad. Nid wy'n gwadû nad allai ddigwydd ir rhain fel i Lyfrau eraill, ddarfod newid neu adael allan, neu

neu chwanegu rhai Llythyrennau, neu Sylaftau, neu Eiriau ynddynt, trwy ddiofalwch, neu draws ofal y rhai au had-ſgrifennafant. Ond peth anghymmwys yw codi dadl yn erbyn yſgrifen neu Lyfr, o herwydd y cyſtryw amryfuſedd. nad oes fodd iddo na ddigwyddo mewn llawer o oeſoedd rhwng amryw Ddwylo? gan fod Defod ac arfer a Rheſwm hefyd, yn peri rhoi mwy coel ar hyn a ganfyddir yn yr yſgrifennyddiaethau amlaf a hynaf nag ar y llaill. Eithr ni phrofir byth ddarfod trwy dwyll neu fodd arall yn y byd, lygru yr holl yſgrifennadau hyn; yn enwedig mewn un Pwngc o Athrawiaeth neu hanes rhyw beth hynod; Oblegyd nid oes nac yſgrifennadau, na thyſtion er yr amſeroedd hynny yn dangos dim or fath beth. Eithr os dywedpwyd rhyw beth ymmhell ar ol hynny, gan y fawl oeddynt yn llidiog-gaſhau Diſcyblion y Llyfrau hyn, f' a ddylid edrych ar hynny megys enllib, ac nid tyſtiolaeth. Ac yn wir f' allai hyn a ddywedaſom wafanaethu am atteb yn erbyn y fawl a ddadleuant fod yr yſgrythyr gwedi ei newid, gan fod yn fefyll ar yr hwn a daero 'r fath yn erbyn un Llyfr, yn enwedig a fo gwedi ei dderbyn yn gymmeradwy ymmhob mann er ys llawer o oeſoedd, ddwyn rheſymmau i brofi 'r hyn a ddywedo. Eithr fel y canfydder Gwagedd y Gwrthrefwm yma nyni a ddangoſwn am yr hyn a ddychymmygant hwy. na bu ddim or fath beth, ac nad allai mor bod chwaith. Ni a brofaſom Fuſus mae Llyfrau 'r Awdwyr hynny ydynt, y rhai y mae eu henwau 'n yſgrifennedig o'u blaen. Ac os cydnabyddir hyn, mae 'n eglur nad eu cam-dadu a wnaethpwyd. Ac nid oes chwaith un rhan o honynt a dâl ſon am dano gwedi ei newid. Canys gan na wneid mor fath gyfnewid-

iad heb ryw fwriad, f' a fuasei ryw ragoriaeth amlwg rhwng y rhann honno ar rhannau neu 'r Llyfrau Eraill sydd heb eu newid, Eithr ni welir yr awrhon yn unlle ddim or fath ragoriaeth ond or tŷ arall; fel y dywedasom: mae cyd gyssondeb rhyfeddol rhwng ystyr a synnied y Llyfrau hyn ymmhob mann.

Heb law hyn, pan gyntaf y byddai neb or *Apostolion*, nac o Ddiscyblion yr Apostolion yn rhoddi allan ddim oi gwaith mae 'n ddyddadl fod y *Christiogion* (fel y gweddai iw Duwiol-serch o'u hawyddfryd, am gadw a chynnyddu 'r Gwirioned ymmhlith y fawl a ddelent ar eu hol) yn fawr eu gofal au diwydrwydd, i gymmeryd llawer iawn o ysgrifennadau or Llyfrau hynny, y rhai a danwyd ir perwyl hwnnw cymmhelled ag y cyrhaeddodd Enw *Christ Europe*, *Asiæ* ar *Aphrice*, 'r oedd y *Groeg-iaith* yn adnabyddus.

iê 'r oedd ysgrifen-law gyntaf rhai or Llyfrau hyn iw gweled ddau-cant o flynyddoedd ar ol amser *Christ*. Ac nid oedd fodd i newid bellach yr un or cyfryw Lyfrau trwy Law anwireddus, pan oedd cynnifer o ysgrifennadau o honynt gweli eu ranu ar led, ac yn gadwedig nid yn unig trwy ddyfalwch a diwydrwydd. Gwyr neilltuol, eithr hefyd trwy ofal a manyldra Cyffredinol yr Eglwys. Bwriwch at hyn ddarfod yn y mann yn yr Oesoedd nesaf gyfieithu 'r Llyfrau yma i-jeithoedd *Syria*, *Æthiopa*, *Arabia*, ar *Llading*; ac y mae 'r Cyfieithiadau hyn etto iw gweled, ac nid oes dim rhagoriaeth o bwys a defnydd rhyngddynt ar Llyfrau *Groeg*.

Mae gennym hefyd, etto Lyfrau Gwyr a Athrawiaethwyd gan yr *Apostolion* neu gan eu *Discyblion* hwynt, ac yn y rhei'ny lawer iawn o fannau

nau ac adnodau gwedi eu cymmeryd or Yſgrythyrau hyn, yn yr un yſtyr a ſynnied ag y darllenir hwynt yr awrhon ynddynt. Ac nid oedd neb yn yr amſeroedd hynny, a chanddo gymmaint Awdurdod yn yr Eglwys ag y buaſid yn Uſuddhau iddo, pe chwennychaſei newid dim o honynt, fel y gallwn ddeall wrth hyſdra diarſwyd *Irenæus*, *Tertulian* a *Cyprian*, pan ydynt yn anghyttuno ac yn ymddadle 'n eofn ddiwenjaith ar Gwyr mwyaf ac Ardderchoccaf yn yr *Eglwys*. Ar ol yr amſeroedd hyn, cyfododd llawer o Wŷr Dyſgedig, Doethion, y rhai gwedi dyfal chwilio, a dderbyniaſant y Llyfrau hyn, megys yn eu purdeb cynhwynol. Ac yma hefyd y gallwn gyfaddaſu 'r hyn a ddywedaſom gynneu ynghylch yr amryw bleidiau gwahanrhedol oedd ymmhlith *Chriſt'nogion*, ſef bod y rhain oll, o leiaf y ſawl a gynabyddant Dduw 'n Greawdr y Byd, a bod *Jeſu Criſt* yn Awdur Cyfraith Newydd, yn arfer y Llyfrau hyn megys y mae 'nt gennym ninnau. A phedfuaſei neb yn rhyfygu newid neu adnewyddu un rhann o honynt, f' au cyhuddafid gan y llaill oll megys Hoceedwyr, ffugiol, Twyllodrus. Ac ni chafodd yr un or pleidiau hyn Frioed rydd-did i newid y Llyfrau yma 'n ol eu hewyllys au medyliau eu hunain: fel y gallwn ddeall yn hyſbys wrth hyn, ſef Oblegyd fod yr holl Bleidiau hynny wrth ymryſon ac ymddadleu a'u gilydd, yn cymmeryd eu Rheſymmau, au Profiadau yn erbyn y naill y llall allan or un Yſgrythyrau yma. Mae hefyd yr hyn a grybwyllaſom or blaen am Raglunjaeth Duw. yn perthyn i bob rhann arbennig yn gyſtal ac ir Llyfrau cyfan. Sef na chyttuna ai Raglunjaeth ef, adael i gynnifer o filoedd o Bobl oedd yn gwir ewyllyſio byw 'n dduwiol, ac a phŵr ga-

lon a meddwl, yn ymgais am Dragywyddol Jechydwriaeth, gael eu twyſo a gyfeiliornus i Gamgymmeriaeth nad oedd iddynt todd yn y Byd iw ochel. A hyn a gaiſt wafanaethu ymmhlaid Llyfrau 'r *Cyfammod Newydd*, a phe bae'm heb ddim Llyfrau heb eu Llaw hwynt, f' allai y rhain yn unig roddi i ni ddigon o hysbyſrwydd a gwybodaeth am y wir *Grefydd*.

RHAN XIV.

Am Awdurdod Llyfrau 'r Hen Gyfammod.

BEllach gan weled o *Dduw* yn dda adael i ni *Yſgrythyrau Crefydd* yr *Juddewon*, yr hon gynt oedd y Wir Grefydd ac ſy'n hepcor ini dyſtiolaethau rhagorol i wirio 'r Grefydd Griſt'nogol, ni bydd anghymmwys cadarnhau dyledus Awdurdod y rhei'ny hefyd. Mae'r cyffelyb Eglurdeb am y rhain ag ſydd am Lyfrau'r *Cyfammod Newydd*, i ddangos mae gwaith oeddynt ir Awdwyr y dywedid eu bod.

Ar Awdwyr hynny oeddynt naill ai Prophwdi ai Gwyr ffyddlon teilwng o bob parchus Gredinieth. A chyfryw oedd *Eſdras*, yr hwn, fel y tybir, a gaſglodd yr holl *Yſgrythyrau* hynny yn un Llyfr; Y pryd yr oedd y Prophwyd *Haggai*, *Malachi*, a *Zechariah* etto 'n fyw. Ni ail-adroddaf yma 'r pethau a ddywedpwyd or blaen er clod i *Moſes*. Ac y mae llawer or *Cenhedloedd* yn rhoddi tyſtiolaeth nid yn unig ir rhan gyntaf or *Yſgrythyr* a adroddodd *Moſes*, megys y dangoswyd yn y Llyfr Cyntaf, Fithr ir Haneſion a gyfanſoddwyd yn ddiweddarach. Felly y crybwyll Cof-Lyfrau 'r *Phoniciaid* am *Ddafydd* a *Selom-*

on,

Solomon,, ac am y *Cyſammod* a wnaethant ar *Tyrſiaid*. Mae *Beroſus* cyſtal ar *Hebreaid* yn ſôn llawer am *Nebuchadonoſor* ac eraill o Frenhinoedd y *Chaldeaid*. Ar hwn a eilw *Jeremi Vaphres* neu *Hophra* Brenhin yr *Aipht*, a enwir *Apries* yn *Herodotus*. Ac mae Llyfrau 'r *Groegiaid* yn llawnion o hanes *Cyrus*, ar Brenhinoedd a deyrnaſant ar ei ol Et hyd amſer *Darius*. ac y mae llawer o bethau Eraill yn perthyn i Genhedl yr *Juddewon* yn Llyfrau *Joſephus* yn erbyn *Appion*. at yr hyn y gallwn 'chwanegu 'r hyn a grybwyllwyd or blaen o *Strabo* a *Throgus*. Ond nid oes i ni Griſt'nogion le, mewn modd yn y byd i ammeu dim o Wirionedd y Llyfrau hyn. gan fod yn ein Llyfrau ni Dyſtiolaethau agos o bobun or rhai'n air yn air fel y maent yn yr *Hebraaeg*. A phan oedd *Chriſt* yn bwrw llawer o feiau ar Ddyſcawdwyr y Gyfraith ar *Phariſeaid* oeddynt yn ei amſer Ef. Nid yw yn amſer yn cyhuddo monynt am halogi na gau-ffugio Llyfrau *Moſes* a'r *Prophwydi*, nac am arfer Llyfrau gwedi eu newid neu camdadu. Ac nid ellir profi chwaith ddarfod llygru 'r Yſgrythyrau hyn ar ol amſer Chriſt; ac nid ydyw gyffelybol chwaith, os jawn yſtyriwn mor waſcarog oedd Cenhedl yr *Juddewon* hyd amryw ardaloedd y Byd, au bod ymmhob mann lle byddent yn dyfal-gadw 'r Yſgrythyrau hynny. Oblegyd yn gyntaf f' a gaethgludwyd degllwyth o honynt gan yr *Aſſyriaid* i *Media*, ac wedi hynny yr Ddau eraill. Ac wedi iddynt gael cennad gan *Cyrus* i ddychwelyd adref, f' a ymſefydlodd llawer o honynt mewn Gwledydd dieithr. y *Macedoniaid*, ag Addewidion gwerthfawr, a'u gwahoddaſant i *Alexandria*. Creulondeb *Antiochus*, a Rhyfeloedd Cartrefol y *Maccabeaid*, a chyrch cyhoeddawl

ddawl *Pompeius* a *Soſſius* a darfodd ac a waſ-
arodd fagad o honynt. Yr oedd Ardaloedd *Aff-
rica* o amgylch *Cyrene*, yn llawn o *Juddewon*;
felly 'r oedd Dinaſoedd *Aſia*, a *Macedonia*, a *Ly-
caonia*; ac yn yr un ſunud *Cyprus*, *Crete* ac
Ynyſoedd Fraill. Ac ni a allwn ddeall wrth Lyf-
rau *Horace* a *Juvenal*, a *Martial*, faint Nifer-
oedd oedd o honynt yn *Rhufain*. Bellach nid oedd
fodd trwy ddichell yn y Byd i dwyllo cynnifer o
finteiodd mor waſcaredig oddiwrth eu gilydd; ac
nid oedd fwy modd iddynt hwythau chwaith i gyt-
tuno ar gelwydd. Bwriwch at hyn fod Llyfrau 'r
Hebreaid trwy oychymmyn a Gofal Brenhinoedd
yr *Aipht*, gwedi eu Cyfieithu yn jaith *Groeg* gan
y rhai a elwir y *Deg a Thriugain*, agos i Dri-
chant o flynyddoedd cyn geni *Chriſt*. yn gymmaint
au bod erbyn hyn, mewn jaith arall yn wir, eithr
yn yr un yſtyr o ran eu Sylwedd, ym meddiant
y *Groegiaid*; ac am hynny yn anhaws eu newid
Ac heb law hyn, f' a gyfjeithiwyd rhai or un
Llyfrau ychydig cyn amſer *Chriſt*, ar llaill ych-
ydig ar ei ol Ef, yn Jaith y *Chaldeaid*, ac yn jaith
Jeruſalem, ſef, hanner *Syriaeg*. Gwedi hynny, cyt-
jeithwyd hwynt ir *Groeg* dracheſen gan *Aquila*,
Synachus a *Theodotion*. y rhain oll â gyd-gyſſe-
lybodd *Origen* a Chyfieithiad y *Deg a Thriugain*,
ac Fraill ar ei ol ynteu; ac ni chafwyd ynddynt
ddim rhagoriaeth nac anghyttundeb yn yr *Haneſi-
on*. nac mewn dim arall o bwys a defnydd.

Yr oedd *Philo* yn byw yn Nyddiau *Caligula*,
a tu *Joſephus* yn hwy 'n y byd hyd amſer y
ddau *Veſpaſian*, a phob un or ddau a adroddant
yr un Geiriau o Lyfrau 'r *Hebreaid* ag a ddarllen-
nwn ninnau ynddynt yr awrhon.

Yn y Dyddiau hynny y dechreuodd y *Grefydd*
Griſt'nogol

Grift'nogol ymledu 'n wafcarog, acor fawl a'i haddefant, yr oedd llawer yn *Hebræaid*, a bagad gwedi dyfcu'r Jaith *Hebræaeg*. Hawdd jawn ynteu a fuafei ir rhain pe buafei 'r *Hebræaid* yn gau-newid yr Yfgrythyrau nac un rhann hynod o honynt, ddadcuddio 'r cyfryw geudeb, wrth eu cyffelybu a Llyfrau eraill oedd hŷn, ai wneuthur yn amlwg ir holl Fyd. Ond mae cymmaint rhyngddynt a gwneuthur hyn, au bod yn benthycca amryw Dyftiolaethau o Lyfrau 'r Hên Gyfammod yn union yn yr un yftŷr ac Arwyddoccâd ag y deellir hwynt gan yr *Hebræaid*. Ac am yr *Hebræaid* hynny, mae 'n haws i chwi eu cyhuddo am y bai a fynnoch nag (ni ddywedaf o Geudeb a thwyll, eithr o gymmaint ag) o efgeuluidra ynghylch y Llyfrau hyn, gan eu bod yn arferol o'u dofparthu au cyd-gyffelybu mor fanwl-grefyddol ag y gwyddant rifedi 'r Llythrennau, a phe fawl gwaith y mae pob un yn gynnwyfedig ganddynt.

Gadewch i ni bellach ddyfod at y Rheſwm diweddaf, ond ffid y fatâf i brofi na newidiodd yr *Juddewon* o'u gwirfodd mor Yfgrythyr lân. fef fod y *Chrift'nogion* yn goleu-fynegi, trwy awdurdod y Llyfrau a ddarllennir gan yr *Juddewon*, a hynny, fel y mae'nt yn credu, yn ddigon amlwg, mae 'n *Harglwydd* a'n *Hathraw* ni *Jefu*, yw 'r *Meffiah* neu 'r Eneiniog a addawyd gynt iw Hynafiaid hwynt. A diammeu y buafei 'r *Juddewon*, yn anad dim, yn cymmeryd gofal rhag i hynny fod, pan godod.l ymryfon rhyngddynt hwy ar *Chrift'nogion*, pe buafei fodd ganddynt i newid 'y pethau a fynnafent.

Y *Pedwerydd*



Y PEDWERYDD LLYFR

YNGHYLCH

GWIRIONEDD

Y

GREFYDD GRIST'NOGOL.

RHAN I.

Gwrth-ddadl Yſpyſſol yn erbyn Crediniaetheu anghyttunol ar Grefydd Griſt'nogol.

FY Mwriad am hamcan yn y *Pedwerydd* Llyfr yma, gan yſtyried chwannocced yw y rhan fwyaf or Byd i ymhyfrydu wrth edrych ar heryglon rhai eraill, pan ſo'nt hwy eu hunain yn ddiofal ac yn ddiogel: yw dangos mae 'r Difyrrwch mwyaf a ddyſai fod gan Griſtion o Ddyn, yw nid yn unig ymlawenychu ynddo 'i hun am gael o honaw yſpyſrwydd or Gwirionedd, eithr ceiſio cymmorth a chyfarwyddo eraill ſy 'n ymddallgeibio 'n ehud yn amryw ddyrys-ffyrdd amryſu-

ſedd

fydd a chyfeiliorni, au wneuthur hefyd yn gyfrannogion o'r un lles-fawr Ddaioni, Mi a geisiais wneuthur hyn mewn rhyw fodd, yn y Llyfrau o'r blaen, gan fod eglurhâd y Gwirionedd yn argyoeddi ac yn difenu camgymmeriaeth: er hynny gan fo- [illegible] yr Gredimaethau gwrthwynebol i'r Grefydd Grist'nogawl. megys Crefydd y Cenhedloedd, yr *Juddewon* a'r *Mahumediaid*. a chanddynt, heb law yr hyn sydd gyffredin iddynt oll, ryw Gamgymmeriaethu neilltuol, a rhyw resymmau Priodol i ymddadleu â ni, twy 'n gobeithio na bydd anghyfaddas ymresymmu 'n erbyn pob un o'r naill-tu; gan ddeisyf ar y sawl o honynt a ddarllenent y Llyfr hwn, gadw eu meddyliau rhag gwŷro at y naill blaid, ai rhyddhau oddiwrth bob hên Goelgrefyddon megys rhwystrau i feddwl da, fel y gallont â Deall union di-duedd, ddirnad a barnu a gwybod yr hyn a ddyweder.

RHAN II.

Yn erbyn Crefydd y Cenhedloedd neu 'r Paganiaid; nad oes ond un Duw, fod Yspryd ion Creedig, naill ai 'n Dda, ai 'n ddrwg. na ddylid anrhydeddu y rhai da, oddieithr yn ol Gorchymmyn Duw.

AC yn gyntaf dywedyd yr ydym yn erbyn y *Paganiaid*, os ydynt hwy 'n bwrw fod amryw Dduwiau tragwyddol a go-gyfiwch, lwyr-wrth-troes o honom hynny yn y Llyfr cyntaf, lle dangosasom nad oes ond un unig Dduw, Awdur a Phrif-Achos pob peth. Eithr os Duwiau y galwant hwy Yspryd ion Creedig o uwch gradd

na

na Dynion, mae'n rhaid ir rhei'ny fod naill ai'n dda, ai'n ddrwg. os da y dywedant eu bod, rhaid iddynt yn gyntaf fynnu ficcrwydd hylpys am hyny, rhag tramgwyddo o honynt yſgatfydd i gamgymmeriaeth peryglus, gan dderbyn Gelynion yn lle Cyfeiſlion, ſoadduriaid yn lle Cennadon. mae'n Rheſwm hefyd fod rhyw ragoriaeth eglur rhwng Addoliant y Goruchaf Dduw ar Yſprydion ymadylent hefyd wybod eu Treſn au graddau, a pheth a ellir ei ddiſgwyl gan bob un o honynt; a pha barch ac anrhydedd y mae'n Brenhin Goruchaf yn fodlon i hepcor i bob un: A chan fod eu Crefydd hwynt yn ddeffygiol yn y pethau hyn oll, mae'n amlwg wrth hynny anficcred ydyw; a pha faint lliogelach fyddau iddynt ymchwelyd i addoli'r unig Oruchaf Dduw yr hyn medd *Pluto* ynteu yw Dyledſwydd Gwr Doeth; yn enwedig gan fod yr Yſprydion da'n Weinidogion ir Goruchaf Dduw, ac am hynny nid oes fodd na bo'nt gwaſanaethgar ſ fawl y bo Duw ir Drugarog ac yn gadwedig ddo.

RHAN III.

Addolir Yſprydion drwg gan y Paganiaid, ac mer anwiw o beth ydyw.

EIthr mae Rheſymmau dwyſion i broſi nad da, Eithr drwg yw 'r Yſprydion a addolir gan y *Paganiaid*. Yn gyntaf, o eiſieu eu bod yn troi ymmaith eu haddolyddion i waſanaethu 'r Goruchaf Dduw. ie'r oeddynt hyd eithaf eu gallu yn ceiſio deleu a diddymmu 'r gwir Addoliant hwnnw, ac o leiaf yn chwennych iddynt eu hunain gymmant

maint parch ar Goruchaf Dduw. Yn ail, o herwydd eu bod yn peri anfad ddrygau i Wasanaethwyr y Goruchaf; gan gyffroi 'r Llywodraethwyr ar bobl iw cospi a'u cystuddio 'n aruthr. Canys pan oedd rhydd-did ir *Beirdd Cenhedlig* i ganu 'n hyf ac yn ddigospedigaeth am annaturiol greulondeb a Godineb eu *Duwiau*, ac ir *Epicuraaid* i wadu Rhagluniaeth Duw; A phan oedd pob Crefyddolion Eraill, yn ymgyfeillachu 'n garedig a'u gilydd, er maint rhagoriaeth oedd rhwng Defodau 'r naill ar llall, megys yr *Aipbtiaid*, ar *Phrygiaid*, ar *Groegiaid*, ar *Hetruriaid* yn *Rhufain*, yr *Iuddewon* yn unig a wradwyddid ac a ddifennwid ymmhob mann, megys y mae 'r Dychanau ar Gwawd Caniadiau 'n dangos, ac a ddeolid hefyd weithieu yn Alltudion o wlad bwygilydd, y *Christogion* hefyd heb law hynny a gystuddid a phoenydiau or creulonaf. Ac nid allai fod un Achos arall o hyn. ond bod y Ddwyblaid hyany yn addoli 'r unig wir Dduw, a Duwiau 'r Cenhedloedd yn chwennych rhwyftro 'r Addoliant hwnnw, gan eiddigeddus ymgyftadlu ag Ef, yn fwy nag ai gilydd. Yn drydydd o herwydd Dull neu Drefn eu haddoliant, yr hwn nid allai fodloni ac ni weddai i un Yfpryd da, diniweid, megys trwy Aberthu gwaedlyd Dynion, trwy redeg o bobl yn noethlumynnaid yn y Temlau, trwy Chwareuon ac ymlamfach llawn o frynti gwarthus aflendid; fel y gwelir yr awrhon ymmlith Brodorion *America*, ac *Affrica*, fydd orchuddiedig ynghaddug *Pagan-idd-dra*. Ar hyn fydd fwy, t' fu gynt, ac mae etto Bobl yn addoli Yfprydion drwg, ac yn gwybod, a hefyd yn addef mae drwg ydynt. felly 'r Addolid *Arimanius* gynt gan y *Perfiaid*, y *Cacodæmoniaid*, gan y *Groegiaid*, y *Vejovis* gan y *Ladingwyr*, ac Eraill

y pryd

y pryd hyn gan Rai or *Æthiopiaid*, ar *Indiaid*; ac nid ellir meddwl am ddim ddihirach, na ffieiddiach na hyn. Canys beth yw addoliant Crefyddol, onid tyſtiolaeth o ragorol Ddajoni a gydnabyddir yn yr hwn a addolir. Ac os i Yſpryd diffaith y rhoddir, mae'n gyfeiliofnus ac yn gelwyddog, ac yn cynnwys ynddo bechod Gwrthryfelgarwch; Oblegyd yr ydis yn cam-attal oddiwrth y Brenhin yr anrhydedd dyledus iddo, a pheth fy'waeth yn ei thraws-roddi iw Fradwr ai Elyn. Ac ynfyd yw meddwl nad ymddiala Duw arnynt hyn. o ran ei fod yn dda ragorol, megys pe bai Dial yn anghyttunol ai Ddajoni Ef. Canys mae Trugaredd fel y byddo Cyfiawn yn derfynedig, a lle bo Drygioni yn cynnyddu tros benn meſur, mae Cyfiawnder megys o angenrhaid yn ſiccr ar Goſpedigaeth. Ac nid difeiach eu heſcuſion na'u pechod, pan ddywedent eu bod rhag ofn yn gwaſanaethu Yſprydion Drwg. Canys gan fod yr hwn ſydd gyfiawn-ddajonus, hefyd yn helaeth-gyfrannu o'i ddajoni, ac felly yn Awdur achos pob Anianau Eraill; mae yn calyn wrth hynny mae iddo Ef y perthyn yr Awdurdod ar Llywodraeth oruchaf ar bob anianau, fel y mae'nt gwedi Creu a'u gwneuthur ganddo Ef. yn gymmaint ag nad all un o honynt wneuthur dim a fynno Efe ei rwyſtro, wrth yr hyn y gallwn ddeall yn hawdd, am y ſawl y mae Duw, yr hwn fy anfeidrol o alluowgrwydd a Dajoni, yn addfwyn ac yn garedig iddo, na ddichon yſprydion Drwg niweidio mo'no ddim pellach nag y gwelo Duw yn dda gynnwys iddynt wneuthur er mwyn rhyw ddiben neu berwyl dajonus. Ac nid all Cythreulaid roddi dim on'd a ddylid ei wrthod; oblegyd pan fo'r Drwg yn cymmeryd arno fod yn dda, dyna'r amſer y mae dihiraf, a Rhoddion Gelynion yd-

RHAN IV.

Yn eryn Addoliant y Meirw, ynGhrefydd y Paganiaid.

BU hefyd gynt ac mae etto rai *Paganiaid* a ddywedant eu bod yn addoli Eneidiau 'r meirw. Ond yn gyntaf, f' a ddylasei fod rhyw ragoriaeth hynod rhwng yr Addoliant hwnnw ag Addoliant y Goruchaf Dduw. Ond heb law hyn, ofer yw gweddio arnynt, oni bai allu o honynt wneuthur i niryw gymmwynas, ac nid oes gan y cyfryw Addolyddion ddim gwybodaeth am hynny, ac nid oes achos yn y byd i daeru y gallant, mwy nag i ddywedyd nad allant. Eithr y peth gwaethaf or cwbl, yw ein bod yn gweled am y fawl a anrhydeddir fel hyn, mae Drwg-weithredwyr Echryslon nodedig oeddynt. *Bacchus* a ymroddai i Win, *Hercules* i Ferched, ciaidd wrth ei Frawd oedd *Romulus*, *Jupiter* wrth ei Dâd: yn gymmaint â bod parch y rhai'n yn wradwydd ac yn ammharch ir gwir-Dduw, ac ir Rhinweddau 'r ymhyfryda Efe ynddynt, pan fo tan Rith Crefydd yn rhoddi canmoliaeth i weithredoedd Drwg, sydd o honynt eu hunain yn rhŷ hudolaidd.

RHAN V.

Yn erbyn Addoliant y Sêr ar Elfenau.

YR oedd addoliant y Sêr ar Defnyddiau, o *Ddwfr*, Tân, Awyr, Daiar, yn hŷn na hwn; a chynhawned ag ynteu o Ynfydrwydd ac Anwybodaeth.

Oblegyd

Oblegyd rhan fwyaf o addoliant Crefyddol yw Gweddiau; ac ynfyd yw gweddio ar ddim ond anianau Dealltwru. Eithr mae 'n eglur wrth Synhwyr naturiol nad yw 'r Defnyddiau telly. ac os dywyd neb fod y *Sêr*, ni bydd iddo fodd yn y Byd i brofi hynny, gan nad ellir dirnad dim or fath beth wrth eu cynnyrchiolaeth a'u gweithrediadau; a arwyddocecânt ddull eu Naturiaeth. iê mae digon o Eglurdeb am y gwrthwyneb wrth eu hwŷl au ſymmudiad, yr hwn ſydd ſafadwy a rhag-drefnedig, ac nid anwadal a chyfnewidiol, fel y mae ymmodiad y Creaduriaid ſydd a rhydd-did Ewyllys ganddynt. F'a ddarfu i ni euſys mewn mann arall ddangos fod hwyl y *Sêr* gwedi eu drefnu er llês i Ddynion, ac am hynny y dylai Ddyn gydnabod a deall ei fod ei hun yn gyffelypach i Dduw, o herwydd ei Enaid. ac yn anwylach hefyd ganddo; ai fod wrth hynny yn gwneuthur camm a ſarhâd ai odidowgrwydd ei hun, os ymddaroſtwng ir petheu a drefnodd Duw yn Weinidogion iddo, lle y dylai, yn y gwrthwyneb, ddiolch i Dduw am danynt, yr hyn ni fedrant hwy wneuthur troſtynt eu hunain, neu nid oes dim gwybodaeth y medrant.

RHAN VI.

Yn erbyn Addoliant Anifeiliaid.

EIthr y peth cywilyddiaf or cwbl yw bôd Dynion cyn ynfytted ag addoli Anifeiliaid, yn enwedig yr *Aiphtiaid.* Canys er bod yn rhai o honynt ryw gyſcod Dealltwriaeth yn ymrithio; Etto nid yw ddim wrth ſydd mewn Dyn. Oblegyd ni fedrant ddadcan eu Synniadau, na thrwy Eiriau

doſparthedig na thrwy Argraph, ni fedrant chwaith wneuthur amryw fath o orchwylion, nar un gwaith mewn amryw ffyrdd; llai o lawer y medrant wybod rhifedi neu feſurau, neu hwŷl y Sêr ar Wybrennau. Eithr or tû arall f' a fedr Dyn trwy ei ddeall ai gyfrwyſdra ddal pob math ar Anifeiliaid er cryfed a ffyrnicced y fo'nt, megys pryfeid gwylltion, Adar, Pyſcod, ac mewn rhyw fodd eu doſi cymmhelled a'u gwneuthur yn waſanaethgar iddo 'i hun: megys *Elephantiaid, Llewod, Ceffylau, Ychain*; f' a fedr wneuthur defnydd a llês iddo 'i hun oddiwrth y rhai mwya 'u gwenwyn au niwaid, megys wrth dynnu meddyginiaeth allan o *Seirph* a *Gwiberod*; yn ddiammeu mae'n gwneuthur un defnydd da o honynt oll (er nas gwyddant hwy eu hunain ddim oddiwrtho) ſef dal Sulw ar Gyfanſoddiad eu Cyrph, a chyflead eu haelodau au Cymmalau, ac yno 'n cydgyffelybu eu dull au rhywogaethau, ac felly yn dirnad godidowgrwydd eu natur eu hun, pa faint perffaithiach a godidoccach yw gwneuthuriad Corph Dyn nar Anifeiliaid Eraill. A phwy bynnag a jawn ŷſtyrio hyn oll, f' a fydd cymmaint rhyngddo ag addoli Anifeiliaid eraill megys Duwiau, ag y tybia 'n hyttrach ddarfod ir Duw mawr ei oſod Ef megys rhyw fath ar Dduw bychan arnynt hwy.

RHAN VII.

Yu erbyn addoliant pethau di-ſylwedd.

NI a ddarllennwn am y *Groegiaid* ar *Lladingwyr* ac Eraill, eu bod yn addoli pethau di-ſylwedd, neu ddamweiniau digwyddedig i bethau

Eraill

Eraill. Canys nid i grybwyll am y Duwiesau ffyrnig a elwid y *Cryd-poeth* a *Dig'wilydd-dra* ar cyffelyb, nid oedd y rhai goreu o honynt ddim amgen; nid yw Jechyd ddim ond jawn dymmheriad rhannau 'r Corph; hawddammor ond digwydd i ddyn yn ol ei Ewyllys; ac nid yw 'r Anwydau megys, Cariad, Ofn, Digllonedd. Gobaith sy'n tarddu oddiwrth ysfyriaeth rhyw beth megys y mae'n dda neu 'n ddrwg yn hawdd neu 'n anhawdd. ydynt ryw gynhyrfiadau yn y rhann honno or Enaid, sydd o herwydd y Gwaed yn fwyaf Cysylltedig ar Corph; ac nid ydynt ryddion, eithr tan Lywodraeth yr Ewyllys, sydd o leiaf o ran eu parhâd au cyfeiriad yn rheoli arnynt. Ar Rhinweddau megys Doethineb neu Gallineb i ddewis yr hyn sydd dda a buddiol. Gwrollaeth i anturio Peryglon, Cysiawnder i ochel gwneuthur camm ac eraill; Cymmhedroldeb i gymmesuro pleserau, ac eraill or cyffelyb, ydynt ryw Dueddiadau at Ddajoni ac uniondeb, gwedi eu meithrin yn yr Enaid trwy hir ymarfer, ac megys y gallant gynyddu mewn Dyn, felly hefyd y gellir trwy esgeulusdra eu lleihau, ac or diwedd eu llwyr ddyddymmu. Ac Anrhydedd, ir hon y darllenwn fod Temlau 'n gyssegredig, nid yw ddim ond barn neu dŷb dda pobl Eraill am Ddyn, megys cynnyscaeddol â Rhinwedd; a hyn sydd weithieu yn digwydd ir Drwg, ac nid ir Da. gan fod yn gnawd i Ddynion gamgymmeryd. Gan fod y rhain yntau 'n ddisylwedd, ac heb haeddu eu cyffelybu i bethau sylweddawl, a chan na ddeallant na Gweddiau nac Addoliant, llwyr anrhesymmol yw eu haddoli megys Duwiau; eithr *Ef* yn unig a ddylai barch ac Addoliant o'u herwydd, rhwn a ddichon roddi a chadw y Cynneddfau hyn,

RHAN VIII.

Atteb ir Gwrthreſwm ynghylch Rhyfeddodau a fu ymmyſc y Paganiaid.

ER mwyn clod a chymmeriaeth iw Crefydd, mae 'r *Paganiaid* yn arferol o ddadleu fod Rhyfeddodau yn eu plith. Ond mae llawer o bethau iw dywedyd yn eu herbyn. Oblegyd fod y Gwŷr Doethaf or *Paganiaid* eu hunain yn llyſu bagad o honynt, megys gau a chelwyddog, o eiſieu bod digon o Dyſtiolaeth iw gwirio. Rhai a ddywedir eu gwneuthur, a ddigwyddaſant mewn rhyw lê dirgel; neu mewn tywyllwch, yngwydd un neu Ddau y gellid yn hawdd dwyllo 'u llygaid â rhithiau gweigion trwy ddichell a chyfrwyſdra 'u Crefyddwyr. Mae rhai hefyd a ymddangoſaſant yn rhyfeddol yngolwg Dynion chud na wyddent natur pethau, nac yn enwedig eu dirgel-gynneddfau, megys y digwyddai, ped fai un yn tynnu dŵr ag Ehedfaen yngolwg pobl nas gwyddent oddiwrtho. Trwy 'r cyfryw gelfyddydon y rhagorodd *Simon Magus*, ac *Apollonius Tyanaus*, megys y tyſtiolaetha llawer.

Nid wy 'n gwadu na chanſuwyd yn eu plith bethau amgenach na 'r rhain, nad allai Ddyn o honi herth ei hun weithredu mo'nynt trwy Achoſion naturiol; Ac etto nid oedd raid wrth Hollalluog nerth y Goruchaf Dduw iw gwneuthur. Oblegyd eu bod o fewn cyrraedd Yſprydion ſydd rhwng Duw a Dyn, a fedrant trwy eu cyflymder au gryn, eu dichell au diwydrwydd, droſglwyddo a chaſglu ynghyd bethau anghyſbell, au cyd-gyfanſoddi eu bod o amryw rywiogiaethau i wneuthur rhyw

aruthr

aruthrol Effeithiau oni bo Dynion yn ſynn-ryfeddu ou plegyd: Rellach mae'n amlwg wrth a ddywedaſom or blaen nad da eithr drwg yw 'r yſpryd ion a wnant y cyfryw bethau; a hefyd wrth hyn ſef eu bod yn cydnabod mae eu cymmell y byddid trwy ryw Swynion Cyfareddawl yn erbyn eu hewyllys, pan yw'r Gwŷr *Doethaf* or *Paganiaid* yn dywedyd yn un-air, nad oes dim or fath rin mewn geiriau, eithr i ddwyn ar ddeall yn unig, a hynny yn ol dull ei harwyddoccâd.

Ac arwydd arall o'u dryganiaeth, yw eu bod yn ſynych yn cymmeryd arnynt hudo hwn neu'r llall yn erbyn eu hewyllys i garu hon neu arall; yn yr hyn y mae'nt yn gwneuthur llwyr-gam, naill ai trwy addewidion celwyddog ai trwy wneuthur drwg; gan fod cyfreithiau Dynol hefyd yn gwahardd y cyfryw riniau melldigedig. Ac ni ddylai neb ryfeddu fod y Goruchaf yn cynnwys i Gythreuliaid wneuthur rhyw bethau aruthrol ymymmhlith y Cenhedloedd; Oblegyd da y dylent eu dallu trwy 'r cyfryw Hudoliaethau, wrth-gilio o honynt or blaen oddiwrth Addoliant y Gwir Dduw,

A hyn hefyd ſydd arwydd o'u han-allu, ſef na wnaeth eu gwyrthiau erioed mor dajoni a dalai ſôn am dano. Oblegyd os paraſant i neb gwedi marw ymddangos yn fyw drachefen, nid allodd y rhei'ny mor byw chwaith hir, na gwneuthur y gwaſanaeth a berthynai i Greaduriaid byw eraill. Ond os canfuwyd fyw bryd ymmhlith y *Cenhedloedd* wrthiau yn deilliaw oddiwrth hollalluog nerth Duw, ni ragfynegwyd, er hynny, mae er mwyn ſicrhau eu Crefydd hwynt y gwneid y cyfryw bethau, ac am hynny nid oedd dim i rwyſtro nad allai fod achos a bwriad arall, digon pell

oddiwrth hynny, gan yr Hollalluog iw wneuthur; Felly, os gwir yw edfryd o *Veſpaſian* olwg i Ddyn dall, f'a wnaethpwyd hynny, fel y gallai Ef fod yn anrhydeddus ymmhlith y *Rhufeiniaid*, a dyfod wrth hynny 'n haws i berchennogi yr Ymmerodraeth: ir hyn y detholaſei Duw Ef i gyflawni ei farnedigaethau Ef yn erbyn yr *Iuddewon*. Ac felly y gallaſei fod y cyffelyb Achoſion am Ryfeddodau Eraill, na pharthynent ddim iw Crefydd hwynt.

RHAN IX.

Ac ynghylch Oraclau.

F'a ellir cyfaddaſu 'r un Rheſymmau, gan mwyaf, i atteb yr hyn a ddadleuant ynghylch *Oraclau*; neu Attebion a Dadcuddiadau eu Duwiau: yn enwedig lle y dywedaſom mae da yr haeddent hwy eu twyllo am ddiyſtyru 'r wybodaeth ar Eglurdeb yr oedd Rheſwm a Thraddodiad or hynaf yn ei yſpyſu iddynt. Heb law hyn, yr oedd Attebion eu Duwiau fynychaf o ddau feddwl, fel y gellid eu deongli 'n gyfatteb ir hyn a ddigwyddai beth bynnag a fyddai. Ac os rhag-fynegaſant ddim yn ſiccrach, nid oedd raid wrth anfeidrol wybodaeth i ddadcuddio monynt, Oblegyd naill a'i 'r oeddynt yn gyfryw ag y gellid eu rhag-ddirnad trwy Achoſion naturiol, y pryd hynny 'n hanfod, megys y rhag-fynegodd rhai *Phyſygwyr* ddoluriau cyn eu dyfod, neu f'a ellid eu dyfalu a bwrw amcan cyffelybiaeth am danynt wrth y pethau fy 'fynycha 'n digwydd, fel y darllennwn ddarfod i rai Gwyr cyfarwydd yn helyntiau Gwledydd a Theyrnaſoedd, yn fynych

wneuthur

wneuthur. Hefyd arferodd Duw weithieu weinidogaeth Prophwydi Cenhedlig i Ddarogan rhai pethau nad allai ſod achos ficcr yn y byd, ond Ewyllys Duw, iw peri, ni pherthynai hynny i ſiccrhau Crefydd y *Paganiaid*, eithr yn hytrach iw diniſtrio ai dadymchwel. Cyfryw oedd y Daroganau a ddarllennir yn *Virgil* yn y pedwerydd o'i Ganiadau, gwedi eu benthycca o Ganiadau 'r *Siblau*, lle mae 'r Bardd yn ddiarwybod yn portreiadu dyfodiad a Doniau *Chriſt*. Felly y dywed Caniadau 'r *Siblau* hynny, y dylid ei gydnabod Ef am Frenhin, yr hwn a fyddai 'n wir Frenhin ini; ac mae or Dwyrain y deuai 'r hwn a fyddai yn Berchennog ac yn Benrheolwr pob peth. Darllennir yn *Porphyrius* am Ddewiniaeth *Appolo*; yr hwn a ddywed nad yw Duwiau Eraill ond Yſprydion yr Awyr, ac mae un Duw 'r *Hebræaid* ſydd iw addoli, Ac os Addolyddion *Appolo* a ufuddhant yw Air Ef, mae 'n rhaid iddynt ymwrthod ai Addoliant Ef, os na wnant, mae'nt yn gwneuthur eu Duw yn gelwyddog. Bwriwch at hyn bellach, pe buaſei 'r Yſprydion hyn a'u bryd ar wneuthur lleſhâd i Ddynion, hwy a fuaſent yn anad dim yn goſod iddynt Reol gyffredinol i fyw wrthi, ac yn rhoddi ficcrwydd hefyd am Wobr a Thaledigaeth ir ſawl a ymfucheddent yn gyſattebol, Eithr nis gwnaethant y naill nar llall.

Eithr yn y gwrthwyneb mae'nt yn fynych yn eu Mydrau yn canmol rhai Brenhinoedd, er eu bôd yn ddynion or dihiraf, yn rhoddi Duwiol Anrhydedd i Ryſwŷr Gorcheſtawl, yn hudo dynion at Gariadau Anghyfreithlon, i ymgais am Flw anghyfiawn, ac i wneuthur Llofruddiaeth ſel y gellid dangos trwy lawer o Eſamplau.

RHAN

RHAN X.

Diddedlir Paganeidd-dra o herwydd fod iddi ddiflannu o honi ei hun pan gollodd hi Gymmorth Dynion.

HEB law a ddywedaſom or blaen, mae *Paganeidd-dra* yn hepcor i ni un Rheſwm rhagorol yn ei herbyn ei hun; ſef ſyrthio a diflannu o honi 'n llwyr ymmhob mann, lle collodd hi Gymmorth Dynion, megys pe buaſei ei hunig Gynheiliad ai cholofn gwedi ei dorri i lawr ai ddadymchwel. Oblegyd os bwriwch olwg o amgylch ar y Gwledydd ar Teyrnaſoedd ſydd tan Lywodraeth *Chriſtianogion* a *Mahumediaid*, nid oes, oddieithr mewn Llyfrau, ddim Coffa am *Baganeidd-dra*. iê, mae Gôf-lyfrau yn dangos, yn yr amſeroedd hynny pan oedd yr Ymmerodron trwy nerth Arfau a Chroſpedigaethau, megys yr oedd y rhai cyntaf, neu trwy Ddyſgeidiaeth a Synhwyr megys yr oedd *Julian* yn ceiſio cynnal i fynu Greſydd y *Paganiaid*, ei bod hi er hynny yn gwanhychu beunydd, a hynny, nid trwy wrthwynebion Creulondeb ac Erlidiau, nid trwy Arddercheowgrwydd Achau (canys ni chyfrifid yr *Jeſu* gan y bobl Gyffredin, ond mab i Saer) nid trwy floddeu Dyſceidiaeth, oblegyd nid arferai 'r ſawl a ddyſcaſant Gyfraith Chriſt ddim or fath beth yn eu Pregethau, Nid trwy Roddion (Canys Tlodion oeddynt) nid trwy Eeiriau têg ac ymadroddion gwênjeithus, pan oeddynt yn y gwrthwyneb yn mynegi y gorfyddai ir ſawl a dderbyniant Gyfraith *Chriſt*, ddiyſtyru pob Elw a difyrrwch bydol, a goddef pob adfyd a chaledi o'i hachos.

Gwelwch ynteu faint gwendid *Paganeidd-dra*, pan

pan allodd y fath arfau ei gorfod ai dinyſtrio.

Ac ni ddiflannodd Crediniaeth y *Paganiaid* yn unig trwy'r Athrawiaeth honno. Eithr yr Yſprydion a yrrwyd allan o Gyrph Dynion, ac a dawſant, a phan ofynnid iddynt yr achos o'u mudaniaeth, gorfu arnynt gyfaddef nad allent hwy ddim lle y gelwid ar Enw *Chriſt.*

RHAN XI.

Atteb ir ſawl a ddywedent fod Dechreu a Diwedd pob Crefydd yn deilliaw oddiwrth weithrediad y Sêr.

BU gynt *Philoſophyddion* a daerant mae'r Sêr oedd yr achos o Godiad a goſtyngiad pob Crefydd, eithr y wybodaeth wybrennawl y mae'r Gwyr yma 'n cymmeryd arnynt eu bod cyn gyfarwydded ynddi, a draddodir tan y fath amrafael reolau, nad all Dyn fod yn ſiccr o ddim ond hyn, ſef nad oes dim ſiccrwydd ynddi

Nid wy 'n ſôn am yr Effeithiau fy'n deilliaw yn angenrheidiol oddiwrth Achoſion naturiol. Eithr am y rhai a darddant oddiwrth Ewyllys Dyn, yr hwn ſydd o'i ran ei hun cyn rhydded nad all dim oddiallan gymmell mo'no I ewyllyſio 'n amgen nag y mynno. Canys pe gorfyddai ar Ddyn Ewyllyſio yn ol y cyfryw gymmelliad, Ofer ac anfuddiol fyddai y rhydd-did a roddwyd yn Enaid Dyn i ymgynghori a dewis, yr ym ni ynom ein hunain yn ei ſynnied, ac wrth hynny llwyr ddarfyddai am Gyfiawnder pob Cyfreithiau, a phob Gwobrwyon a Choſpedigaethau, gan nad all fod na bai, na haeddedigaeth yn yr hyn ſydd

gwbl

gwbl-anocheladwy, Heb law hyn, gan fod rhai o Weithrediadau 'r Ewyllys yn bechadurus, pe fai y rhei'ny o anghenrhaid yn deilliaw oddiwrth Sêr y Nefoedd, trwy roddi o Dduw iddynt y cyfryw Affaithiolaith, f'a fyddai Duw yr hwn fydd berffaith-gwbl- ddajonus, wrth hynny yn achos ficcr o ddrwg Moefawl neu bechod: a phan yw trwy ei Gyfraith ofodedig yn addef ei fod yn ffieiddio anwiredd, yr hwn oedd raid iddo ddeilliaw 'n ddiochel oddiwrth rym effeithiawl a blannodd Ef yn y Creaduriaid, f'a fyddai raid iddo Ewyllyfio dau beth gwrthwynebol iw gilydd, fef gwneuthur, a pheidio gwneuthur yr Un peth: ac wrth hynny pechai ddyn yn yr hyn y byddai Duw yn ei gymmell iw wneuthur. Mae Fraill yn ymreſymmu 'n fwy cyffelybol, pan ddywedant fod Affaithiolaeth y Sêr yn gyntaf yn cynhyrfu 'r Awyr, ar Awyr ein Cyrph ninnau, ac yn defnynnu ynddynt y cyfryw gynneddfau ag fydd, gan mwyaf, yn codi trachwantau cyfattebol yn yr Enaid; a bod y rhain yn llithro, ac yn denu 'r Ewyllys, ac ynteu 'n fynych yn Ufuddhau. Ond pe cydnabyddid hyn, nid yw ddim or peth y dechreuafom y ddadl yma o'i herwydd. Oblegyd, gan fod Creſydd *Chriſt* yn anad dim yn gwahardd Dynion rhag bodloni deiſyfiadau 'r Corph, nid oedd fodd iddi darddu oddiwrth drachwantau Cnawdol, ac am hynny nid allai chwaith darddu oddiwrth weithrediadau 'r Sêr, y rhai, fel y dywedafom: nid ymmyrriant ar Enaid ond trwy yr cyfryw Drachwantau. Mae 'r Sywedyddion callaf yn cyfaddef nad yw Gwŷr Da Doethion tan reoloeth y Sêr, ac yn wir-ddiau cyfryw oedd y fawl a dderbyniafant y Creſydd Griſt'nogol gyntaf, fel y mae eu bucheddau 'n Eglur-fynegi. Ac os cydnabyddwn y dichon Dyſc a Gwybodaeth beth, tu-

ag at

g at ein cadw oddiwrth Halogedigaeth y Cnawd,
r oedd bob amſer ymmhlith y *Chriſt'nogion* rai
Gwŷr Canmoladwy o herwydd hynny hefyd. Heb
w hyn, mae 'r Dyſcedigion mwyaf, yn cyſaddef.
ad yw Affaithiolaeth y Sêr yn cyrraedd ond rhyw
arthau or byd, ac nad ydyw ond tros amſer.
Eithr parhaodd y Grefydd yma fwy na mil a chwe-
hant o Flynyddoedd, nid mewn un frô, eithr
newn ardaloedd anghyſbell a'r rhai ſydd tan gyſt-
ad Sêr digon pell ac anhebyg iw gilydd.

RHAN XII.

Dangoſir fod Prif-bynciau 'r Grefydd Grift'nog-
ol *yn gymmeradwy gan y Gwyr doethaf or* Pagan-
iaid, *ac od oes ynddi ddim anhawdd ei gredu,*
mae 'r cyffelyb yn eu plith hwythau.

EIthr'nid oes ir *Paganiaid* ond llai Achos i ddad-
leu yn erbyn y Grefydd Grift'nogol, Oble-
gyd fod pob rhan o honi cyn bured a chyn ddi-
feiuſed, au bod trwy eu goleuni eu hunain yn yn-
hill ſerch-a meddyliau Dynion; yn gymmaint ag
nad oedd eiſieu chwaith ymmhlith y *Paganiaid*,
rai a ddywedaſant bob peth a draddodir yn gyff-
redinol ac ir unffordd yn ein Crefydd ni. felly y
dywedpwyd nad yw Crefydd yn ſefyll mewn De-
fodau eithr yn y meddwl ar Yſpryd; Godinebwr
yw 'r hwn a chwennychai wneuthur Godineb; ni
ddylid talu drwg am ddrwg; ni ddylai fod gan un
Gŵr onid un Wraig; f'a ddylai Gyſammod Prio-
das fod yn barhaus ac yn ddi-ollyngdod? mae
Dyn yn rhwymedig i wneuthur da i bawb, yn
enwedig ir Anghenus; mae 'n rhaid ymgadw rhag

tyngu

tyngu cymmhelled ag y galler; dylem ymfodlon ar ymborth a dillad a wasanaetho i ddiwallu an enrheidiau Natur. Ac od oes yn y Grefydd Gri 'nogol ddim anhawdd ei gredu, mae 'r Cyffely iw gael ymmysc y rhai Doethaf or *Paganiaid* fel y dangosasom or blaen ynghylch Anfarwolde yr Enaid ac Adgyfodiad y meirw. Felly y ma *Plato*, gwedi ei ddyscu gan y *Chaldæaid.* yn dos parthu Natur Duw, yn Dad, yn Feddwl Duw, (y mae 'n ei alw hefyd Blaguryn Duw, Gwneuthurwr y Byd) ar Enaid neu 'r Yspryd sy'n amgyffred ac yn cyd-gynnal pob peth. A *Julian*, er maint Gelyn ydoedd ir Christ'nogion, oedd y credu y gellid Cydgysylltu Natur Duw a Dyn; a yn dangos arwydd o hynny yn *Æsculapius.* y hwn (fel y mynai Efe) a ddescynnodd or Nef i ddysgu i Ddynion gelfyddyd Physigwriaetth mae Croes *Christ* yn rhwystro llawer, eithr pa beth ni ddywed Awdwyr *Cenhedlig* am eu Duwiau? fo rhai o honynt yn Weinidogion i Frenhinoedd eraill gwedi eu taro o Fellt neu Daranau, rhai gwedi eu gwahanu 'n Ddrylliau, au briwo 'n anafus. Ar rhai Doethaf o honynt a ddywedasant mae pa druttaf oedd ini fyw 'n rhinweddol, mwya fyddai 'n llawenydd an difyrrwch or Achos. Ac y ei Ail Llyfr ynghylch Llywodraeth wledig y dywed *Plato* megys ped fuasei Brophwyd, am y sawl a ymddangosai 'n wir Gysiawn, y byddai raid iw rinwedd fod yn noeth, heb ddim iw harddu ai phrydferthu: yn gymmaint a bod yn rhaid iddo gael e farnu gan Eraill yn Ddihirwr drygionus, a chael e watwor ai ddiystyru ai grogi yn y diwedd, Ac y wir nid allai, mewn modd yn y byd arall mor, bo yn Esampl o gysiawn Ammynedd.

Y PUMMED

Y PUMMED LLYFR

YNGHYLCH

GWIRIONEDD

Y

GREFYDD GRIST'NOGOL.

RHAN I.

Gwrth-ddadl yn erbyn Crefydd yr Juddewon *yn dechreu ag ymadrodd wrthynt.*

MEgys y bydd rhyw Wawr lwŷd rhwng Goleuni a thywyllwch yn ymddangos o fesur chydig i'r fawl a fo'nt yn ceisio ymewino allan o Ogof dywyll, felly 'i ninnau fy'n ymadel a niwl â-dew *Paganeiddiaeth*, yr ymgynyg Crefydd yr *Juddewon*, Rhan a Dechreuad y Gwirionedd, am ynny ynteu dymunafar yr *Juddewon* na bont wrthyssig a gwrthwynebus i wrando arnom.

Nyni a wyddom, mae hiliogaeth ydynt i wŷr sanctaidd, y byddai Dduw trwy ei Brophwydi ai

ai Angylion yn arferol o ymweled â hwynt, o
Genhedl yma y ganwyd y *Meſſiab*, a Dyſcawdwy
cyntaf Chriſtianogaeth. O honynt hwy y mae
Pren ir himpiwyd ni ynddo. Hwynthwy ydym
Geidwad ymadroddion Duw, y rhai a barchwn
ni cyſtal a hwythau, ac yr ydym gydâ St. *Paul* y
tywallt ocheneidiau at Dduw troſtynt, gan weddi
am gyflym ddyfodiad y Dydd hwnnw, y pryd
gwedi tynnu ymaith y gorchudd ſydd ar eu hwyn
ebau, y caffont gydâ ni eglur-weled cyflawnia
y Gyfraith, ar pryd y byddo pob un o honom n
ſydd Ddieithraid (yn ol Daroganau euHên Bro
phwydi hwynt) yn ymaflyd yngodrau Gwr o *Ju
ddew*, gan ddeiſyf cael, trwy gyttûn Dduwioldeb
addoli r unig Dduw, ſef Duw, *Abraham*, *Iſaac* a
Jacob,

RHAN II

Dangoſir y dylai r Juddewon *farnu fod Gwyrthia
Chriſt â digon o Eglurdeb am danynt.*

YN gyntaf dymunir arnynt na thybiont yn ang
hyſiawn yn achos Fraill, yr hyn a farnant yn
gymmwys yn eu hachos eu hunain, pêd gofynnai
rhyw Anghredadyn iddynt hwy pa ham y coel
ient wneuthur o *Foſes* Ryfeddodau, ni fedrent roddi
un atteb, ond bod y Gair o hynny yn eu plith hwynt
au hynafiaid mor gyta wafiadol, nad oedd fodd iddo
amgen na deilliaw oddiwrth Dyſtiolaeth y ſawl a'i
gwelſent, felly y crêd yr *Juddewon* ychwanegu o
Eilzæus doreth Olew 'r Wraig Weddw, jachau
o honaw *Naaman* y *Syriad* o'i wahanglwyf, ac ad
fywiogi mab ei Letteu-wraig, a phethau Fraill cy
ffelyb ir rhain a goeliant heb achos arall yn y byd
ond

ond bod Tystion Geir-wir siccr-gredadwy gwedi mynegi 'r traddodiad iw hil au heppil ar eu hol. Ac y maen't yn credu ddarfod eymmeryd neu gippio *Elias* i fynu ir Nef ar Dystiolaeth *Elizæus* ei hun megys Gŵr nad oedd le i ammeu mo'no. Eithr mae gennym ni am dderchafael *Christ* ir Nefoedd ddeuddeg o Dystion o wŷr difai yn eu hymarweddiad a'u bucheddau, a llawer ychwaneg a dystiolaethasant ei weled Ef yn fyw ar ol ei farwolaeth, Ac os gwir y petheu hyn, dir yw mae gwir ei Athrawiaeth Ef hefyd, Ac yn wir diammeu nid oes reswm yn y byd gan yr *Juddewon* iw ddadleu trostynt eu hunain nad oes gennym ni gymmaint neu fwy hawl iw gyfaddasu in hachos ninnau Ond fel na foniom am ychwaneg o Dystiolaethau, mae Awdwyr y *Talmud* a'r *Juddewon* eu hunain yn cyfaddef wneuthur o *Grist* Ryfeddodau gwyrthfawr, a hynny yn unig a ddylai wasanaethu, o herwydd nid oes gan Dduw fodd siccrach i gadarnhau Awdurdod un Athrawiaeth a gyhoedd r gan Ddyn, na thrwy wneuthur Rhyfeddodau e

RHAN III

Atteb ir Sawl a daerant mae trwy Nerth Cythreuliaid y gwnaethpwyd y Rhyfeddodau hyn.

EIthr rhai a ddywedent mae trwy nerth Cythreuliaid y gwnaethpwyd Rhyfeddodau *Crist*: ond ni a ddangosasom or blaen anwiredd ac ynfydrwydd yr Enllib hwnnw, o herwydd profi o honom ballu o holl nerth Cythreuliaid ym mhob mann lle'r addfabyddid Athrawiaeth *Christ*. ac am y ddywed rhai

dyſcu or *Jeſu* Gelfyddydon Swyngyfareddawl yn yr *Aipht*, mae'n llawer anghyffelypach i wir na'r Camgyhuddiad, tebyg i hwn ſydd gan y *Cynhedloedd* yn erbyn *Moſes*: megys y dariennwn yn *Pliny* ac *Apuleius*. Oblegyd nid oes dim hyſpys rwydd fod *Jeſu* eirioed yn yr *Aipht* ond trwy Lyfrau ei Ddiſcyblion Ef, y rhai, a ddywedant hefyd. ddychwelyd o honaw, pan oedd ef'o faban. Ond mae 'n ddiddadl dreulio o *Foeſen* lawer oi amſer yn yr *Aipht*, pan oedd mewn Oedran a Synhwyr, fel y mae ei Yſgrythyrau Ef ei hun ac Eraill yn tyſtiolaethu. Ond mae Cyfraith pob un or Ddau wrth eglur-wahardd y cyfryw gelfyddydon megys ffieidd-gâs gan Dduw, yn llwyr lanhau *Moſes* ar *Jeſu* oddiwrth y bai yma. Hebllaw hyn, pe buaſei 'n amſer yr *Jeſu* ai *Ddiſcyblion* nac yn yr *Aipht*, nac 'yn unlle arall y fath Gelfyddyd Swyngyfareddawl, trwy 'r hon y gallesid gwneuthur y fath wrthiau ag y fynegir eu gwneuthur or *Jeſu*, megys edfryd mudion yn ebrwydd i lefaru, Cloffion i gerdded, a Deillion i weled, yn ddiammeu f' a fuaſei *Tiberius*, *Nero* ac Ymmerodron Eraill yn dyfod o hyd iddi, gan nad Eiriachaſant na thraul na llafur i chwilio am gyfryw gyfarwyddid.

Ac os gwir a ddywed yr *Juddewon*, fod Henuriaid y Cyngor mawr yn gyfarwyddion mewn celfyddydau Swyngyfareddawl, fel y gallant argyoeddi y fawl a fyddant yn euog or drygioni hwnnw, yn ddiammeu gan eu bod yn Elynion atcas i *Jeſu*, ac yn cenſigennu o herwydd ei Anrhydedd Ef, a gynnyddai 'n bennaf oblegyd Rhyfeddodau, naill ai hwy a wnaethant y cyffelyb weithredoedd trwy 'r un gelfyddyd, ai goleu-fynegaſant trwy Reſymmau eglur, nad oedd ei wrthiau Ef yn deillaw oddiwrth ddim arall.

RHAN

RHAN IV.

Neu trwy nerth Geiriau.

FIthr am yr hyn a ddychymygodd rhai or *Juddewon* ynghylch gwyrthiau 'r *Jesu*, y rhai a daerant êu gwneuthur o Honaw trwy ryw Enw dirgel a osodasei *Solomon* yn y *Deml*, a gadwesid yno gan ddau *Lew* tros fwy na Mil o Flynyddoedd, ac meddant, a ddygasei 'r *Jesu* oddyno yn lledrad, mae nid yn unig yn Hên-chwedl ynfyd fithr hefyd yn gelwydd dybryd dig'wilydd, gan nad oes na sôn na chrybwyll am y *Llewod* hynny (ac ynteu 'n beth or hynodaf ac or rhyfeddaf.) nac yn Llyfrau 'r *Brenhinoedd*, nar *Chronicl*, na chwaith yn *Josephus*. Ac ni chafodd y *Rhufeiniaid* ddim or fath beth, pan aethant i mewn ir *Deml* gydâ *Phompeius*.

RHAN V.

Dangosir mae o Dduw yr oedd Rhyfeddodau 'r Jesu, Oblegyd dyscu o honaw i bawb addoli un Duw, Gwneuthurwr y Byd.

GAn fod yn wir ynteu wneuthur o *Grist* Ryfeddodau, fel y cydnebydd yr *Juddewon*, mae yn eglur wrth Gyfraith *Moses* y dylid credu iddo. Canys dywedodd Duw, *Deut.* XVIII. Ycyfodai Ef Brophwyd Eraill ar ol *Moses*, ac y byddai raid ir bobl ufuddhau iddynt; ac onid ê 'r oedd Cospedigaethau trymmion i syrthio arnynt. Bellach yr Arwyddion Siccraf i adnabod Prophwydi

ydynt Ryfeddodau. Ac nid ellir meddwl am eu heglurach. Eithr dywedir (yn *Deut.* 13.) Os cyfyd Prophwyd a gwneuthur o honaw Ryfeddodau, na ddylid credu iddo, os cais hudo 'r Bobl i addoli Duwiau dieithr. Canys Duw fydd yn cynnwys gwneuthur y fath Ryfeddodau yn unig i brofi 'r Bobl, i edrych a arhosent yn ddiyfeog yn addoliant y gwir Dduw. Mae Dyfcawdwyr yr *Hebræaid* wrth gyd-gyffelybu y mannau hyn, yn barnu yn union fod yn rhaid credu i bob un a wnelo ryfeddodau, oddieithr iddo dynnu rhai oddiwrth addolant y gwir Dduw. Oblegyd yn yr achos hwnnw 'n unig y rhagfynegwyd. na ddylid credu rhyfeddodau, er tecced yr olwg arnynt. Eithr yr *Jefu* nid yn unig ni ddyfcodd i neb Addoli gau-Dduwiau, Ond or tû arall f' a waharddodd hynny 'n bendant megys Pechod or Echryflonat, ac an dyfcodd hefyd i berchi Yfgrythyrau *Moſes* ar *Prophwydi* a ddaethant ar ei ôl Ef. Am hynny ynteu nid oes dim iw ddywedyd yn erbyn ei Ryfeddodau Ef.

RHAN VI.

Atteb ir Gwrthreſwm ynghylch y rhagoriaeth ſydd rhwng Deddf Moſes, *a chyfraith* Chriſt, *lle y dangoſir y galleſid dodi perffeithiach Cyfraith nag a draddododd* Moſes.

OBlegyd ni wafanaetha 'r hyn a ddadleu rhai ynghylch y rhagoriaeth fydd mewn rhyw bethau rhwng Creiydd *Chriſt* a Deddf *Moſes*. Oblegyd mae Dyfcawdwyr yr *Hebræaid* eu hunain yn gofod ar lawr y Rheol yma, fef, y gellir yn

yn ddiarſwyd, ar archiad *Prophwyd*, a wnelo Ryfeddodau, dorri 'r gorchymmyn a fynner, oddieithr yr hwn a berthyn i Addoliant yr unig wir Dduw. Ac yn ddiau ni chollodd Duw, gwedi hynny, mor Awdurdod oedd ganddo i wneuthur Cyfreithiau pan roddes Ff y Gorchymmynion trwy law *Moſes*, a Phwy bynnag a oſodo Gyfreithiau trwy rym ei Awdurdod ei hun, ni luddia hynny iddo wneuthur rhai eraill yn y gwrthwyneb.

Am yr hyn a ddadleuant y byddai Duw wrth hynny yn gyfnewidiol, nid yw ddim: Oblegyd nid ydym yma yn ſôn am Natur Hanſodol Duw, eithr am ei weithredoedd. Cyfnewidir Goleuni yn dywyllwch, Jevienctid yn Henaint, yr Hâf yn yn Aiaf, ar cwbl trwy waith Duw. Caniattaodd Duw gynt i *Addaf* fwytta o holl brennau eraill yr *Ardd*, ond gwahardd o honaw un Prenn: ſef, o herwydd mae hynny oedd ei ewyllys Ef. F' a waharddodd yn gyffredinol i Ddynion lâdd eu gilydd; ond f' a orchymmynodd i *Abraham* lâdd ei Fab. Weithieu y gwaharddai Aberthu allan or Gyſſegrfa, weithieu y bodlonai i hynny. Ac os da oedd cyfraith *Moſes*, etto nid oes reſwm yn y Byd i ddangos nad ellid goſod un well ac amgenach na hi. Mae Rhieni 'n arferol o Siarad baldordd a ffiloreg au Plant bychain, yn cyd-ddwyn a beiau eu mebyd. ac yn eu llithio i ddyſcu ag Afrlladen nea Deiſen. Ond pan ddelont mewn oedran, ceryddir ac adgyweirir eu hymadrodd, defnynnir ynddynt Athrawiaethau Rhinwedd a Duwioldeb, a dangoſir iddynt Brydferthwch a gwobr cywirdeb ac ymarweddiad da diniwed. Bellach, mae'n eglur wrth hyn nad cwbl-berffaith oedd Cyfraith *Moſes*, ſef, o herwydd fod Buchoeddau Gwŷr Sanctaidd yn yr Amſeroedd hynny yn well, ac yn rhagor;

ar Rheolau 'r Gyfraith. Felly *Moſes* ei hun, er e fod yn cynnwys ir bobl ddial eu camm naill a'u dwyllo 'u hunain ai trwy Gwynion Cyfraith, etto pan fi nwyd E: â chamweddau er Echryſonal ſ' a ymbiliodd tros ei Elynion. Felly *Dafydd* hefyd a chwennychodd arbed ei Fab Gwrthryfelgar; ac a ddioddefodd yn ammyneddgar y Rhegfeydd ar Gogan-Eiriau melltigedig a ergydiwyd yn ei erbyn, nid ydym yn darllain yn unlle am un Gwr dâ a fwriodd ymaith ei Wraig, er bod y Ddeddf yn cynnwys hynny. Ar Achos yw o herwydd y cyfaddafir Cyfreithiau at Dueddiad y rhan fwya or Bobl: Ac am hynny pan oeddynt yn y cyflwr hwnnw cymmwys oedd cyd-ddwyn a rhyw bethau, a ddiwygid ac a adnewyddid drachefen pan welai Duw 'n dda, trwy gyflawnach gynnyrchiolaeth ei lân yſpryd, gafclu pobl newydd briodol iddo 'i hun, allan o bob Cenhedloedd. Ac nid yw 'r Gwobrwyon oll a addewir yn eglur yn Neddf *Moſes* yn perthyn o nd ir bywyd marwol hwn; O herwydd pa ham, mae'n rhaid cydnabod y gellid rhoddi gwell Gyfraith na honno, a gynnhygiai i ni wobrwyon tragywyddol, nid tan gyſcodion, eithr yn oleu ac yn amlwg, fel y gwelwn wneuthur o Gyfraith *Chriſt*.

RHAN VII.

Yr oedd Iesu 'n oadw Deddf Moſes, ac ni ddiddymmodd Ef ddim or Cyfreithiau, oeddynt o honynt eu hunain yn dda ac yn rhinweddol

YN y cyfamſer, er mwyn argyoeddi Drygioni ar Anghyfiawnder yr *Iuddewon* oeddynt yn byw yn amſer

amſer *Chriſt*, ni a allwn ddal Sulw wneuthur o honynt lwyrgamm greſynol ag ef, ai goſpl yn ddiachos, pan nad allent gyhuddo mo'no mewn modd yn y byd am droſeddu 'r Gyfraith, yr oedd yn Enwaededig; Yr oedd yn arfer yr un Bwyd ar *Juddewon* eraill; ar un fath Ddillad; y ſawl a lanhawyd ganddo o'u gwahanglwyf, f' au danfonodd at yr Offeiriad; y *Paſc* a Gwylau eraill a gadwodd yn grefyddol; os jachaodd efe rai ar y *Sabboth*, f' a ddangoſodd wrth y Gyfraith ac wrth Reſymmau cymmeradwy, nad ydoedd y cyfryw weithredoedd waharddedig ar y Sabboth. Ar amſer y dechreuodd Efe gyntaf gyhoeddi diddymiad rhai Cyfreithiau, oedd gwedi gorchfygu Angeu ac eſcyn yn orfoleddus ir Nêf, pan Urddodd Ff ei Ddiſcyblion a Doniau ardderchog yr Yſpryd Glân; ac y dongoſodd wrth y pethau hyn gael o honaw Reolaeth Frenhinawl, ſy 'n cynnwys ynddi Awdurdod i Seilio Cyfraith: a hynny yn gyfattebol i Brophwydoliaeth *Daniel* (*Pen.* 2. ar 7. os cyffelybir a *Phen.*8, ar 11. Yr hwn a ragfynegodd mae ychydig gwedi dinyſtrio Brenhiniaethau *Syria* ar *Aipht*, (ar diweddaf or rhai'n a ddigwyddodd yn amſer *Auguſtus*) y rhoddai Dduw i wr Cyffredin o ran golwg Lywodraeth ar holl Genhedloedd y Byd, o bob Gwlâd ac o bob Jaith, ac na ddarfyddai byth am y Frenhiaeth honno.

Ac nid oedd y rhan honno or Gyfraith, in rhyddhaodd *Chriſt* oddiwrth ei dir rwymedigaeth, yn Cynnwys dim oedd o'i ran ei hun yn rhinweddol ac yn ganmoladwy. eithr yn perthyn i bethau oeddynt ou rhan eu hunain, yn ddiddrwg ddidda, ac felly heb fod yn anghyfnewidiol. Oblegyd pe ſuaſei ryw Ddajoni o'u rhann eu hunain yn y pethau hynny, o herwydd pa ham y dyleſid eu gwneu-

gwneuthur ſa'u gorchymmynaſei Duw i holl Bobl y Byd, nid i un Genhedl yn unig, a hynny 'n ebrwydd er Dechreuad y Byd, nid gwedi byw o Ddynoſ ryw ynddo tros twy na Dwyfil o flynyddoedd. Ac yr oedd *Abel*, *Enoch*, *Noah*, *Melchiſedec*, *Job*, *Abraham*, *Iſaac* a *Jacob*, er eu bod oll yn Wŷr Duwiol, ac yn anwyl gan Dduw, yn anghydnabyddus ar rhan yma or Gyfraith, naill ai ei gyd, ai oddieithr ychydig, ac ni chawſant o herwydd hynny lai tyſtiolaeth o'u ffyddlondeb tuag at Dduw, nac o gariad Duw tuag attynt hwythau. Ac nid annogodd *Moſes* mo *Jethro*, ei Dad ynghyfraith, i gadw y *Defodau* hyn, na *Jonah* y *Nimſæaid*. Ni cheryddodd *Prophwydi* eraill chwaith mor *Chaldæaid*, yr *Aiphtiaid*, ar *Sydoniaid* ar *Tyrciaid*, yr *Idumæaid* ar *Moabiaid*, o eiſieu derbyn o honŷnt y Defodau hyn, pan ydynt yn manwl gyfrif eu pechodau a'u hanwireddau. Am hynny ynteu Gorchymmynion a berthynai ir *Juddewon* yn unig oedd y rhai'n, ac a ddygwyd i mewn iw Cyfraith hwynt naill ai er gochel rhyw ddrwg yr oedd yr *Juddewon* yn chwannog ac yn llithiadwy iddo, ai er profi eu hufudd-dod, ai er arwyddoccau rhyw bethau i ddyfod. Am hynny ynteu, nid oes achos yn y byd i ryfeddu y gelliid dileu y Defodau hynny, mwy na phe diddymmai Frenhin ryw Freintiau neilltuol a berthynai i un Dref neu Ddinas, fel y gallai Sefydlu 'r un Gyfraith yn ei holl Deyrnas. Ac nid oes reſwm yn y Byd i brofi ymrwymo o Dduw cyn gaethed ag nad allai newid dim or Gyfraith honno. Oblegyd er bod yn galw y rhain yn Ddeddfau tragywyddol, neu oeſtadawl mae Dynion yn fynych yn arfer y gair hwnnw pan chwennychant arwyddoccau nad yw 'r pethau a orchymmynant i barhau tros ſwyddyn, neu tros ryw Adeg, megys anſer Heddwch neu

Ryſel

Ryfel neu Ddrudaniaeth: ac etto ni rwyſtra hyn iddynt wneuthur Goſodigaethau newydd ion yng-hylch yr un pethau, pan ſo lles cyffredin y wlad yn gofyn hynny. Felly or Deddfau a roddes Duw ir *Hebræaid*, rhai oeddynt tros amſer, i barhau tra 'r arhoſai 'r bobl yn yr Anialwch, Eraill a berthynai 'n unig iw preſwylfad yngwlad *Canaan*, ac am hynny y mae 'n galw 'r naill yn ddeddfau trag'wyddol i ddangos rhagoriaeth rhyngddynt ar llaill, wrth yr hyn y gellir deall na ddylid yn unlle, nac un amſer, eſgeuluſo mo'nynt, oddieithr Arwyddoccau o Dduw ei fod yn ewyllyſio eu newid neu eu ddiddymmu. A chan fod y fath ymadrodd yn arferedig ymmhob gwlad, mae llai o achos ir *Hebræaid* i ryfeddu o'i blegyd, gan eu bod yn gwybod fod eu cyfraith hwynt eu hunain, yn galw yn Ddeddf dragywyddol, neu 'n gaethiwed tragywyddol yr hyn oedd i barhau or naill *Jubili* ir llall. (*ſef Gwyl ymmhen pob* 50 *mhlynedd*) Ac y mae'nt eu humain yn galw Dyfodiad y *Meſſiah*, Cyflawniad y *Jubili*, neu 'r *Jubili* mawr. A pheth os oedd hên Addewid Ymmhrophwydi yr *Hebræaid* am wneuthur *Cyfammod Newydd*, megys yr oedd yn *Jeremi* 31. Lle mae Duw yn addaw gwneuthur Cyfammod Newydd, yr hwn a yſgrifennai Ef yn ei meddyliau au Calonnau, ac na byddai raid i Ddynion ddyſcu Crefydd y naill gan y llall. Oblegyd y byddai 'n eglur, ac yn hyſpys i bawb, ac heblaw hynny, y maddeuai Ef eu hanwireddau or blaen: yr hyn, yn ei herwydd, fydd megys ped fai Frenhin, gwedi bod amrafael a Gelyniaeth erchyll rhwng ei Ddeiliaid, er mwyn ſefydlu Heddwch a Chytundeb yn eu plith, yn deleu pob amrafael Gyfreithiau, ac yn gofod un Ddeddf gyffredinol i bawb o honynt, a honno 'n

gwbl

gwbl-berffaith, ac yn addaw nawdd a maddeuant am eu camweddau or blaen, tan ammod yr ymwellhaont o hynny allan. Er y gallai'r yſtyriaethau hyn wasanaethu, ni a ſwriwn olwg etto ar bob rhann or Gyſtraith a ddiddymmwyd, ac a ddangoſwn nad allai 'r cyſtryw bethau, o'u rhann eu hunain, mor bodloni Duw, ac na ddylaſent chwaith mor parhau 'n waſtadol.

RHAN VIII.

Nid oedd yr Aberthau o'u herwydd eu hunain yn gymmeradwy gan Dduw.

YPeth Pennaf a rheitiaf i ſwrw golwg arno, yw 'r Aberthau, am y rhai y meddwl llawer or *Hebreaid*, er bod gwedi eu dychymmygu trwy Synhwyr *Dynion*, cyn eu gorchymmyn o Dduw, mae 'n wir goleu fod yr *Hebreaid* yn chwannog i lawer o Ddefodau, yn gymmaint â bod digon o achos o herwydd pa ham y gorchymmynodd Duw ir Genhedl honno gynnifer o honynt; ped fuaſei ond o ran hyn, ſef, rhag ymchwelyd o honynt i addoli Gau-dduwiau, wrth gofio am eu Preſſwyliad yn yr *Aipht*. Ond pan ddaeth eu hiliogaeth i wneuthur gormod cyfrif o honynt, megys pe buaſent o'u rhan eu hunain yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn rhann o wir Dduwioldeb, yna y ceryddwyd hwynt trwy 'r *Prophwydi*. Felly y dywed Duw trwy 'r Prophwyd *Dafydd* yn y ddegfed *Pſalm* a *Deugain*.

Nid am dy Aberthau na'th boeth-offrymmau ith geryddaf (neu 'r ymddiddanaf a thi) ſel pe chwennychwn eu bod ger fy mron yn waſtad, ni chymmeraſ

Fuſtych

ſuſtych o'th Dai, na Bychod o'th gorlannau. Canys holl fwyſtfilod y Coed ydynt eiddoſi, ar Anifeiliaid ar fil o fynyddoedd, Adwaen holl Adar y mynyddoedd, a gwyllt Anifeiliaid y maes ydynt eiddo fi. Ped fai newyn arnaf nid oedd raid imi ddywedyd iti. Canys y byd ai gyflawnder ſydd eiddo fi, Ai tybied yr wyt y bwyttaf fi Gig Teirw, neu 'r yfaf fi Waed bychod? Abertha foliant i Dduw a thâl ir Goruchaf dy Addunedau.

Mae Rhai or *Hebræaid* a daerant mae 'r achos o ddywedyd y geiriau hyn, oedd bod y ſawl a offrymment yr aberthau hynny yn Ddynion o feddwl a buchedd halogedig. Eithr mae 'r Geiriau a addroddaſom yn dadcan peth arall; ſef nad oedd y peth o'i ran ei hun yn gymmeradwy gan Dduw. Ac os yſtyriwch drefn a pherwyl y *Pſalm*, mae Duw yn y Geiriau hyn yn ymreſymmu ar Duwiolion, *Ceſglwch fy Sainct attaſi*, a thrachefen, *Clywch fy mhobl*, Geiriau un yn Athrawiaethu yw y rhai'n ac yn y mann, gwedi gorphen y geiriau a adroddaſom, mae, yn ol ei arfer; yn troi ei ymadrodd at yr Annuwiolion. *Ond wrth yr Annuwiol y dywedodd Duw.* Mae mannau eraill ir un perwyl ac yſtŷr, megys *Pſalm* 51. *Ni chwennychi aberth, pe amgen mi ai rhoddwn, poeth offrwm ni fynni. Aberthau Duw ydynt yſpryd drylliedig. Calon ddrylliog gyſtuddiedig, O Dduw ni ddirmygi.* ac felly yn *Pſalm* 40. *Aberth ac Offrwm nid Ewyllyſiaiſt, eithr tyllaiſt fy nghluſtiau, i fod yn wâs i ti, poeth-offrwm a phech-aberth nis gofynnaiſt. Yna y dywedais wele 'r ydwyf yn dyfod: yn rhôl y Llyfr y mae'n ſgrifennedig am danaf* (neu, megys trwy Gyſammod yſgrifennedig) *da gennyf wneuthur dy Ewyllys di, O fy Nuw, ath Gyfraith ſydd o fewn fy nghalon. Pregethais gyflawnder*

gyfiawnder yn y Gynnulleidfa fawr: Wele nid atteliais fy ngwefusau, ti 'Arglwydd ai gwyddoſt, Ni chuddiais i dy Gyfiawnder o fewn fy nghalon, treuthais dy ffyddlondeb a'th Jechydwriaeth: ni chelais dy drugaredd ath Wirionedd yn y Gynnulleidfa luoſog. Yn y Bennod gyntaf o *Eſay*, y dywed Duw. *Beth yw lluoſowgrwydd eich Aberthau imi, medd yr Arglwydd? Llawn ydwyf o boeth Aberthau hyrddod ac o fraſder anifeiliaid breiſion: Gwaed Buſtuch hefyd, ac Wyn, a Bychod, nid ymhyfrydais ynddynt. Pan ddeloch i ymddangoſ ger fy mron, pwy a geiſiodd hyn ar eich llaw, i ſengi (neu halogi) fy nghynteddau.* Mae mann arall yn y Seithfed o *Jeremi* cyffelyb i hwn, ac yn ei ddeongli hefyd. *Fel hyn y dywed Arglwydd y Lluoedd, Duw Iſrael, rhoddwch eich Poeth-offrymmau at eich Aberthau, a bwyttewch eu Cig hwynt eich hunain. Canys ni ddywedais i wrth eich Tadau, ac ni orchymmynais iddynt, y Dydd y dugym hwynt o Dir yr Aipht, am boeth-Offrymmau neu Aberthau: Eithr y peth hyn a orchymmynais iddynt, gan ddywedyd, gwrandewch ar fy llef, ac mi a fyddaf Dduw i chwi. a chwithau fyddwch yn bobl i minnau; a rhodiwch yn yr holl ffyrdd a orchymmynais i chwi fel y byddo 'n ddajonus i chwi,* Dyma Eiriau Duw yn *Hoſea, Pen. 6. Ewyllyſiais Drugaredd, ac nid Aberth, a Gwybodaeth, o Dduw yn fwy na phoeth-Offrymmau.* Ac yn y Chweched Bennod o *Micah.* Lle gwedi ymofyn pa ffordd oreu i Ddyn foddloni Duw, ai a Gyrr o mawr o Fyheryn, ai a llanw llifeiriog o Olew, ynteu a Dyniewid blwyddiaid, y mae Duw 'n atteb. *Dangoſaf it O Ddyn, beth ſydd dda, a pha beth 'a ŵgais yr Arglwydd gennyt, ſef gwneuthur barn a chyfiawnder, a hoffi*

Trugaredd

Trugaredd, ac i ymoſtwng i rodio gyda'th Dduw.

Bellach gan fod yn eglur, wrth yr Yſgrythyrau hyn, nad yw Aberthau o'u rhan eu hunain bethau dymunol, cymmeradwy gan Dduw; a chan fod y Bobl, trwy Goel-Grefydd ddiffaith, a ymlithrodd (fel y mae'n digwydd yn fynych) o feſur ychydig iw plith, yn cyfrif mae y rhai'n oedd y rhan oreu o Dduwiol-Addoliant, ac yn credu fod Aberthau 'n ddigon o jawn tros eu Pechodau; Pa ryfeddod ſydd, os darfu i Dduw or diwedd dynnu ymaith ddefod o'i rhan ei hun yn ddiddrwg ddiddâ, eithr a wneuthid yn bechadurus wrth ei cham-arfer? gan ddarfod ir Brenhin *Hezeciah* hefyd ddryllio 'r Sarph Brês a dderchafaſei *Moſes*, pan ddechreuodd y Bobl ei hanrhyddeddu â Duwiol Addoliant. Ac nid oes deffyg Prophwydoliaethau a ragfynegaſant y darfyddai am yr Aberthau, yr ym yn ymddadleu o'u herwydd: fel y gall pob Dyn ddeall yn hawdd, os gwna gymmaint ag yſtyried nad oedd gyfreithon wrth Gyfraith *Moſes*, i neb Aberthu, ond miliogaeth *Aaron*, a hynny 'n unig yn eu Gwlad eu hunain. Eithr yn 110. *Pſal.* Mae Addewid am Frenhin a deyrnaſai ar Lywodraeth or helaethaf, a dechreuad ei Frenhiniaeth o *Sion*, ac y byddai yr Brenhin hwnnw 'n Offeiriad yn dragywyddol, a hynny yn ol Urdd *Melchiſedec*. A ddywed *Eſay Pen.* 19. y bydd Allor yn yr *Aipht*, lle yr addolid Duw, nid gan yr *Aiphtiaid* yn unig, eithr gan yr *Aſſyriaid* hefyd ar *Iſraeliaid*, a *Phen.* 66. *ad.* 18, ar 20. Y dywed *y deuai bobloedd, o pob Cenhedloedd ac jeithoedd ac o wledydd anghyſbell, i ddwyn Offrwm ir Arglwydd cyſtal â meibon Iſrael; ac yr Urddid or rhei ny hefyd Offeiriaid a Leſiaid.* Bwriwch at hyn fod Duw yn y

Bennod

Bennod 1: *Adnod* 10, 11. o *Malachi*. Lle mae'n rhagfynegi pethau i ddyfod, yn dywedyd ei fod yn ffeiddio Aberthau 'r *Hebræaid*, *Nid oes genyf fodlonrwydd ynoch chwi, ac ni dderbyniaf offrwm o'ch llaw*; *Canys o gyfodiad Haul hyd ei Fachludiad mawr fydd fy Enw ymmyſc y Cenhedloedd, ac ymmbob lle arogldarth a offrymmir im henw, ac offrwm pur.*

A *Daniel* hefyd (*Pen.* 9.) Lle mae'n mynegi atteb yr *Angel Gabriel* ynghylch Chriſt, a ddywed, *y gwnai Efir Aberth ar bwyd offrwm beidio.*

Ac y mae Duw nid ar Eiriau yn unig, eithr trwy weithredoedd hefyd yn arwyddoccau 'n ddigon eglur nad yw fodlon mwyach ir Aberthau a orchymmynodd *Moſes*, gan oddef o honaw ir *Iuddewon* fod bellach. tros fwy nag un mil a chwechant o flynyddoedd. heb na Theml nac Allor, na gwybodaeth am eu llwythau au hachau, fel y gallent wybod i bwy mae 'n gyfreithlon offrymmu Aberthau.

RHAN IX.

Na Rhagor Bwydydd.

YR hyn a fynegaſom am *Ddeddf Aberthau* a ddangoſwn hefyd am y Gyfraith a waharddai ryw fath ar fwydydd, Mae 'n eglur yuteu, ganiattau o Dduw i *Noah* ai heppil, ar ol y Diluw, rydd-did i gymmeryd y bwyd a fynnent, ac wedi hynny gael nid yn unig o *Japheth* a *Cham*. eithr *Sem* hefyd ai hiliogaeth yuteu *Abraham*, *Iſaac*, a *Jacob* yr un rhydd-did. Eithr yn ol hyn, pan ymlygraſei 'r bobl yn yr *Aipht* trwy

Goel-

Goelgrefyddon ffiaidd y wlad honno, y pryd hwnnw gyntaf y gwaharddodd Duw fwytta rhyw fath ar Anifeiliaid, naill ai o herwydd y byddai'r *Aipht-iaid* yn Aberthu 'r Creaduriaid hynny iw Duw-iau, ac yn gwneuthur coelion a dewiniaeth wrth-ynt, ai o ran bod y Gyfraith gyfcodawl honno, rwy amryw rywogaethau 'r Creaduriaid, yn rwyddoccau amryw Gamweddau Dynion. Mae'n eglur nad cyffredinol oedd y Cyfreithiau hyn wrth y Ddeddf a ofodwyd ynghylch Cig Anifail a fy-ddai marw o hono 'i hun *Deut.* 14. nad oedd gyf-reithlon yn wir ir *Iſraeliaid* fwytta mo'no, eithr y gallai 'r Dieithraid oedd yneu plith. ac f' orchym-mynwyd ir *Juddewon* wneuthur pob caredigrwydd a chymmwynas ir Dieithriaid hynny, megys rhai cymmeradwy gan Dduw. A Hên Ddyfcawdwyr yr *Juddewon* a draddodafant yn eglur y darfydd-ai am y Ddefod hono ynghylch bwydydd gwa-harddedig, yn amfer y *Meſſiah*, ac y byddai Gig Môch cyn lâned â chig Eidion. Ac ddiammeu, pan welodd Duw 'n dda gafclu iddo 'i hun, un Bobl allan o bob Cenhedloedd, cymmwyfach ac jawnach oedd gadael o honaw rydd-did Cyffredin-ol iddynt yn y cyfryw bethau.

RHAN X.

Ynghylch Dyddiau.

Yr eth nefaf iw yſtyried yw 'r Dyddiau Gwylion, ar rhain oll a dreſnwyd o ran co-ffadwriaeth am Drugareddau Duw, pan ware-dwyd hwynt o Adfyd a chaethiwed yr *Aipht*, ac eu dygpwyd ir Wlad a addawſei Ff iddynt. Bell-ach mae'r Prophwyd *Jeremi*, *Pen.* 16, ar 23. yn rhagfynegu

rhagfynegi y deuau 'r amſer, y pryd a byddai Drugareddau newyddion, a mwy o lawer, yn tywyllu coffadwriaeth yr ymwared hwnnw, fel na byddai ond prin ſôn am dano. Mae 'r hyn a ddywedaſom yr awrhon am Aberthau yn wir am ddyddiau Gwylion hefyd, ſef fod y bobl yn dechreu rhoddi gormod o hyder arnynt, gan feddwl os cedwid y rhain yn dda, nad oedd niwed er pechu mewn pethau eraill. O herwydd pa ham y dywed Duw yn y bennod gyntaf o *Eſay*, ei *fod yn ffieiddio eu Newydd-loerau, a'u Gwyliau, au bod yn faich arno, a blino o honaw yn eu dwyn*, ynghylch y Sabbath y dadleuir, mae Gorchymmyn cyffredinol, oeſtadawl ydyw; Oblegyd ei roddi nid i un Genhedl, eithr, yn nechreuad y byd, i *Adda*, Tâd pawb oll. Mi a attebaf, gyda'r Gwŷr Dyſcediccaf o'r *Hebræaid*, fod dau fath ar orchymmyn ynghylch y *Sabboth*; un o ran *Coffadwriaeth*, *Exod.* 20, 8. ar llall iw gadw, *Exod.* 30. 31. Yr oedd y Gorchymmyn o ran Coffadwriaeth a gyflawnir wrth goffau 'n grefyddol am Greadigaeth y Byd: ar gorchymmyn oedd yw gadw, 'n gofyn gorphwyſdra di-baid oddiwrth bob gwaith arall. Y Gorchymmyn cyntaf hwnnw a roddwyd or dechreuad, a diammeu ufuddhau o Wyr Duwiol iddo cyn y Ddeddf, megys *Enoch*, *Noah*, *Abraham*, *Iſaac*, *Jacob*; Ac er ein bod yn darllen am lawer o ymdeithiau y Gwŷr diweddaf hyn, nid oes arwydd yn y byd yn unlle, dorri o honynt ar eu taith, o herwydd y Sabboth, fel y gwelwch wneuthur or *Iſraeliaid* ar ol eu hymadawiad o'r *Aipht*. Oblegyd gwedi arwain y bobl allan or *Aipht*. a threiddio o honynt yn llwyddianus trwy 'r Môr Côch, y dydd diogel Cyntaf, a gawſant, a gadwaſant yn Sabboth;

ac

ac arno canaſant, orfoleddus fawl a Gogoniant i Dduw; Ac o hynny allan y gorchymmynwyd y gorphwyſdra di-dorr hwnnw ar y Sabboth; ar crybwyll cyntaf a fu am dano oedd o achos caſglu'r *Manna*, *Exod.* 16. 23. 25. *Lev.* 23. 3. Ac yn yr yſtŷr yma y dywedir mae'r ymwarediad oddiwrth Gaethiwed yr *Aipht* oedd yr achos o gadw'r *Sabboth*. Ac yr oedd y Gyfraith yma hefyd yn gofalu am eſmwytho ar Weinidogion yn erbyn toſtrwydd a durſingdra eu Perchennogion, na chaniattant iddynt faint yn y byd o ſeibiant oddiwrth eu Llafur; fel y gellir gweled yn y mannau hynny. Mae'n wir hefyd fod y Dieithriaid oedd yn eu plith yn rhwymedig i gadw'r Gyfraith yma, a hynny oedd, o herwydd y dylai'r holl bobl orphwys'r un ffunud au gilydd. Eithr ni pherthynai'r Deddf yma am orphwyſdra dibaid i bobl Eraill, fel y mae'n eglur wrth a ddarllennir yn amryw fannau lle y gelwir y Ddeddf hon yn Arwydd, neu Gyfammod yſpyſol rhwng Duw ar *Iſraeliaid*. *Exod.* 31. 13, 16. Ac ni a ddangoſaſom euſys nad oedd y Defodau, a dreſnwyd o ran coffadwriaeth am eu hymadawiad or *Aipht*, gyfryw ag na ddylent byth eu diddymmu, o herwydd yr Addewid oedd am lawer amgenach Trugareddau. Bwriwch at hyn, pe buaſei'r Gyfraith ynghylch cyfryw orphwyſdra ar y Sabboth gwedi ei threſnu or dechreuad, ac mewn cyfryw yſtŷr ag nad ellid byth ddeleu na dirymmu moni, yn ddiammeu f'a gauſai honno y rhagor ar Gyfreithiau eraill, pan fuaſei'r naill yn gwrthwynebu'r llall; eithr ni a welwn y gwrthwyneb; O herwydd mae'n eglur y gellid yn gyfreithlon enwaedu Plant ar y Sabboth *Jo.* 7. 22. Megys y byddid, pan oedd y *Deml* yn ſeſyll, yn lladd Aberthau ar y Sabbothau cyſt

al â Dyddiau eraill. Mae Dyscawdwyr yr *Hebreaid* eu hunain hefyd yn dangos y gellid newid y Ddeddf yma pan ddywedant y gellir yn gyfreithlon wneuthur Gwaith ar y Sabboth ar orchymmyn Prophwyd. Ac y mae nt yn rhoddi goleufynag am hyn. Oblegyd darfod ynnill *Jericho* ar y Sabboth ar orchymmyn *Josuah*. Ac nid anghyfaddas y mae rhai o honynt yn profi na byddai ddim rhagoriaeth rhwng y naill Ddydd ar llall yn amser y *Messiah*, or chweched bennod a thri-ugain o *Esay*. *Adnod* 23. Lle y rhagfynegir y *deuai'r Amser, y parhau Addoliant Duw o Newydd-Loer i Newydd-Loer, ac o Sabboth i Sabboth.*

RHAN XI.

Ynghylch Enwaediad y Cnawd.

GAdewch i ni bellach ddyfod at *Enwaediad*; a hwn yn wir fydd hŷn na *Moses*, oblegyd f'ai gorchymmynwyd i *Abraham* a'i heppil. Eithr nid yw 'r Gorchymmyn hwn ond Dechreuad y Cytammod a gyhoeddwyd trwy law *Moses*. Canys felly y darllennir ddywedyd o Dduw wrth *Abraham Gen.* 17. 8. *Mi a roddaf iti, ac ith Hâd ar dy ôl di, wlâd dy yndaith, sef, holl wlad Canaan yn Etifeddiaeth Dragywyddol. Cadw ditheu fy nghyfammod i ti a'th Hâd ar dy ôl trwy eu hoesoedd. Dyma fy Nghyfammod a gedwch rhyngofi a chwi a'th Hâd ar dy ôl di, Enwaeder pob Gwrryw o honoch chwi.* Bellach ni a ddeallwn wrth a ddywedpwyd or blaen, fod *Cyfammod Newydd* i ddyfod yn lle 'r cyfammod hwnnw; a fyddai 'n gyffredin i holl boblodd y byd, ac am hynny rhaid oedd

darfod

darfod am anghenrheidrwydd y Nôd hwnnw o ragoriaeth. Ac mae 'n eglur hefyd fod rhyw Arwyddoccâd ddirgeledig a mwy rhagorol yn y gorchymmyn ynghylch Enwaediad. fel y dengys y *Prophwydi*, pan ydynt yn peri *Enwaedu 'r Galon*, yr hyn yw perwyl ac ergyd holl Athrawiaethau *Christ*. O herwydd pa ham, mae 'r un ffunyd yn ddir bod yr Addewidion a berthyn i Enwaediad yn arwyddion o ryw beth mwy godidog; megys y mae 'r Addewid am wlad Ddaiarol, yn arwyddo Dadcuddiad yr Etifeddiaeth fydd mewn gwirionedd yn dragywyddol, ar hon a hyfpyfodd *Jefu* yn eglurach nag y gwnaeth neb arall erioed. A lle 'r addewir y byddai *Abraham* yn Dâd llawer o Genhedloedd, rhag-ddangofir yr amfer y byddai, nid rhyw ychydig o Genhedloedd, eithr mintei oedd aneirif o bob math ar bobloedd gwedi eu tanu 'n wafcarog hyd yr holl fyd, a ganlynent lwybrau ffydd *Abraham*, ai hyder yn Nuw, yr hon fydd mor goffadwrus ac mor ganmoladwy; ac yn ddiau, ni ddigwyddodd hyn un amfer ond trwy 'r *Efangyl*, bellach nid yw ryfedd fod yn bwrw ymaith y lluniau ar cyfgodion gwedi y gorphen y gwaith a amcanefid ac a bortreiefid wrthynt. Ac mae 'n ddigon amlwg nad oedd Grâs Duw yn gyfyllttiedig ar Arwydd honno, fel y gallwn ddeall o herwydd bod nid yn unig yr Henafiaid o flaen *Abraham*, eithr *Abraham* ei hun hefyd, cyn ei enwaedu, yn bodloni Duw. Ac ni bu ddim arfer Enwaediad yr holl Amfer y bu 'r *Hebreaid* yn ymdaith yn Niffaethwch *Arabia*, ac er hynny, nid yw Duw 'n achwyn arnynt am yr efceuluſdra hwnnw.

RHAN XII.

Ac er hynny'r oedd yr Apoſtolion yn cyd-ddwyn yn eſmwyth ar Defodau hyn.

LLwyr yn ddiammeu y dylaſei 'r *Hebreaid* ddiolch' ir *Jeſu* ai Gennadon, am iddo 'u dadlwytho oddiwrth y baich trwm-ddwys o Ddefodau y llwythaſid hwynt ag Ef, a rhoddi iddynt ſiccrwydd hyſpys o'u rhydd-did oddiwrthynt trwy wyrthiau a Rhyfeddodau cymmaint ar eiddo *Moſes*. Ond er hynny ni cheiſiodd Prif-Ddyſcawdwyr ein Crefydd ni ganddynt gymmaint â chydnabod eu Dedwyddwch hwnnw; Eithr am y derbynient Athrawiaethau 'r *Jeſu*, oeddynt gyflawn o Rinwedd a Duwioldeb, goddefaſant yn rhadlon iddynt ymddwyn ſel y fynnent mewn pethau canolig, trwy na oſodent rwymedigaeth y Defodau hynny, ar ddieithraid, na buaſent erioed tan y Gyfraith ddefodawl honno. A hyn yn unig ſydd ddigon i ddangos yn eglur leied achos oedd ir *Juddewon* i wrthod Athrawiaethau 'r Efangyl, tan rith ac eſcus y cyfryw ddefodau Deddfol. Gwedi atteb y Gwrth-reſwm yma, yr hwn, yn ei herwydd, yw'r pennaf ſydd ganddynt yn erbyn Rhyfeddodau 'r *Jeſu*, ni awn bellach rhagom at Reſymmau ac yſtyriaethau Eraill ſydd ddigon cyfaddas i argyoeddi 'r *Juddewon*.

RHAN

RHAN XIII.

Profedigaeth yn erbyn yr Juddewon o herwydd y cydnabyddant Addewid am Feſſiah rhagorol.

YR ydym ni a'n hwythau yn cyttuno, wrth *Ddarogannau* 'r *Prophwydi*, fod heb law, ac uwchlaw amryw Wyr-dâ Eraill a ddanfonodd Duw, ac a wnaethant fawrllês a Mawryddiaeth ir *Hebreaid*. Addewid am un llawer cadarnach godidoccach nar llaill oll. Yr hwn a alwant wrth Enw Cyffredin. Eithr yn perthyn mewn modd arbennig iddo Ef. ſef y *Meſſiah* neu'r *Enneiniog*. Dwedyd yr ydym ni ddyfod o hwnnw er ys talm o amſer, diſgwyl y mae nt hwythau ei fod etto i ddyfod. Rhaid ini ynteu geiſio torri 'r ymryſon yma, wrth farn y Llyfrau; Y mae pob plaid o honom fel ei gilydd yn cydnabod eu hawdurdod.

RHAN XIV.

Dangoſir ddyfod o honaw, wrth yr amſer a ragfynegaſid.

DAniel, am yr hwn y tyſtiolaetha *Ezeciel*, mae Gwr Duwiol odiaeth ydoedd, ni chwennychai na'n twyllo ni, ac ni thwyllwyd mono ynteu chwaith gan yr Angel *Gabriel*. Hwn gan hynny, gwedi ei ddyſcu gan yr Angel, *Pen.* 9. a'ſcrifennodd y deuai 'r *Meſſiah* cyn pen y pumcant o flynyddoedd gwedi myned or gorchymmyn allan am ail Adeiladu *Jeruſalem*. Eithr mae bellach fwy na Dwy ñl o flynyddoedd er yr

amſer hwnnw. ac ni ddaeth etto mor Hwn ddigwyl yr *Juddewon*; ac ni fedrant chwaith Enwi neb y cyttuna 'r amſer hwnnw ag Ef; eithr y mae 'n cyttuno mor gyfaddas ar *Jeſu*, a bod *Nehemias* un o Awdwyr yr *Hebræaid*, oedd yn byw hanner-cant o flynyddoedd cyn amſer *Chriſt*; yn dywedyd nad allai fod oddiar *D*deng-mlynedd a deugain nes y delai 'r *Meſſiah* â ragfynegafid gan *Ddaniel*. Ac ar Argoel yma or amſer y cyttuna un arall, a grybwyllaſom or blaen, ynghylch rhoddi o *Ddiw* Lywodraeth i un ar holl Genhedloedd y Ddaiar, gwedi darfod o Reolaeth Etifeddion *Seleucus* a *Lagus*; ar ddiweddaf or rhain a ddibennwyd yn *Cleopatra*, ychydig cyn geni 'r *Jeſu*. Y Trydydd Arwyrid ſydd yn *Daniel* 9. Lle y rhagfynegir y diniſtrid *Dinas Jeruſalem* gwedi dyfodiad y *Meſſiah*. Ac y mae *Joſephus* yn cyfaddaſu r Brophwydolaeth hon am ddinyſtr y Ddinas, at yr oes yr oedd Efe 'n byw ynddi: wrth yr hyn y mae 'n eglur fod yr amſer rhagderfynedig am ddyfodiad y *Meſſiah* gwedi myned heibio euſys y pryd hwnnw. I hyn y perthyn a lefarodd *Duw*, yn *Haggai* 2. Wrth *Zorobabel*, Tywyſog *Judah*, a *Joſuah* fab *Joſedech* yr Archoffeiriad, pan oeddynt yn bruddion wrth weled nad oedd y *Deml* a adeiladaſant hwy gyſtattebol o ran maintioli ir *Deml* gyntaf. Lle mae 'n eu cyſſuro ar Addewid yma, ſef y byddai fwy Gogoniant y *Deml* honno na 'r gyntaf. Ac yn ddiammeu, nid ellid dywedyd mo hynny nac o ran Maintioli 'r Adeiladad nac o ran Gwerthfawrhydi 'r Defnyddiau, nac o ran cywreindeb y gwaith, nac o ran Harddwch a gwychder y *Deml*, ſel y mae 'n amlwg wrth Hanes yr amſeroedd hynny yn yr Yſgrythyr ac yn *Joſephus*, ond eu cyffelybu a Hanes Teml *Solomon*

Solomon. Bwriwch at hyn, fod Dyſcawdwyr yr *Hebræaid* yn dal Sulw fod dau roddiad rhagorol yn perthyn ir Deml gyntaf na pherthynent ir Ail, ſef rhyw ddiſcleirdeb gogoneddus yn Arwyddoccau Mawrhydi y Goruchaf Dduw; ac eglur yſprydoliaeth Dduw ar y Prophwydi. Ond y mae *Duw* ar fyrr Eiriau yn mynegi o herwydd pa ham y rhagorai 'a Deml ddiweddaf honno ar y cyntaf, pan yw 'n addaw ſefydlu, megys trwy Gyſammod ficcr, ei Dangnefedd, ſef ei *Râs* ai Drugaredd, yn y Deml honno. Mae 'r Prophwyd *Malachi* (*Pen.* 3.) yn mynegi hyn yn helaethach, *Wele fi yn anfon fy nghennad ac f'arloeſa y ffordd om blaen. Ac yn ddiſymmwth y daw 'r Arglwydd yr hwn yr ydych yn ei geiſio iw Deml* (a *Malachi* oedd yn byw yr amſer yr adeiladwyd yr Ail Deml) *ſef Angel y Cyfammod yr hwn ydych yn ei chwennych.* Rhaid ynteu oedd ir *Meſſiah* ddyfod tra byddai yr Ail *Deml* yn ſefyll, a hynny, wrth gyfrif yr *Juddewon*, ſy 'n cynnwys yr holl Oes honno, o *Zorobabel* i Amſer *Veſpaſian.* Canys nid adeiladwyd y Deml, oi hên garneddau, yn amſer *Herod* y mwyaf, eithr ei hadnewyddu a wnaethpwyd o feſur ychydig, ac am hynny 'r un Deml y gelwid hi. Ac yn wir yr oedd yr *Hebræaid* au Cymmydogion bob amſer yn meddwl cyn ficcred y deuai 'r *Meſſiah*, yn ol y Daroganau, yn yr amſeroedd hynny, a bod bagad yn meddwl mae *Herod*, eraill mae *Judas Gaulonites* oedd y *Meſſiah*, a rhai a feddyliaſant yr un peth am Wŷr eraill oedd yn byw yn amſer yr *Jeſu.*

RHAN XV.

Atteb ir rhai a ddywedant, ei fod yn oedi ei ddyfodiad o herwydd Pechodau 'r Bobl.

MAer *Juddewon* yn gweled fod y Rhesymmau hyn yn drymmion yn eu herbyn yng-hylch dyfodiad y *Messiah*: ac er mwyn eu gochel, mae rhai a ddywedant, mae eu Pechodau hwynt eu hunain yw 'r Achos na ddaeth Ef yn yr amser yr addewid. Fel nad ynganom fod y *Daroganau* dywedig yn arwyddoccau Ordinhâd bendant, ddiammodau; pa fodd y gellid oedi ei ddyfodiad Ef, o herwydd Pechodau, pan ragfynegwyd hefyd y dinyfstrid *Caersalem* ychydig ar ol amser y *Messiah*, Oblegyd aml a dirfawr Bechodau 'r Bobl; *Dan.* 9. 24. Ac heblaw hyn, un Achos oi ddyfodiad Ef, oedd i wellhau oes or ddihiraf, ac i ddwyn maddeuant am Gamweddau, gydâ Rheolau o ymwellhâd Buchedd. O herwydd pa ham y dywed *Zachariah* am amser y *Messiah*, *Pen.* 13. y *byddai ffynnon wedi ei hagoryd i Dy Ddafydd ac i breswylwyr Jerusalem* i lanhau *pechod ac aflendid*: Ar *Hebraaid* eu hunain a gydnabyddant y gelwid y *Messiah Ischcopher*, sef, Cymmodwr i wneuthur jawn tros Bechodau. Eithr llwyr-anrhesymmol yw dywedyd fod yn oedi o herwydd dolur, y peth a ddarparwyd ac a ragdrefnwyd i jachau 'r Dolur hwnnw.

HAN

RHAN XVI.

A hefyd wrth gyffelybu cyflwr yr Juddewon yr awrhon ag Addeiwdion y Gyfraith.

F' Allai 'r *Juddewon* wybod, a gweled a'u llygaid, mae gwir a ddywedaſom am ddyfodiad y *Meſſiah*, ſef dyfod o hono ir byd er ys talm o amſer, Yn y Cyfammod a wnaethpwyd trwy *Foeſen*, f' a addawodd Duw iddynt feddiant llwyddianus yn Gwlad *Paleſtina*, tra 'r ymfucheddent yn gyfattebol i Reolau 'r Gyfraith. Eithr mae 'n eu bygwth ag Allttudiaeth ac a blinderau trymmion Eraill, os troſeddent yn echryſlon yn ei herbyn. Ac er hynny, Os gwedi eu gorthrymmu au cyſtuddio Hwy a ymroddant i Edifarhau; a dychwelyd o honynt i Ufudd-dod, mae'n addaw toſturio wrth ei Bobl, a gwneuthur iddynt ddychwelyd, iw Gwlad, er eu bod yn waſcaredig hyd Eithafoedd y Ddaiar; fel y gallwn weled *Deut.* 30. a *Nehem.* 1. ac mewn mannau Eraill. Eithr mae'r *Juddewon* bellach er ys mwy na Phymtheg cant o flynyddoedd heb wlâd, heb Deml, ac os ceiſiaſant weithieu adeiladu un newydd, hwy a luddiwyd bob amſer; yn gymmaint â bod tanllwythi o Dân yn torri allan tan y Sylfeini, yn dinyſtrio 'r gwaith ac yn lloſgi 'r Seiri, fel y mae *Ammianus Marcellinus*, Awdur nad yd-oedd Griſtion, yn mynegi. Pan oedd y Bobl hyn gynt gwedi ymhalogi ag Anwireddau or Echryſlonaſ, yn Aberthu eu plant yn llawer o fannau i *Saturn* (neu *Moloch*), yn cyfrif Godineb a c Aflendid yn beth diniweid, yn gorthrymmu ac yn anrheithio Gwragedd Gweddwon, a Phlant Ymddifaid fel y mae 'r *Prophwydi* 'n dannod iddynt yr holl gamweddau

gamweddau hyn, fa'u caeth-gludwyd yn Alltudion i wlad arall; ond ni pharhaodd eu caeth-gludwyd yn Alltudion i wlad arall; ond ni pharhaodd eu caethiwed ond Dengmlynedd a thri-ugain; ac yn y cyfamſer hwnnw, nid eſgeuluſodd Duw ymddiddan â hwynt trwy 'r *Prophwydi*, a'u cyſſuro â gobaith o dd.ychwelyd adref, gan arwyddoccau hefyd yr amſer y digwyddai. Eithr yr awrhon, er pan yrrwyd hwynt unwaith allan o'u Gwlad, mae'nt byth yn aros yn Alltudion ac yn ddirmygus. Ni ddaw un *Prophwyd* ar eu cyfyl: Nid oes nac Arwydd nac Argoel o ddychwelyd: A'u dyſcawdwyr fel pettynt gwedi eu llenwi o Yſpryd Syfrdandod, gwedi ymhurtio â Hên-chwedlau ffiaidd ac Athrawiaethau ynfyd diyſtŷr, or rhai y mae Llyfrau 'r *Talmud* cyn llawned ag y gannant; A chyfraith-Dafod y rhyfygant alw y rhain, au cyſtadlu hefyd ag yſgrythyrau *Moſes*, a'u barnu weithieu 'n amgenach nai Gyfraith Ff. Oblegyd mae'r pethau, a ddarllennir yno, ynghylch bod Duw yn wylo am oddef o honaw ddiniſtrio *Jeruſalem*; ynghylch ei Ddiwydrwydd beunyddiol Ffi ddarllain y Gyfraith; ynghylch *Behemoth* a *Leviathan* ac amryw bethau Fraill, mor ynfyd ac anrheſymmol ag y byddai flin gan Ddyn gymmaint au hadrodd. Ac er hynny, mewn cyhyd o amſer, ni wŷrodd yr *Juddewon* at Addoliant gau-Dduwiau, megys or blaen, nid ymhalogaſant a llofruddiaethau; ac ni chyhuddir mo'nynt am aflendid a Godineb. Eithr ymegnio y mae'nt i heddychu a bodloni Duw trwy Weddiau ac ymprydiau, ac er hynny heb eu gwrando. A chan fod y pethau hyn felly, mae'n rhaid cydnabod un or Ddau beth hyn, ſef, naill ai bod y *Cyfammod* a wnaethpwyd trwy *Moſes* gwedi ei lwyr ddileu ai ddiddymmu, ai bod Holl

Genhedl

Genhedl yr *Juddewon* etto ynglŷn mewn rhyw Bechod gorthrwm yſgeler, a barhaodd bellach tros ynnifer, o Oeſoedd; A pha beth yw hwnnw, nynegant eu hunain, neu oni fedrant ddywedyd oeliant ni, mae 'r Pechod hwnnw yw diyſtyru o onynt y *Meſſiah*, yr hwn a ddaethei ir byd, yn dechreu digwydd or Drygau hyn iddynt,

RHAN XVII.

Profir mae'r Jeſu yw 'r Meſſiah, wrth y pethau a ragfynegwyd am y Meſſiah.

WRth y pethau hyn a ddywedaſom, mae 'n eglur ddyfod or *Meſſiah* euſys er ys cynnifer o Oeſoedd: a dywedyd yr ydym ninnau nad yw hwnw neb arall ond *Jeſu*. Oblegyd pwy bynnag erailla chwennychaſant eu cymmeryd, neu a gymmerwyd gynt am y *Meſſiah*, ni adawſant ou hôl un gynnulleidfa o Bobl i gynnal i fynu 'r cyſtyrw Grediniaeth. Nid oes yr awrhon neb au cydnabyddant yn Ddilynwyr i *Herod*, neu *Judas Gaulonites*, neu *Barchochebas*, yr hwn yn amſer *Adrian* a daerodd mae Efe oedd y *Meſſiah*, ac a dwyllodd rai or Gwyr Dyſcedicaf. Eithr bu ac mae etto Luoedd aneirif o Ddynion a addefant mae 'r *Jeſu* yw 'r *Meſſiah*, er ei amſer Ef hyd y Dydd heddyw, ac nid mewn un Oror y maent, eithr yn holl Ardaloedd y Byd llydan-grwnn. Ni a allwn yma adrodd bagad o bethau a ragfynegwyd gynt, neu a gredwyd am y *Meſſiah*, a gredwn ni eu cyflawni yn yr *Jeſu*, ac ni wnaethpwyd gymmaint a'u dywedyd am y llaill, megys ei fod Ef o Hepil *Dafydd*; ei fod gwedi ei Eni o Forwyn; a bod

hynny

hynny gwedi ei ddadcuddio or Nêf ir hwn y dy weddiasid hi ag Ef, pan oedd ar feder ysgar â hi gan feddwl ei bod yn feichiog o arall; ei fod gwedi ei Eni ym *Methlem*; dechreu o honaw athrawiaethu yn *Galilæa*; Jachau o honaw bob math ar *Ddoluriau*, a gwneuthur ir *Deillion* weled, ac ir *Cloffion* gerdded: Eithr mi a fodlonaf ar un sydd etto 'n parhau 'n ei Effeithiau hyd y dydd heddyw. Mae Prophwydoliaethau *Dafydd*, *Esay*, *Zechariah*, *Hosea*, yn darogan yn ddigon eglur y byddai'r *Messiah* yn Athraw ac yn Arglwydd nid yn unig ir *Iuddewon*, eithr i Genhedloedd eraill hefyd: Y syrthiai Addoliant Gau-Dduwiau trwyddo Ef, ac y dygid lliaws aneirif o Estroniaid i addoli 'r unig wir Duw. Cyn dyfodiad yr *Jesu* 'r oedd yr holl fyd, agos yn gorwedd mewn Fulunaddoliant a gau-grefydd; ac wedi hynny, dechreuodd y rhei'ny ddiflannu o fesur ychydig, ac ymchwelwyd nid Dynion neilltuol yn unig, eithr Gwledydd a *Brenhinoedd* i addoli 'r unig Dduw. Nid *Rabbiniaid* (neu Athrawon) yr *Iuddewon* a wnaethant hyn, eithr Discyblion yr *Jesu*, a Christnogion Eraill ar eu hol hwythau. *Hosea*, 2. 23. Felly y gwnaethant yn Bobl i Dduw, Y rhai nid oeddynt or blaen bobl iddo Ef. a chyflawnwyd Prophwdoliaeth *Jacob*, *Gen.* 49. 10. Sef nad ymadawai 'r Llywodraeth o Lwyth *Iuda*, hyd oni ddelai *Siloh*, yr hwn a gyfieitha 'r *Chaldæad* a Lladmeryddion Eraill y *Messiah*, ir hwn yr ufuddhauei Estron Genhedloedd hefyd.

RHAN

RHAN XVIII.

Atteb ir ſawl a wrth-ddadleuant fod rhai pethau heb eu cyſtawni.

MAe 'r *Juddewon* yn arferol o wrthadleu fod rhai Pethau gwedi a rhagfynegi am amſer y *Meſſiah*, na chyflawnwyd etto mo'nynt; Eithr mae 'r Prophwydoliaethau hynny yn dywyll, neu hwy a allant arwyddoccau amryw bethau; ac ni ddylid oblegyd y rhain, mor gwrthod y pethau ſy 'n amlwg ac yn eglur, megys Sancteiddrwydd Gorchymmynion yr *Jeſu*; godidowgrwydd y Gwobr, ar ymadrodd eglur trwy 'r hwn y goſodwyd ef allan; a chan fod Rhyfeddodau i ſicchrau 'r pethau hyn, f' a ddylai hynny waſanaethu i beri iddynt ddygymmod ai Athrawiaeth Ef. Am y Prophwydoliaethau a elwir tan Enw *Llyfr cauad* neu *Seliedig*, Nid ellir jawn ddirnad monynt heb gymmorth ac Yſprydoliaeth Duw, a da y dylent hwy golli 'r cynnorthwy hwnnw, a'n hwythau 'n eſgeuluſo y rhai ſy 'n amlwg ac yn oleu. maent hwy eu hunain yn gwybod am y mannau or Yſgrythyr, or rhai y dadleuant i'n herbyn, fod amryw ddeongliad iddynt; ac os gwel neb yn dda gyd-gyffelybu Hên *Ladmeryddion*, neu *Ddeonglwyr* yr Yſgrythyrau a 'ſgrifennaſant yn amſer caethiwed *Babylon*, neu y rhai oedd yn byw ynghylch amſer yr *Jeſu*. ar rhai a ſgritennaſant gwedi hynny, pan ddechreuodd yr *Juddewon* gaſhau Enw a Chrefydd y *Chriſt'nogion*, f' a gaiff weled Deongliadau newyddion gwedi eu dychymmygu trwy ddrwg-ddichell pleidiau gwahanedig, lle 'r oedd yr hên Ddeongliadau cymmeredig yn cyttuno

or

or goreu ag Athrawiaeth y *Chriſt'nogion.* mae'nt yn gwybod hefyd fod llawer o betheu yn yr Yſgrythyrau, iw deall nid yn arwyddoccâd y llyth-yren, eithr wrth ryw ddull Ymadrodd, neu gyffelybiaeth. megys pan ddyweder fod Duw gwedi deſcyn, neu fod iddo Eneu, o Chluſtiau, a Llygaid a Ffroenau. *Jer.* 11. 2. *Pſal.* 31. 3. ar 34. 15. 18. 8. A pha ham ynteu nad allwn ni yn yr un modd ddeongli llawer o bethau a ragfynegwyd am amſer y *Meſſiah*? Megys lle y dywedir *Y Blaidd a drig gyda 'r Oen, ar Llewpard a orwedd gyda 'r Myn, y Llo hefyd a cheneu Llew ar Anifail brâs fyddant ynghyd, ar Plentyn fugno a chwareu gyda Seirph a Gwiberod. Eſay*, 11, 6. 8, 2, 2. Y bydd-ai Mynydd yr Arglwydd yn ddechafedig goruwch y Bryniau, ac yr ymgyrchei Eſtroniaid yno i Addoli. *Mich.* 4. 1.

Mae hefyd rai Addewidion, ſydd, wrth y Geiriau ſŷ or blaen, neu ar ôl, neu yn eu hyſtŷr a'u ſynnied eu hunain, yn cynnwys ynddynt ryw ammod diſtaw-ddirgel, felly 'r addawodd Duw amryw bethau ir *Juddewon*, tan ammod y croeſawent y *Meſſiah*, ac yr ufuddhaent iddo: ac onid ydyw 'r pethau hynny yn dyfod i benn, mae iddynt le i fwrw 'r bai arnynt eu hunain. Ac y mae rhai Addewidion pendant, diammodawl, ac od ydynt heb eu cywiro Euſys, mae achos da iw diſgwyl rhag llaw. Oblegyd cydnebydd yr *Juddewon* eu hunain y perŷ Amſer neu Deyrnas y *Meſſiah* hyd ddiwedd y Byd.

RHAN

RHAN XIX.

Ltteb iw Gwrebreſwm ynghylch gwael Cyflwr a Marwolaeth yr Jeſu.

MAe Gwael Cyflwr â Thlodi 'r *Jeſu* gwedi rhwyſtro *Bagad*: Eithr yn ddi-achos, an fo yr yſgrythyr yn dywedyd yn amryw fannau, derchafa Duw y rhai iſel-râdd, ac y goſtwng y Beilchion. Nid oedd gan *Jacob* onid ei Ffonn yn nyned gydag Ef tros yr *Jorddonen*, ac f' a ddyinwelodd y ffordd honno yn berchen gyrroedd. nawrion o Anifeiliaid. *Exod.* 3. 1.

Nid oedd *Moſes* ond Alltud, Thlawd, yn bugilio Defaid, pan ymddangoſodd Duw iddo yn y Berth, ac y gorchymynnodd iddo fod yn flaenor r ei Bobl. *Dafydd* yn yr un modd a dderchafwyd o Fugail yn Frenhin, ac y mae llawer Eraill Eſamplau o'r fath yma yn dryfrith yn yr Yſgythŷr Lân, ac am y *Meſſiah* y darllenwn, y douai ef i Efangylu ir Tlodion, nad ymryſſonai Ff, ac a fonllefai yn yr Heolydd. Eithr y byddai ei ymdygiad yn llarŷaidd ac yn llednais, yr arbedai Ef Gorſen vſſig ac y twymdwyrai a fyddai o wrêd yn y Llin fy 'n mygu.

Ac ni ddylai y Drygau Eraill a ddigwyddaſant ddo nai farwolaeth chwaith beri i neb nai gaſhau nai wrthod. Oblegyd mae 'n eglur fod Duw 'n ynych yn cynnwys ir Annuwiol nid yn unig flino cyfiawn, megys y gwnaeth Trigolion *Sodoma* a *Lot*, Eithr eu lladd hefyd; megys y lladdwyd *Abel* an ei Frawd, ac y gwahanwyd *Eſay* a llif, ac y irboenwyd y Saith *Frodyr* yn y *Machabeaid* gya 'u *Mam* i farwolaeth. Yr *Juddewon* eu hunain

a ganant

a ganant *Pſal.* 79. Sy'n cynnwys y Geiriau hy*Rhoddaſant Gelanedd dy weiſion yn fwyd i Adar Nefoedd, a Chig dy Sainct* (*neu dy Garedigion di*) *O Ddiw, i fwyſtfilod y Ddaiar: tywalltaſant e gwaed o amgyloh Jeruſalem, ac nid oedd au cladd ei*, ar geiriau ſy'n canlyn. Ac nid all neb wad ſod yn rhaid ir *Meſſiah* dreiddio trwy Drueni Marwolaeth iw Frenhiniaeth, ac i feddiant o'i Aw durdod i fendithio 'i Deulu ai Eglwys â rhagor freintiau ardderchog; Os mynn yſtyried Geiriau *Eſay Pen.* 53. *Pwy a gredodd in hymadrodd ac bwy y dadcuddiwyd Braich yr Arglwydd? Can Efe a dyf o'i flaen Ef fel Blaguryn, ac fel Gwre ddyn o Dir ſych; nid oes na phryd na tegwch iddo pan edrychom arno ni bydd pryd fel y dymunem Ef Dirmygedig yw a diyſtyraf or Gwyr. Gwr gofidu a chynneſin a dolur, ac yr oeddym megys yn cudd io ein hwynebau oddiwrtho: dirmygedig oedd, ac wnaethom gyfrif o honaw. Diau Efe a gymmer ein gwendid ni, ac a ddug ein Doluriau. Etto n ai cyfrifaſom Ef wedi ei faeddu ai daro gan Ddu a'i gyſtuddio. Ond Efe a archollwyd am ein cam weddau ni, Efe a ddrylliwyd am ein hanwiredda ni: Coſpedigaeth ein Heddwch ni oedd arno Ef, thrwy ei gleiſiau Ef yr Iachawyd ni. Nyni oll grwydraſom fel Defaid, troeſom bawb iw ffordd hun; ar Arglwydd a roddes arno Ef ein hanwir edd ni ei gyd. Efe a orthrymmwyd, ac efe a gy ſtuddiwyd; ac nid agorei ei Enau, fel Oen yr ar weinid Ef ir lladdfa, ac fel y tau Dafad o flae y rhai ai cneifiei. Felly nid agorei ynteu ei Enau O garchar neu o rwymau, neu gyfyngder de o Far y cymmerwyd Ef; a phwy a draetha ei Ocs Ef Canys Efe a dorrwyd o Dir y rhai byw. rhoddwy plâ orno Ef am gamwedd fy mhobl. Ac efe wnaeth*

wnaeth ei fedd gydâ 'r rhai anwir, a chydâ 'r cyfoethog yn ei farwolaeth; am na wnaethau gam, ac nad oedd twyll yn ei Enau. Eithr yr Arglwydd a fynnei ei ddryllio Ef, efe ai clwyfodd; pan ofodo Efe ei Enaid yn aberth tros bechod, Efe a wêl ei Hâd (neu ei Etifeddiaeth, neu Ddiſcyblion), Efe a eſtyn ei Ddyddiau, ac Ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law Ef. O lafur ei Enaid y gwêl ac y diwallir; fy ngwas cyfiawn a gyfiawnhâ lawer trwy ei wybodaeth; (neu ei Athrawiaeth); Canys Efe a ddwg eu hanwiredd hwynt, am hynny y rhannaf iddo ran gydâ llawer, ac Efe a ranna 'r yſpail gydâ 'r cedyrn; am iddo dywallt ei Enaid i farwolaeth, ac efe a gyfrifwyd gydâ 'r Troſeddwyr, ac efe a ddûg Bechoddau llaweroedd. ac a Eiriolodd dros y troſeddwyr.

Pwy a eſlir i Enwi nac or Brenhinoedd nac or Prophwydi, y mae 'r pethau hyn yn cyttuno 'n gyfaddas ag Ef? nid oes neb yn ddiammeu. Eithr am ddychymmŷg rhai or *Juddewon* diweddaraf, a daerant mae am bobl yr *Hebræaid* ſy 'n waſcaredig ymmhlith yr holl Genhedloedd, y dywedpwyd y pethau hyn, fel pe gallent ym mhob mann trwy eu heſampl au hathrawiaeth ynnill llawer o Drofedigion: mae 'r yſtŷr yma or Geiriau, yn gyntaf, yn gwrthwynebu llawer o Dyſtiolaethau 'r Yſgrythyr lân, ſy 'n cyhoedd fynegi naddigwyddodd drwg yn y byd ir *Juddewon* ond a haeddaſent (a llawer ychwaneg hefyd) o herwydd eu drwg-weithredoedd. *Yr oedd y neb hefyd y mae Eſay 'n ſiarad am dano, i eiriol tros y Cenhedloedd; yr hyn nis gwnaeth yr Juddewon.* Hefyd ni eddŷf Trefn ymadroddy Prophwyd, mor Deongliad yma; Canys dywed naill ai 'r Prophwyd (fel y gweddai 'n gyfaddaſaf ir ſann honno) ai *Duw, rhoddwyd plâ arno am gam-*

wedd fy Mhobl. Eithr Pobl *Eſay*, a hefyd pobl briodol Dduw, yw pobl yr *Hebreaid*. Am hynny ynteu, nid oes fodd mae'r un bobl oedd yr hwn y dywed *Eſay* am dano, ddioddef o honaw y cyfryw orthrymderau.

Eithr Hên Athrawon yr *Hebreaid* a gyfaddefant yn weddeiddiach, mae am y *Meſſiah* y dywedpwyd y pethau hyn, a phan ganfu rai o'r Dyſcawdwyr diweddar hynny, Hwy a ddychymmygaſant ddau *Feſſiah*; y naill a elwant yn *fab i Joſeph*, yr hwn oedd i ddioddef amryw flinderau trymmion a marwolaeth waedlyd, ar llall yn Fab *Dafydd*, yr hwn y tycciai pob peth yn ffymnadwy ac yn llwyddiannus iddo; lle buaſei hews, a chyd-gyffoniach ag yſgrythyrau'r Prophwydi, gydnabod nad oes ond un *Meſſiah*, a bod hwnnw trwy gyſtuddiau a marwolaeth i ymdderchafu iw Deyrnas. Hyn a gredwn ni am *Jeſu*, ac y mae digon o yſpyſrwydd mae gwir ydyw.

RHAN XX.

Atteb ir rhai a daerant mae Gwyr Rhinweddol oedd, ſawl a'i rhoddaſant Ef i Farwolaeth.

MAe llawer yn wrthnyſig i dderbyn Athrawiaeth a Chreſydd yr *Jeſu*. Oblegyd rhyw dŷb ddî fydd ganddynt am Rinwedd a Dajoni eu *Hynafiaid*, ac yn enwedig yr Offeiriaid, a gamfarnaſant yr *Jeſu* ac a wrthodaſant ei Athrawiaeth Ef. Ond tel y gwypont pa fath Wŷr oedd eu Hynafiaid fynychaf, rhag meddwl o honynt mae myfi fy'n eu goganu, gwrandawant ar Eiriau eu Cyſraith eu hunain au Prophwydi: Lle y gelwir hwynt yn fynych, yn *Ddienwaedig o Gluſiau ac o*

Galon

Galon; *Pobl a anrhydeddent Dduw au gwefuſau ac â rhodres Defodau Eithr au Calonnau ymmbell oddiwrtho.* Eu *Hynafiaid* hwynt oedd y rhai a gychwynaſant, ac ni bu fawr rhyngddynt â gorphen, llâdd *Joſeph* eu Brawd, ac a wnaethant hefyd gymmaint ai werthu i Gaethiwed, au *Hynafiaid* hwynt hefyd oedd y rhei'ny, a gythruddaſant *Foeſen* trwy eu terfyſcau au hymryſonau gwaſtadol onid oedd ymmron blino ar ei hoedl, ag ynteu 'n Flaenor ac yn Waredydd iddynt. ar Ddaiar, ar Môr, ar Awŷr, yn ufuddhau iddo; y rhain a ffeiddaſant y bara Nefol; y rhai'n a duchanaſant fel pe buaſei newyn ac eiſieu or trymmaf arnynt, pan oeddynt etto 'n bytheirio 'r cig a fwyttaſant. Eu Hynafiaid hwynt oedd y rhai a wrth-giliaſant oddiwrth *Ddafydd*, er ei fod yn Frenhin mor ardderchog ac mor rhinweddol, ac a ganlynaſant ei Fab gwrthryfelgar *Ff.* eu Hynafiaid hwynt oedd y rhai a laddaſant *Zeehariah* fab *Jehojada*, yn y lle Sancteiddiolaf, gan wneuthur yr Offeiriad ei hun yn Aberth iw creulondeb. Ac am a berthyn ir Archoffeiriad, cyfryw oedd, y rhai a fwriadaſant lâdd *Jeremi* ar Gam-gyhuddiad, ac a wnaethant hynny hefyd, oni bai ſefyll o rai or Tywyſogion a Blaenoriaid y Bobl yn eu herbyn; ac er hynny, hwy fuant cyn daered â mynny ei gadw Ef ynghar-char, hyd y munyd yr ynnillwyd y Ddinas, Ac os meddwl neb mae gwell oedd y ſawl oeddynt yn byw yn amſer yr *Jeſu*, ſ' all *Joſephus* ddangos iddo ei gamgymmeriaeth, lle mae 'n mynegi eu Drwg-weithrednedd Echryſlon, au Coſpedigaethau trymmach nag a glybuwyd erioed ſôn am danynt, ac er hynny, yn ei farn ai feddwl ef, yn llai nag a haeddent. Ac nid oes le i dybio 'n well am eu cyngor neu eu Henaduriaeth, yn

enwedig yr amſer hwnnw, pan nad oeddid yn eth
ôl yr Henuriaid yn ôl yr Hên Ddefod, trwy A
ddodiad Dwylo, eithr wrth amnaid ac Ewyll
Gwyr mawr, megys nâd oedd yr Archoffeiria
chwaith yn parhau 'r pryd hynny, tros eu heinioe
yn eu *Swydd*; eithr o ſlwyddyn, i ſlwyddyn, ac y
ſynych ei phrynu y byddent. Nid oes ynteu acho
yn y byd ini ryfeddu os oedd Dynion ymchwydded
ig gan falchder a thraha, anniwall o herwyd
Swydd-ymgais a Chybydd-dod, gwedi gwallgo
ac ymgynddeiriogi pan welſant ŵr yn dwyn i
Byd Reolau ac athrawiaethau or Sancteiddiolaf, a
rheiny 'n dannod iddynt eu hymddygiad drygionus
pe buſei ond wrth y rhagor oedd rhwngddynt a
Bucheddau hwynt. Ac ni chyhuddwyd mor *Jeſu*
am un bai, ond a ſwrieud or blaen ar y Gŵr gore
yn eu plith. felly yn amſer *Jehoſaphat*, y taſlwy
Michea i garchar, am iddo 'n ddiarſwyd ddywedyd
gwir yn erbyn pedwar cant o Brophwydi celwydd
og. ymſennodd *Ahab* ag *Elias*, yn union fel
gwnaeth yr Archoffeiriad ar *Jeſu*, gan daeru mae
Ef oedd yr hwn oedd yn blino, neu 'n codi cythry
ſwl, yn *Iſrael*, ar un bai a ſwriwyd ar *Jeremi* a
ar *Jeſu*, am brophwydo 'n erbyn y *Deml*. Ac
yma hefyd y gellir yſtyried, fod hên Athrawon
yr *Hebreaid* gwedi darogan y byddai Ddynion, yn
nyddiau 'r *Meſſiah*, cyn ddigŷwilyddied a Chŵn,
cyn gyndynned ag Aſſynnod, a chyn greuloned a
Phryfeid gwlltion. Duw ei hun, yr hwn a ragwel
ſai ym mhell or blaen pa fath a fyddai ar yr *Judde*
won yn amſer y *Meſſiah* a ddywedodd, y cymmer
id yn bobl iddo, y rhai ni buaſent or blaen yn
Bobl iddo, ac nad ai o Ddinaſoedd a Phen-tre
fydd yr *Juddewon*. ond prin un neu ddau o bob
nn, iw ſynydd Sanctaidd Ef: Eithr y cyflawnai

Eſtroniaid

ſtroniaid a ſyddai yn eiſiai o'u rhiſedi hwynt. A hefyd y byddai 'r *Meſſiah* yn dramgwydd ac *yn* hwyſtr ir *Hebraaid*, eithr y byddai 'r maen hwnw a wrthodid gan yr Adeiladwyr yn ben-conglfaen i gyd-ſeilio ac i gyſylltu 'r Adeilad.

RHAN XII.

Atteb ir Gwrthreſwm a daera fod y Chriſt'nogion yn addoli amryw Dduwiau.

MAe'n rhaid i ni etto atteb dau Gam-achwyn, ſydd gan yr *Juddewon*, yn erbyn Athrawiaeth, ac Addoliant y Chriſt'nogion. y Cyntaf yw eu bod yn taeru ein bod ni yn addoli amryw Dduwiau. Eithr nid yw hyn ddim, ond gwyr-droi ymmied Athrawiaeth rhai Eraill o ran cas a chenfigen. Ob egyd pa achos ſydd i ddadlu hyn yn ein herbyn ni, Griſt'nogion, mwy nag yn erbyn *Philo*, yr *Juddew*. Yr hwn a ddywed yn aml fod tri yn Nuw; ac y mae 'n galw *Rheſwm* neu *Air* Duw, *Enw Duw*, gwneuthurwr y Byd, ac yn dywedyd fod yw ddi-genhedledig, megys y mae Duw, Tad y cwbl oll, na Chenhedledig chwaith megys y mae Dynion. a *Philo* ei hun hefyd, a *Moſes* mab *Nehemiah*, ai galwant Ef yr *Angel* neu 'r *Gennad* ſy'n gofalu am yr holl fyd; neu 'r *Cabaliſtiaid* a ddoſparthant Dduw 'n Dri Goleuni, a rhai o honynt ai galwant wrth yr un Enwau, ag ydd gennym ninnau Griſt'nogion, arnynt, ſef, y *Tad*, y *Mab* neu 'r Gair, ar Yſpryd glan. ac fel y dalwyf ar yr hyn a gydnabyddir yn anad dim gan yr holl *Hebraaid* am yr Yſpryd trwy 'r hwn y cynhyrfid y *Prophwydi*, nad peth Creedig ydyw, ac

etto mae rhagor rhyngddo ar hwn fy 'n ei ddanfon megys y mae rhwng yr hwn a alwant yn gyffredinol *Shechinah*. Ac f' a draddododd llawer jaw or *Juddewon* y byddai 'r Grym Duwiol hwnnw a alwant hwy Doethineb Duw, yn cyfanneddu yn y *Meſſiah*, ac am hynny gelwir y *Meſſiah* Gair Duw, gan Deongliad *Chaldaeg*. Megys y gelwir Ef wrth yr Enw Gogoneddus ardderchog-ofnadwy, Duw, *Jehofah*, a hefyd wrth yr Enw Arglwydd, (ſef *Elohim*, na *Adonai*) gan *Ddafydd* ac *Eſay* ac Eraill.

RHAN XXII.

Atteb i Gwrthreſwm, a daera ein bod yn addoli Natur Ddynol.

MAe cyn hawſed atteb y Gwrthreſwm arall, ſy 'n taeru ein bod ni yn cyfrannu 'r Addoliant Dyledus i Dduw, iw Greadur Ef. Canys dywedyd yr ydym, nad yw 'r *Meſſiah* yn cael gennym ni na pharch nac Addoliant ond a orchymynnir yn yr Ail *Pſalm*, ac yn y ganfed ar ddegfed *Pſalm*. F' a gyflawnwyd y gyntaf or rhain mewn rhyw fodd go-debŷg yn *Nafydd*, eithr ir *Meſſiah* y perthyn hi mewn yſtŷr a ſynnied mwy godidog, ac ardderchawg; ſel y mae *Dafydd Kimchi*, Gelyn anferth ir *Chriſt'nogion*, yn cydnabod; Eithr nid ellir Deongli mor llall ond am y *Meſſiah*. Oblegyd nid yw 'r hyn a ddywed rhai o'r *Juddewon* Diweddaraf, ynghylch *Abraham*, *Dafydd*, a *Hezecia*, ond ofer a di-yſtŷr. Mae 'n eglur wrth yr Enw *Hebraaeg*, fydd ir *Pſalm* yma. mai gwaith *Dafydd* ydyw. Yr hyn ynteu a ddywed pwyd wrth Arglwydd *Dafydd*, (ſel y mynega

ei hun) nid allai berthyn nag i *Ddafydd* ei hun, nac i *Hezeciah*, oedd yn ûn o heppil *Dafydd* ac heb fod mewn modd yn y byd yn well neu'n odidoccach nag Ef. Nid oedd gan *Abraham* ynteu un Swydd Offeiriadawl arbennig, ie fa'i bendithiodd *Melchiſedec* Ef, megys y bendithir y lleiaf gan y mwyaf. Eithr hyn, ar geiriau neſaf ynghylch myned or Deyrnwialen o *Sion*, a chyrraedd o honi hyd Eithafoedd y byd, ſy'n perthyn yn gyfaddas ac yn eglur ir *Meſſiah*, fel y gallwn ddeall yn hyſpys wrth fannau Eraill cyffelyb i hwn ſy'n ddiddadl yn myegi am y *Meſſiah*. Ac ni ddeallodd yr Hên *Hebraeid*, ai Dyſcawdwyr, ond felly monynt. Ac y mae cyn hawſed imi goelio fod yr holl bethau hyn gwedi eu cyflawni 'n gyfaddas yn *Jeſu* o *Nazaaeth*, ar Air ei Ddiſcyblion Ef, oeddynt Wŷr or Duwiolaf ac or cywiraf, ag ir *Juddewon* goelio i air *Moſes* eu hun, heb un tŷſt arall, am y pethau a draddodwyd iddo gan Dduw. Eithr mae heb law hyn lawer jawn o reſymmau annorfod, ac o Arwyddion or ſiccraf i ddangos yn oleu gael or *Jeſu* 'r gallu ar Goruchafiaeth arbennig y dywedir ei fod Ef yn feddiannol o honaw. F' ai gwelodd llawer Ef wedi Adgyfodi, F' ai canfuwyd yn ymdderchafu ir Nefoedd; f' a fwriwyd allan Gythreuliaid yn ôl hynny, trwy unig rinwedd ei *enw* Ef, ac jachawyd Doluriau trwy 'r un Enw; a rhoddwyd Doniau amryw Dafodau ir Diſcyblion y rhai a addawſei 'r *Jeſu* ei hun megys arwyddion oi Frenhinol Arddechowgrwydd. Bwriwch at y pethau hyn, fod ei Deyrnwialen Ef, ſef Gair yr Efangyl, a gychwynodd o *Sion*, gwedi myned trwy Ardaloedd Eithaf y Ddaiâr, a daroſtwng o honaw iddo i hun bobloedd a Brenhunoedd, yn union fel y rhagfyn-

rhagfynaſei 'r *Pſalmau.*

Mae 'r *Cabaliſtiaid Iddewig* yn dywedyd ſod rhyw Fabi *Enoch* yn y canol rhwng *Duw* a Dyn, heb na rheſwm nac Arwydd o gymmaint goruchafiaeth, Pa faint mwy achos ſydd i ni gredu hynny am *Jeſu*, ac ynteu gwedi rhoddi cyfryw a chymmaint goleu-fynag o'i Dduwiol Fawrhydi? Ac nid yw hynny yn lleihau Gogoiant *Duw Tad*, oddiwrth yr hwn y daeth Mawredd a chadernid yr *Jeſu*, ac atto Ef y dychwel, ac iw Anrhydedd ai Ogoniant Ef y mae 'n gweinyddu.

RHAN XXIII.

Diwedd y rhan yma, gydâ Gweddi tros yr Iuddewon.

NI pherthyn ir Gwaith yma ymreſymmu 'n fanylach ynghylch y cyfryw Athrawiaethau, ac nid ynganaſwn am y rhai'n, ond er mwyn dangos nad oes yn Ghredíniaeth y Chriſt'nogion ddim anwireddus nac anrheſymmol, y dylai neb gymmeryd eſgus o'i herwydd i ommedd croeſawu Crefydd, ac gadarnhawyd ac a brydferthwyd trwy gymmaint a chynnifer o Ryfeddodau, ſydd au Gorchymmynion cyn bured, ac yn addaw Gwobrwyon cyn odidocced. A phwy bynnag ai derbyniodd eufys mae 'n rhaid i bwnnw bellach ymgynghori ar Llyfrau, y dywedaſom or blaen ſod Athrawiaethau 'r Grefydd Grift'nogiol yn gynnwyſedig ynddynt. os chwennych gyfarwyddid ynghylch ammheuaethau ac ymofynion yſpyſſol neu Enwedigol. Ac fel y gwneler hynn

hynny, gweddiwn ar Dduw am oleuo o honaw feddyliau 'r *Juddewon* â llewyrch ei *Wirionedd*, a chyflawni 'r Gweddiau a dywalltodd *Christ* troſtynt pan oedd ynghrôg ar y Groes.



Y CHWECHED LLYFR
YNGHYLCH
GWIRIONEDD
Y
GREFYDD GRIST'NOGOL.

RHAN I.

Gwrth-Ddadl yn erbyn Crefydd y Mahumediaid; ei Dechreuad.

YN y Chweched Llyfr yma'n erbyn y *Mahumediaid*, yn lle Rhagymadrodd, yſtyrwn Farnedigaethau Duw yn erbyn y *Chriſtnogion* yd ddechreu codiad Crefydd *Mahomet*: ſef, y modd y darfu ir Gwir ddiragrith Dduwioldeb a lodeuaſei 'n dirion-brydferth, ymmhlith Chriſtnogion, pan oeddynt tan Erlidiau a gorthrymderau or blinaſ, ddechreu oeri a diflannu, gwedi *Gwſtennyn* ac Ymmerodron Eraill ar ei ol ynteu, wneuthur y Grefydd Griſt'nogawl, nid yn unig yn ddiogel. eithr yn Anrhydeddus hefyd, ir ſawl ai haddefent; pan oedd yr holl fyd megys gwedi ymwthio ir Eglwys. Oblegyd yn gyntaf, nid oedd na meidr, na meſur, na diben ar Ryfeloedd, rhwng Tywyſogion Chriſt'nogol, pan allaſent fwynhau Heddwch a Diogelwch; yr Eſcobion hefyd a ymryſonaſant yn gynddeiriog

a'u

a'u gilydd, ynghylch goruchafiaith a Breintiau eu Heiſteddfoedd a'i Heſtobaethau. Ac megys y y digwyddodd Drygau anterthol gynt, o herwydd dewis on Rhieni cyntaf Brenn Gwybodaeth o flaen Prenn y bywyd, felly hefyd yr amſer hwnnw, bernid Dyſgeidiaeth rodreſgar yn well na Duwioldeb, a throwyd Crefydd yn Gelfyddyd. Ar diben o hynny oedd gyffelyb ir hyn a ddigwyddodd ir ſawl a tu 'n adeiladu Tŵr *Babylon*, pan gelſiaſant ymgyrrhaeddyd yn Ehud-falch at bethau rhŷ uchel iddynt, cododd ymraſaelion yn eu hymadroddion, a hynny a fagodd anghydfod ac anghyttundeb rhyngddynt au gilydd. A phan welodd y y Bobl Gyffredin y pethau hyn, nis gwyddent yn fynyeh i ba le y troent, na pha beth a wnaent, or diwedd bwrient y bai ar yr Yſgrythyrau, a dechreu eu gochel au gwrthod megys pe buaſent gwedi eu gwenŵyno.

Dechreuwyd hefyd ym-mhob mann oſod Crefydd nid mewn purdeb meddwl, eithr megys pe buaſei Crefydd yr *Iuddewon* gwedi dychwelyd iw plith) mewn cyſgodion a Defodau, ac mewn gweithredoedd Corphorawl yn hyttrach nac yngwellâd ac adgyweiriad yr Euaid; a hefyd mewn Awyddfryd taubaid i ſefyll gyda 'r blaid addewiſaſant unwaith, yn gymmaint â myned or Byd or diwedd cyn ddihired, â bod ymmhob mann lawer yn Grift nogion mewn Enw, Ond nid oedd ond ychydig iawn felly mewn Gwirionedd, ni chelodd ac ni chyd-ddygodd Duw ag Anwireddau ei Bobl. Eithr tywalltodd o berfedd *Scythia* a *Germania* finteioedd anterthol megys Diluw i orchuddio holl Ardaloedd Crêd, a phan na waſanaethodd y Deſtryw ar Celaneddau a wnaeth y rhai'n i gerydd ac adgyweirio Bucheddau 'r ſawl oedd etto yn

yn fyw, trwy gyfiawn gyniwyfiad y gorucha
Dduw, f' a blannodd *Mahomet* Grefydd newydd
yn *Aarbia*, a honno 'n wynebu 'n union gyrch yn
erbyn y Grefydd Gris't'nogol, eithr yn cyttuno ar
riau mewn rhyw fodd â bucheddau y rhan fwy-
f or *Chris't'nogion*.

Y Grefydd yma a dderbyniwyd gyntaf gan y
Saraceniaid, a gilìafent yn wrthryfelgar oddiwrth
Heraclius yr *Ymmerodr*. A thrwy Arfau y rhain,
di a orchfygodd mewn byrr amfer *Arabia*, *Syria*,
Paleftina, r *Aipht*, *Perfia*, gwedi hynny, treidd-
odd i *Affrica*, a thros y Môr i *Hifpaen*. Eithr
ttaliwyd Rhwyfc y *Saraceniaid* gan Fraill ond
n enwedig gan y *Tyrciaid*; a Chenhedl ymladd-
ar erchyll oedd honno hefyd; gwedi bod hir ym-
yfonau a Rhyfeloedd rhwng y rhain ar *Saraceniaid*,
wedi eu gwahodd i gyttundeb, ni bu anhawdd
anddynt dderbyn Crefydd oedd mor gyttunol a'u
ymarweddiad; a throfglwyddafant Fawrhydi 'r
mmerodraeth attynt eu hunain, ynnillafant Ddi-
afoedd *Afia* a *Groeg*, a thrwy nerth Hwyddia-
us eu harfau, a ddaethant i *Hungaria*, a chyffin-
au *Germania*.

RHAN II.

Dadymchwelir Sylfaen y Mahumediaid, o ran na fynnant chwilio a holi eu Crefydd.

Y Grefydd yma a luniwyd yn bendant ar dy-
wallt Gwaed, fy 'n arfer llawer o Ddefod-
u; ai chredu a fynn, heb adel rhydd-did i neb
w holi ai chwilio, o herwydd pa ham y gwa-
erddir ir Bobl Gyffredin ddarllen y Llyfrau a

gyfrifir

gyfrifir ganddi yn Sanctaidd: A hyn ſydd ddigo
o oleu-lynag o'i hanwiredd ai Drygioni. Obleg
yd mae ochos da i ammeu 'r ſafnach a wthier a
un heb allu o honaw edrych beth a ſo.

Gwir ddiwâd ydyw, nad yw pawb cyſtal eu Syn
hwyr au gilydd i wybod a deall pob peth, ma
llawer yn ſyrthio i Gamgymmeriaeth trwy falch
der a thraha, Eraill trwy eu Gwyniau au trach
wantau, a rhai trwy Gynnefindod ac arfer; Eith
pwy bynnag a wir, geiſiant ffordd iechydwriaet
tragywyddol o eigion eu Galonnau, nid o ran bud
neu glod amſerol, gan eu daroſtwng eu hunain
chwbl ſydd eiddynt i Dduw, ac ufudd-weddi
am ei râs ai gynnorthwy; mae Dajoni Duw '
gwahardd ini gredu nad oes ir rhei'ny fodd i
hadnabod. Ac yn ddiammeu gan blannu o Ddu
ym meddwl Dyn, Synhwyr a deall twriaeth i ddi
nad a barnu, Nid oes nath yn y byd ar wirion
edd deilyngach a rheitiach arfer y Cynneddfa
hynny i chwilio am dano, nar hwn nid allwn mo
bod yn anghydnabyddus ag Ef, heb berygl col
trag'ywyddol Iechydwriaeth.

RHAN III.

*Prawf yn erbyn y Mahumediaid, allan o Yſgryth
yrau Sanctaidd yn Hebraaid ar Chriſt'nogion
yn dangos na lygrwyd mo'nynt.*

MAe *Mahomet* ei hun ai Ddilynwyr yn cyd
nabod fod *Moſes* gwedi ei ddanfon gan Ddu
ar *Jeſu* hefyd, ac mae Gwyr Sanctaidd oedd
ſawl a bregethaſant gyntaf Grefydd yr *Jeſu*
Eithr mae yn yr *Alcoran* Cyfraith *Mahomet*, l
we

lawer o bethau gwedi eu traethu 'n llwyr wrth-
wynebol i Draddodiadau Diſcyblion yr *Jeſu*. ni a
grybwyllwn am un peth o lawer; Mae Holl Apoſto-
lion a *Diſcyblion* yr *Jeſu* 'n tyſtiolaethu 'n unfryd,
drengu or *Jeſu* ar y Groes, ac adgyfodi o hanaw
o farw i fyw, o fewn tri diwrnod, ai weled gwe-
di hynny gan lawer. Mae *Mahomet* yn dywedyd
yn y gwrthwyneb, ddarfod dwyn yr *Jeſu* i ddir-
gel ir Nêf, ac na hoeliwyd ar y Groes ond rhyw
Ddelw debyg iddo, ac wrth hynny, na bu farw 'r
Jeſu, eithr darfod bwrw hûd tros Lygaid yr *Ja-*
ddewon. Nid oes fodd iddynt i ochel grym y Gwr-
threſwm yma, oddieithr dywedyd o *Mahomet*. fel
y dywed hefyd, nad yw Llyfrau *Moſes*, na Llyf-
rau Diſcyblion *Jeſu* 'n ſefyll fel yr oeddynt or
dechreuad, eithr eu bod gwedi eu llygru. Eithr
ni a ddangoſaſom ofered ac anwireiddied y Ddy-
chymmyg yma eufys yn y Trydydd Llyfr.

Pe dywedai neb ddarfod diwyno neu newid yr
Alcoran, diammeu y gwadai 'r *Mahumediaid*
hynny, ac y dywedent mae digon oedd hynny yn
erbyn y ſawl nid allant brofi 'r gwrthwyneb: Ond
nid allant hwy, heblaw hynny, ddangos mor fath
Reſymmau am gywirdeb eu Llyfr, ac ſydd gen-
nym ni am yr amryw Sgrifennadau, ſydd o'n Llyf-
rau ni, (a hynny nid mewn un faith, megys y
mae 'r *Alcoran*) gwedi eu tanu hyd yr holl fyd,
ar rheiny gwedi eu cadw trwy ffyddlondeb cyn-
nifer o bleidiau, fy 'n anghytuno ynghylch peth-
au Eraill.

Mae 'r *Mahumediaid* yn meddwl fod yn y Bed-
waredd Bennod ar ddêg o *Foan*, lle mae ſôn am
anfon y Diddanydd, ryw beth gynt yn yſgrifen-
edig ynghylch *Mahomet*, ai ddileu or *Chriſt'nog-*
ion. Ond mi a chwennychwn ofyn iddynt pa un
ai

Moſes a

ai cyn Dyfodiad *Mahomet*, ai ar ôl hynny gwnethpwyd y cyfryw gyfnewydiad yn yr Yſ crythŷr?

Mae 'n ddi-ddadl nad oedd fodd ir fath bet mor digwydd gwedi dyfod o *Mahomet*, Obleg yd fod eufys yr amſer hwnnw laweroedd o ſcrifen nadau or Efangyl honno ymmhob mann trwy byd, nid yn unig yn y *Groeg-jaith*, eithr yn Jeith oedd *Syria*, *Arabia*, ac mewn gwledydd Eraill pe oddiwrth *Arabia*, yn Jaith *Æthiopia* ar *Lladin* o amryw, nid un fath ar Gyfieithiad. ac y ma y rhain oll yn cyttuno au gilydd yn y fann honn or yſgrythyr, heb fod dim rhagor nac amryfuſed rhyngddynt, cyn dyfod *Mahomet* nid oedd dim Achos iw newid. Odlegyd nis gwyddai neb bet a fyddai Athrawiaeth *Mahomet*. i ê pe buaſei ei ath rawiaeth Ef heb ynddi ddim yn y gwrthwyneb Greſydd yr *Jeſu*, ni buaſei anhaws gan y *Chriſ nogion* dderbyn honno, na Llyfrau *Moſes* a *Phro phwydi* r *Hebraaid*. Ond bwriwn o bob un o ddauparth, pa buaſem heb un Yſcrythŷr na o Greſydd yr *Jeſu*, nac o Gyfraith *Mahomet* jawn er hynny ſuaſei cydnabod mae Athrawiaet yr *Jeſu* oedd yr hon y mae 'r holl Grift nogio yn cyttuno ynddi, ac mae Dyſceidiaeth *Mah met* oedd yr hon a ddetbynir yn gyffredinol ga y *Mahumediaid*.

RHAN IV.

Ac wrth gyd-gyffelybu Mahomet â Chriſt

GAdewch ini hellach gyd-gyffelyl u Perthynaſa a-Phriodoliaethau pob un or Ddwy Athraw iaeth

Athrawiaeth, ſel y canfyddom pa un o honynt ſydd yn rhagori ar y llall. Ac yn gyntaf yſtyriwn yr Awdwyr, mae *Mahomet* ei hun yn cyfaddef, mae *Jeſu* yw 'r *Meſſiah* addawyd yn y Gyſtraith ar Prophwydi, mae *Mahomet* ei hun yn cyfaddef, mae *Mahomet* ei hun yn ei alw Ef *Gair, Meddwl*, a *Doethineb* Duw: ac yn dywedyd hefyd nad oedd un Dyn yn Dâd iddo. Eithr *Mahomet* a genhedlwyd yn ôl arferedig Reol Naturiaeth, megys y mae ei Ddiſcyblion Ef ei hun yn credu ac yn cydnabod, yr oedd *Jeſu* bob amſer yn ddiddrwg ac yn ddiniweid yn ei fuchedd ai Ymarweddiad, ac nid allai neb fwrw un bai arno. Bu *Fahomet* yn hir yn *Lleidr*, ac yn *Anlladwr* bob amſer. Derchafwyd yr *Jeſu* ir Nêf, ſel y cydnabu *Mahomet*; eithr *Mahomet* ſydd etto 'n warchauedig yn ei Feddrod, a phwy ni wêl pa 'r un or rhain a haeddai ei ddilyn?

RHAN V.

Ac wrth Weithredoedd pob un or Ddau.

YStyriwn hefyd Weithredoedd pob un or Ddau. Adferodd *Jeſu* Olwg ir Deillion, Traed ir Cloffion, Jechyd ir Cleifion, a Bywyd hefyd ir Meirwon, ſel y cydnebydd *Mohomet* ei hunan. mae *Mahemet* yn dywedyd ei ddanfon yntau nid â Rhyfeddodau, eithr trwy nerth Arfau. Eithr bu rai ar ei ôl Ef a daerant wneuthur o honynteu Ryfeddodau. Ond pa fâth? ſef, cyfryw ag a ellid ei gwneuthur yn hawdd trwy ddichell neu gywreindeb Dyn, megys y dyſcodd Efe *Golomen* i ehedeg at ei gluſt; i fwytta grawn Gwen-

ith: gan ddywedyd mae'r Yſpryd glân ydoedd neu rai nad oedd dim Tyſtion iw gwirio, megys y dywedodd fod *Camel* (neu Gawr-farch) yn ymddiddan ag Ef iw nôs: neu gyſtyry ag ſydd mor anghyffelyb ac mor ddireſwm, nad all fod fodd iw coelio, megys y dywed yn wrthyn ddigwilydd, ddeſcyn o ddarn mawr or *Lleuad* iw lawes Ef. a darfod iddo ei yrru 'n ôl ir Entrych, fel y byddai'r *Ddaear* drachefen yn Llawn-gronn. Pwy bellach, fe byddo achos o ymryſonedd na ddywed mae diogelaf yw ſefyll wrth y Gyfraith, ſydd ganddi'r tyſtiolaethau ſicraf o'i bod yn gymmeradwy gan Dduw?

RHAN VI.

Ac wrth y rhai a dderbyniaſant gyntaf bob un or Ddwy Greſydd.

EDrychwn hefyd ar y ſawl a ddechreuaſant dderbyn pob un or Ddwy Gyfraith yma, y Sawl a dderbyniaſant Gyfraith yr *Jeſu*, oeddynt wyr yn ofni Duw, ac o ymwareddiad difyml diniweid: ac mae'n gweddu i Dduw na oddefo dwyllo'r fath honno na thrwy hudoliaethau Geiriau, na thrwy rith *Rhyfeddodau*, Eithr Diſcyblion cyntaf Greſydd *Mahomet*, Lladron a Dihirwyr oeddynt heb ddim o Ddŷn chwaethach o Gomm Dduw a Duwioldeb ynddynt.

RHAN

RHAN VII.

Y modd y cynnyddodd pob un or Ddwy Grefydd.

CAdewch ini yn y fann nefaf ddangos y modd Gyr ymledodd pob or un Ddwy Gyfraith yma. Am y Grefydd *Grift'nogol*, ni a ddangofafom eufys, fwy nag unwaith, gynnyddu ac ymhelaethu o honi trwy Ryfeddodau, nid yn unig a wnaeth *Chriſt*, eithr ei Ddifcyblion ef hefyd, ar fawl a ddaethant ar eu hôl hwythau: a hefyd trwy ddiodde 'n ammyneddgar flinderau ac Erlidiau or trymmaf. Eithr Dyfcawdwyr Crefydd *Mahomet* ni wnaethant ddim Rhyfeddodau, ni ddioddefafant na chyftuddiau trymmion, na marwolaethau dir-boenus o herwydd y Grediniaeth honno. Eithr y Grefydd honno fy 'n calyn rhwyfc Arfau Affaith Arfau ydyw. Ac nid oes gan eu Hathrawon hwynt un Rheſwm gwell am Odidowgrwydd eu Crefydd, na llwyddiant eu Rhyfeloedd, a helaethrwydd eu Llywodraeth: ac nid all fod dim fwy twyllodrus yn y cyfryw achos, nac 'nt hwy eu hunain yn beio ar Grefydd y *Paganiaid*, ac er hynny ni wyddom faint oedd Buddugoliaethau 'r *Perſiaid*, ar *Macedoniaid*, ar *Rhufeiniaid*, a lletted oedd eu hymmerodraethau. Ni bu Ryfeloedd y *Mahumediaid* chwaith bob amſer yn llwyddianus. Mae 'n hyſbys y deſtryw ar colledion ar Celaneddau a ddigwyddodd arnynt mewn llaweroedd o fannau ar, Fôr ac ar Dir: Maent gwedi eu curo allan o holl *Yſpaen*.

Nid all peth a fo mor anſicr ac mor gyfnewidiol, ac yn digwydd weithieu ir drwg cyftal ar da, mor bod yn arwydd dilys or wir Grefydd: a

llai o lawer y gall hyn fod, gan fod Rhyfeloedd yn anghyfiawn; pan fo'nt yn fynych yn ymladd yn erbyn pobl na wnaethant iddynt flinder na niweid yn y byd, ac nid adwaenant mo'nynt o herwydd na cham nac anghyfiawnder, yn gymmaint ag nad all fod ganddynt eſgus yn y byd i ryfela, ond o herwydd Creſydd, yr hyn yn ddiammeu fydd beth tra anghrefyddol. Oblegyd nid yw Addoliant Duw ddim, oni bydd yn tarddu o feddwl Ewyllyſgar, ar Ewyllys a ynnillir trwy athrawiaeth ac ymadroddion hynaws, hygoel. Nid trwy fygythion a thrawſder a nerth Arfau. Pwy bynnag fy 'n credu trwy gymmell, nid credu y mae, eithr cymmeryd arno gredu, er mwyn gochel Coſpedigaeth. A phwy bynnag trwy fygythion neu berygl coſpedigaeth a geiſio ddyrchynu Dyn i gydſynnied ag Ef, mae wrth hyny 'n arwyddoccau nad oes ganddo ddim hyder yn ei Reſymmau, Drachefn mae'nt hwy eu hunain yn dirymmu 'r Eſcus Creſyddol yma, pa fo'nt yn goddef i bobl arfer y Gretydd a fynnon ath y bo'nt duroſtyngedig iw llywodraeth hwyn ac y maent hefyd weithiau 'n cydnabod yn gy hoeddus, y gall *Chriſt'nogion* fod yn gadwed wrth eu Cyfraith eu hunain.

RHAN VIII.

Cyd-gyffelybu eu Rheolau.

GAdewch ini etto gyſtadlu Rheolau buched ol pob un or Ddwy Greſydd. or naill Dd gorchymmynnir Ammynedd, i ê a Chariad ac Ewy ya da tuag at ein Gelynion, ar rhai a Ewyllys

Ddrwg ini; or tû arall Dial. Mae'r naill Grefydd yn Gorchymmyn cadw Cyfammod Priodas yn gyfan ac yn waftadol; a chyd-ddwyn yn oddefgar au gilydd; ar llall yn rhoddi cennad i yr adael ac yfgar au gilydd. yma mae'n rhaid ir Gwr ei hun gyflawni y mae'n ei ofyn gan y Wraig, ac wrth ei efampl ei hun ddyfcu iddi fefydlu ei Serch yn unig arno Ef: Yno cymmerir gwraged ar ol Gwragedd, yn abwydydd newydd beunydd iw trachwantau, yma y mae gwreiddyn a rym Crefydd yn y Galon ar Enaid, fel gwedi jawngyweirio 'r meddwl, y gallo ddwyn ffrwyth buddiol i ddynol-ryw; yno y mae hi 'n treulio ei holl nerth mewn Enwaediad, a rhyw bethau eraill nad ydynt na da na drwg, yma Cynnwyfir ini gymmeryd cymmefurdeb o fwydydd ac o *Win* hefyd. yno gwaherddir bwytta Cig Môch ac yfed Gwin. Er ei fod yn rhodd fawr oddiwrth Dduw, ac yn dda ar lês yr Enaid ar Corph os cymmerir yn gymmhedrol. Ac yn wir cyn dyfod or Gyfraith berffeithiaf. megys y mae Crefydd Chrift, nid oedd ryfedd fod rhyw Egwyddorion bachgennaidd arloefi 'r ffordd iddi; Ond gwedi cyhoeddi honno, peth annhrefnus yw dychwelyd drachefen at Gyfrodau ac Arwyddion. Ac nid all fod un Rhefwm gweddus nac achos i ddwyn i mewn un Grefydd arall; ar ol Crefydd Chrift, yr hon yn ddiammeu yw'r oreu o lawer.

RHAN IX.

Attcb i wrthreſwm y Mahumediaid, ynghylch Mab Duw,

MAe'r *Mahumediaid* yn dywedyd eu bod yn anfoddog jawn am ddywedyd o honom fod Mab gan Dduw, ac ynteu heb un wraig ſel, pe na byddai fodd i fod Arwyddoccâd Dduwiolach a mwy yſprydol ir Gair *Mab* pan yw 'n perthyn i Dduw, Eithr mae *Mahomet* ei hun yn mynegi llawer o bethau am Dduw, ſydd mor anghyfaddas iddo â Phe dywedid fod Gwraig ganddo, megys bod ganddo Law oer, a gwybod o honaw Ff hynny wrth ei theimlo, a bod yn ei garrio mewn Cadair, ar Cyffelyb, Ond pan ydym ni yn dywedyd fod *Jeſu* 'n Fab Duw, yr un perh a ddeallwn ac y mae ynteu pan yw 'n ei alw Gair Duw. Oblegyd y gair mewn rhyw fodd a genhedlir or meddwl, Bwriwch nefyd ei fod gwedi ei genhedlu Forwyn trwy unig nerth y Goruchaf yn gwaith anaethu 'n lle Tâd; ddarfod ei dderchafu ir Nef trwy Allu Duw, a chan fod *Mahomet* ei hun yn cyfaddef y pethau hyn, nid oes iddynt le ei wadu nad oes ir *Jeſu* hawl a Rhagorfraint arbennig herwydd pa ham y gellir ag y dylid ei alw yn Fab Duw.

RHAN X.

Amryw bethau direſwm yn Llyfrau'r Mahumediaid.

EIthr or tû arall, hîr a ſyddai adrodd faint o Gelwyddau ac o hen chwedlau gwrthun direſwm, ſy'n Llyfrau'r *Mahumediaid.* megys bod Merch Lân deg gwedi dyſcu rhyw Gân gyfareddawl gan yr Angylion oeddynt gwedi meddwi; ac y byddai Hi wrth hynny yn arfer o eſcyn ir Nef, a deſcyn yn ol drachefen, ond or diwedd gwedi ymdderchafu o honi'n uchel jawn i entrych y Nefoedd, hi a ddaliwyd gan Dduw, ac a ſefydlwyd yno, a honno (medd ef) yw'r Seren *Venus* neu *Gwener*; cyffelyb yw'r hyn a ddywed Ef am y Llygoden a genhedlwyd, yn Arch *Noah* o fiſwail *Elephant*: a *Chîth* o anadl *Llew.* ac yn benditaddeu lle y dywedodd Ef y troid *Angeu* yn *Hwrdd*, ac y byddai'n trigſannu yn y Canol rhwng Nêf ac Uffern; ac mae chwyſu allan eu ſeigiau a wnaent yn y byd neſaf; ac y ceiff pob un o honynt yr amſer honno ddigonedd o Ferched i fodloni eu trachwantau Cnawdol. Yr holl bethau hyn ſydd cyn ynfytted ac mor ddireſwm, ag yr haeddai'r ſawl au coeliant eu pendifadu au hurtio, o herwydd eu bai eu hunain; yn enwedig pan yw goleuni'r Efangyl yn llewyrchu o'u hamgylch.

RHAN XI.

Clô ar y cwbl, yn rhybuddio'r Chriſt'nogion yng hylch eu Dyledſwydd, o achos y pethau a fyn egwyd or blaen.

GWedi gorphen y Ddadl olaf yma, rwy'n cy feirio fy ymadrodd diweddaf nid at Gref yddolion eraill, eithr at Griſtnogion o ba Gen hedl ac Enw bynnag y mae'nt; gan ddangos a fyrr pa ddefnydd ſydd iw wneuthur or pethau a ddywedpwyd hyd yn hyn; ſel y gwnelont a fyddo union a chyfiawn, ac y gochelont a fo drygionus a Phechadurus, yn gyntaf Derchafant Ddwylo Sanct eiddlân at Dduw, yr Hwn o ddim a wnaeth bob pethau gweledig ac anweledig: gan ymddiried yn ddiſigl ei ſod yn gofalu trofom ni, gan na fyrth un o Adar y Tô heb ei gennad Ef. ac nad oinant y ſawl a allant niweidio 'r Corph yn unig, wrth yr hwn ſydd ganddo ogyfuwch Awdurdod ar Enaid a Chorph. Ymddiriedent nid yn unig i Dduw Tâd, eithr ir *Jeſu* hefyd, gan nad oes un Enw arall tan y Nef trwy 'r hwn y gallwn fod yn gadwedig: a hyn a wnant yn jawn ac yn ddyladwy os yſtyriant nad y Sawl a alwant y naill yn Dâd ár llall yn Arglwydd, a ga'nt fywyd tragywyddol, ond y rhai a drefnont eu Bucheddau yn gyſattebol i Ewyllys Duw. rwy'n eu rhybuddio hefyd, i ddyfal gadw Sanctaidd Athrawiaeth Chriſt megys tryſſor or gwerthfawroccaf; ac ir perwyl hwnnw mynych ddarllennant yr Yſgrythyrau Sanctaidd, y rhai ni thwyll r neb ynddynt, oddieithr iddo'n gyntaf eu dwyllo 'u hunain. Oblegyd ffyddlonach a chyflawnach o Yſprydoliaeth

Dduw

Dduw oedd Awdwyr yr Yſgrythyrau hynny, nag
y chwenychent ein twyllo ni am un gwirioneddd
ngenrheidiol i jechydwriaeth, neu orchuddio'r
yſtryw wirioneddd tan ryw gyſtodion neu gym-
nylau.

Eithr rhaid yw bod gennym feddwl parod i
Ufuddhau; ac os bydd hynny gennym ni chelir
dim rhagom, or pethau ſydd raid ini eu credu au
gobeithio, au gwneuthur, a thrwy 'r moddion yma
y meithrinir ac y cynhyrfir ynom yr Yſpryd hwn-
nw, a roddwyd yn Wyſtl on Dedwyddwch tra-
gywyddol.

Yr wyf heb law hyn yn eu hannog i ochel dyn-
wared y *Cenhedloedd* di-grêd; yn gyntaf ymog-
elant rhag Addoliant Gau-Dduwiau y rhai nid
ydynt ddim ond Enwau ofer, a arferir gan yſ-
prydion drwg i geiſio 'n hudo a'n gŵyr-droi ni
oddiwrth addoliant yr unig wir Dduw, am hyn-
ny ynteu nid allwn mor bod yn gyfrannogion ou
gwaſanaeth Crefyddol hwynt. Canys os byddwn,
ni thyccia Aberth *Chriſt* ini, yn ail, na chyd-ym-
gweddwn â hwynt yn eu hymarweddiad afreolus,
nad oes dim Cyfraith iw ffrwyno, ond rhwyſc
u trachwantau: ac angenrhaid i *Griſtnogion* ym-
gadw 'n hollawl oddiwrth y rhai'n; o herwydd
y dylent rágori llawer nid yn unig ar y Cenhed-
oedd, eithr ar yr Yſgrifennyddion ar *Phariſeaid*
ymmyſc yr *Juddewon*, gan na waſanaetha Cyſ-
wnder y rhei'ny, oedd yn ſefyll mewn rhyw
weithredoedd a Defodau Corphorawl, iw dwyn
i mewn i Deyrnas Nefoedd. Ni thâl Enwaediad
o waith llaw ddim yr awrhon, Eithr Enwaediad
y Galon oddimewn, Cadw gorchymmynion Duw.
y Creadur Newydd, a ffydd yn gweithio trwy
Gariad yw 'r Arwyddion i adnabod Gwir *Iſrael-*
iaid,

Iſraeliaid, ac *Juddewon* dirgeledig, ſef, clodfor wyr a Gwaſanaethwyr Duw, *Rhagluniaeth* Bwy dydd, a Sabbothau a Gwyliau 'r *Juddewon* ni oeddynt ond Cyſcodion pethau ſy 'n gwir hanfo ynGhriſt ar *Chriſt nogion.*

Yn achos Creſydd *Mahomet*, 'r wy 'n dwyn a ddeall iddynt ſod yr Arglwydd *Jeſu* gwedi rhag fynegi y deuai ar ol ei amſer Ef Hudolwyr cel wyddog a daerant eu bod gwedi eu danſon odd iwrth Dduw. Eithr pe deſcynnai Angel or Nêf ni ddylid derbyn na chroeſawu un Athrawiaeth arall amgen nag a draddodwyd gan *Griſt*, ac a gadarnhawyd trwy gynnifer o Dyſtiolaethau. Ob legyd *Duw gwedi iddo lawer gwaith a llawer modd lefaru wrth y Duwiolion a fuant gynt yn* yr hên amſeroedd, *yn ddiweddaf a lefarodd wrthym ni yn ei Fab*, Arglwydd ac *Etifedd pob peth. Diſ cleirdeb Gogoniant* y Tâd, *a Gwir lun* ei hanfod Ef, trwy 'r hwn y gwnaethpwyd pob peth a fu a a fydd, yr hwn ſydd yn llywodraethu ac yn *Cyn nal pob peth trwy air ei nerth* ai Awdurdod; a wedi puro ein pechodau ni trwyddo Ef ei hun a eiſteddodd ar Ddeheulaw Duw, ac a gafod Oruchafiaeth ſwy rhagorol na'r Angylion. O her wydd pa ham nid ellir diſgwyl un Goſodwr Cyf raith anrhydedduſach nac ardderchoccach nag E Ar yr un achos y Coffeir iddynt nad y fath Arfau, ag y mae *Mahomet* yn ymgynnal, wrthyn a dreſnwyd i Filwyr Chriſt, Eithr Arfogaeth yſ prydol, Cymmwys i fwrw Ceſtyll ir llawr. a phob peth uchel ſy 'n ymgodi 'n erbyn Gwybodaet Dduw, Ffydd yw ein Tarian i ddiffodd ac atta piccellau tanllyd y Fall. Ein Dwyfronneg yw Cy hawnder neu Uniondeb Buchedd. Gobaith am Je chydwriaeth tragywyddol, yw 'n Helm neu

Penguwch

Penguwch i guddio 'r fann wannaf. Ein Cleddyf yw Gair Duw, fy'n cyrraedd i eithaf Dirgelfaoedd yr Enaid ar Yſpryd.

Yn neſaf, yr wy 'n eu hannog i Gariad a chyttundeb ymmyſc eu gilydd, megys y gorchymmynodd *Chriſt* yn ddygn-ddifrifol iw Ddiſcyblion, ar ei ymadawiad; ni ddylai fod gennym Ddyſcawdwyr lawer, eithr un *Jeſu Griſt*: Bedyddiwyd pob rhyw Grift'nogion i un Enw, am hynny ynteu, ni ddylai fod amryw Rleidiau a Gwahanedigaethau yn eu plith. Ac er mwyn diwygio, or diwedd, y cyfiryw ddrygau, crybwyllaf am yr ymadroddion *Apoſtolaidd* hynny, ſef na byddor neb uchel ſynnied, yn amgen nag y dylid ſynnied eithr Doeth-ſynnied mewn Sobrwydd, fel y rhannodd Duw i bob un feſur ffydd a gwyboda eth: Od oes rhai heb wybod a deall pob peth fel y dylent, mae 'n rhaid cyd-ddwyn au Gwendid, fel yr hyfryd ymmgyſſylltont â ni, heb nac ymſennu nac ymrafaelio. Od oes rhai 'n rhagori ar Eraill mewn Dealltwriaeth, jawn iddynt ragori hefyd mewn Cariad ac Awyddfryd Sanctaidd i wneuthur Daoni ir llaill. Ac am y ſawl ſy 'n camſynied mewn rhai pethau, rhaid yw diſgwyl wrthynt, hyd oni welo Duw 'n dda ddadcuddio iddynt y gwirionedd ydd etto 'n guddiedig oddiwrthynt. Yr awrhon y gwyddom o ran, Eithr daw 'r amſer y pryd yr adnabyddir pob peth yn eglur ac yn oleu. Hyn hefyd a erfyniai ar bawb; ſef, na chadwon yn anuddiol y Dalent a roddwyd iddynt tan ymddiried. Eithr ymegnio o honynt yn ddieſgeulus i ynill Eraill i Griſt. Ac ir perwyl hynnw, mae'n rhaid iddynt nid yn unig arfer Athrawſaethau cymmwys, ac ymadroddion iachus, eithr ymddygiad Duwiol a gwellhâd Buchedd i gyfarwyddo eraill

wrthynt

wrthynt fel y Canfydder Dajoni ein Harglwyd ynom ni ei Weifion, a phurdeb ein Crefydd y ein Gweithredoedd.

Yn ddiweddaf, fel y dibennwyf lle y dechreu ais gyda'm cyd-wladwyr, rwy'n deifyf, ar bau o honynt, a ddarllenniont y Llyfr Hwn, os can fyddant ddim da ynddo ddiolch o honynt i Ddu am dano; od oes rhyw beth ynddo nad yw bodloni mo'nynt, yftyriant wendid cyffredin Natur Dyn, fy'n hylithr i gamgymmeryd, hefyd y lle ar Amfer y mae'r Gwaith ym gwedi ei fwrw ar frŷs, yn hyttach nai gywrai gyfanfoddi.

DIWEDD.

Ir unig Dduw y byddo'r Gogoniant, trw *Jefu Grift.* Amen.